PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

# Dewch i brofi'r hud a'r lledrith

Ers 1884

18 84





# Bywyd ym Mangor.

## Cynnwys


06 Diwrnodau agored ym Mangor
08 Dysgwch fwy
10 Croeso
16 Ffeithiau a ffigurau
24 Ers 1884
30 Ein dyfodol
32 Darganfod Bangor
38 Cynaliadwyedd ym Mangor
46 Graddedigion Bangor
48 Barn ein myfyrwyr
62 Llwyddiant graddedigion
92 Cydweithio â diwydiant
98 Effaith ein hymchwil
106 Astudio ym Mangor

110 Cyrsiau

126 Blwyddyn ar leoliad
128 Profiad rhyngwladol - astudio neu weithio dramor
130 Blwyddyn sylfaen
132 Gwirfoddoli ym Mangor
134 Cefnogi myfyrwyr
138 Cyflogadwyedd
140 Myfyrwyr hŷn
142 Cefnogaeth i fyfyrwyr rhyngwladol
144 Cyllid, bwrsariaethau ac ysgoloriaethau
146 Sut i wneud cais
148 Cyfleusterau
174 Bywyd a hamdden
176 Ein campysau
180 Llety
184 Adloniant a bywyd nos
190 Undeb y Myfyrwyr
192 Clybiau a chymdeithasau
196 Chwaraeon a lles
201 Cysylltwch â ni

# Diwrnodau agored.

**Ymysg y 10 uchaf yn y Deyrnas Unedig am Foddhad Addysgu.**
(tabl cynghrair prifysgolion y Guardian 2020)

## Dewch i brofi Prifysgol Bangor mewn diwrnod agored naill ai ar y campws neu yn rhithiol.

**Ymysg y 10 uchaf trwy'r Deyrnas Unedig am Foddhad Myfyrwyr**
(Complete University Guide 2021)

## Diwrnodau agored - ar y campws

**Dydd Sadwrn, 25 Mehefin**

**Dydd Sadwrn, 20 Awst**

**Dydd Sul, 9 Hydref**

**Dydd Sul, 30 Hydref**

**Dydd Sadwrn, 26 Tachwedd**

## Diwrnodau Agored Rhithiol
## Edrychwch ar y wefan i gael rhagor o fanylion
**bangor.ac.uk/diwrnodagored**


MAE
THERE



18 84

# Agosach nag y byddech yn ei feddwl.

**Gyda gwasanaeth trenau gwych a ffordd ddeuol anhygoel yr A55 ar hyd yr arfordir, ni allai cyrraedd Bangor fod yn haws nac yn fwy pleserus.**

Yn ogystal â chael golygfeydd ysblennydd o'r môr, bydd eich taith yma yn mynd â chi heibio i Gastell Gwrych (cartref y ddwy gyfres ddiwethaf o *I'm A Celebrity Get Me Out of Here)* a thirwedd dramatig mynyddoedd Eryri.








| O Wrecsam | O Aberystwyth | O Gaerdydd: | O Fanceinion |
|---|---|---|---|
| 68.5 milltir | 85.5 milltir | 180 milltir | 96.6 milltir |
| **Trên cyflym:** 1 awr 59 munud | **Trên cyflym:** 4 awr 13 munud | **Trên cyflym:** 4 awr 15 munud | **Trên cyflym:** 2 awr 13 munud |
| **Car:** 1 awr 20 munud | **Car:** 2 awr 20 munud | **Car:** 4 awr 17 munud | **Car:** 1 awr 55 munud |

## Is-Ganghellor

# Croeso i Fangor.

**Mae mwy na thri chwarter ymchwil Bangor wedi ei chydnabod naill ai gyda'r gorau yn y byd neu yn rhagorol yn rhyngwladol.**

(REF 2014)

**Diolch i chi am eich diddordeb yn ein prifysgol wych. Rwy'n siŵr eich bod yn llawn cyffro wrth ystyried astudio am radd, a dewis y brifysgol iawn yw'r cam cyntaf.**

Mae Bangor yn lle arbennig ac yn gymuned lle cewch gefnogaeth i archwilio a datblygu'ch doniau a chynllunio'ch gyrfa ar gyfer y dyfodol.

Ym Mangor, mae myfyrwyr wrth wraidd popeth a wnawn, ac rydym wedi buddsoddi mewn datblygu cyfleusterau academaidd, chwaraeon a chymdeithasol sy'n ei wneud yn lle hyd yn oed yn fwy cyfeillgar a deniadol i astudio a byw.

Mae gan Fangor gryfderau academaidd ac addysgu rhagorol ac yn sail i hyn oll mae ymchwil sy'n arwain y byd ac sy'n rhagorol yn rhyngwladol, ac rwy'n siŵr y bydd hyn o ddiddordeb i chi.

Mae bron pob un o'n hacademyddion ymchwil yn addysgu, gan sicrhau y byddwch yn elwa'n uniongyrchol o'r wybodaeth sy'n deillio o'n hymchwil.

Bydd bod yn rhan o'n cymuned ym Mhrifysgol Bangor hefyd yn eich galluogi i ennill profiad gwaith gwerthfawr, ac edrych y tu hwnt i'ch cwrs i gymryd rhan mewn ystod eang o gyfleoedd allgyrsiol a gwirfoddoli. Mae llawer o'n myfyrwyr yn dweud wrthym fod rhoi yn ôl i gymdeithas trwy wirfoddoli yn rhoi rhagor o werth i'r profiad a gânt yma.

Mae hyn i gyd yn digwydd yn agos at safle treftadaeth y byd ac ardal o harddwch naturiol eithriadol, sy'n cyfrannu at wneud y profiad ym Mangor yn un cwbl unigryw.

Gobeithio y dewch chi i greu eich dyfodol yma gyda ni.

**Yr Athro Iwan Davies**
Llywydd ac Is-Ganghellor









# JAMES AVISON

## LLYWYDD, UNDEB Y MYFYRWYR

18 84

# Croeso gan Undeb y Myfyrwyr.

**Rydym yn falch iawn o'r bywyd a gaiff myfyrwyr yma ym Mhrifysgol Bangor a chredwn ein bod yn cynnig profiad unigryw ac arbennig i bob myfyriwr, profiadau nad oes eu tebyg i'w cael yn unman arall yn y Deyrnas Unedig.**

Ni yw Undeb Bangor, cartref popeth sy'n ymwneud â myfyrwyr. Undeb Bangor yw'r enw yr ydym yn ei ddefnyddio yn Gymraeg ac yn Saesneg gan ein bod yn ymfalchïo yn ein hamgylchedd dwyieithog, a'n lleoliad yn y byd (yn yr ardal harddaf yng Nghymru, reit ar ymyl Parc Cenedlaethol Eryri!)

Eich Undeb Myfyrwyr chi ydym ac rydym yma ar gyfer holl fyfyrwyr Prifysgol Bangor, dan arweiniad myfyrwyr etholedig sy'n angerddol am gyfoethogi a gwella eich profiad wrth astudio yma.

Un o'r rhesymau allweddol dros ein bodolaeth yw sicrhau bod eich llais yn cael ei glywed ac rydym yn gweithio'n gyson i wneud eich profiad hyd yn oed yn well trwy hyrwyddo projectau a gweithgareddau newydd dan arweiniad myfyrwyr, a chydweithio â'r Brifysgol i wella eich profiad academaidd er eich budd chi a'ch cyfoedion.

Rydym yn falch o'r ffaith mai ni yw'r unig brifysgol gyhoeddus yn y Deyrnas Unedig sy'n cynnig clybiau a chymdeithasau am ddim i bob myfyriwr, sy'n golygu bod mwy o gyfle i gymryd rhan, darganfod neu gael blas ar weithgareddau newydd, cyfleoedd gwirfoddoli, chwaraeon a hobïau nag yn unman arall.

Rydym yn edrych ymlaen at eich croesawu i'n cymuned a'ch helpu chi i ddod o hyd i hobi newydd, cwrdd â ffrindiau o'r un anian, a chael y profiad mwyaf pleserus posib yma yn y Brifysgol.

**Croeso i Fangor!**

**James Avison,**
**Llywydd,**
**Undeb y Myfyrwyr**




**2il trwy'r Deyrnas Unedig am Glybiau a Chymdeithasau.**

Gwobrau Dewis Myfyrwyr WhatUni? 2020

# Croeso gan UMCB.

## Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor



**1/4**
**Mae gan chwarter ein myfyrwyr sgiliau Cymraeg.**

**75%**
**Mae 75% o weithlu'r Brifysgol yn siarad Cymraeg.**



**Mae UMCB yn cynrychioli myfyrwyr Cymraeg Bangor yn academaidd ac yn gymdeithasol.**

Caiff UMCB ei arwain gan Lywydd UMCB sy'n aelod o dîm Swyddogion Sabothol llawn amser Undeb Bangor. Mae gan UMCB Bwyllgor Gwaith sydd hefyd yn cydlynu ac yn helpu wrth drefnu digwyddiadau, gwneud penderfyniadau ac adrodd yn ôl am unrhyw broblemau sydd gan fyfyrwyr. 14 o aelodau sydd ar y Pwyllgor, gyda'r aelodau i gyd yn cael eu hethol i'r Pwyllgor gan y myfyrwyr eu hunain.

Mae unrhyw fyfyriwr sydd â sgiliau Cymraeg o unrhyw safon yn aelod awtomatig o UMCB. Rydym yn cynnal amryw o ddigwyddiadau ac yn cynnig gwahanol gymdeithasau a chlybiau i gyd drwy Gyfrwng y Gymraeg.

Mae gennym ni gymdeithasau megis côr Aelwyd JMJ, clybiau Chwaraeon y Cymric sydd â thimau rygbi a phêl-droed i ferched a dynion, yn ogystal a thimau hoci a phêl-rwyd i ferched. Cymdeithas John Gwilym Jones yw'r gymdeithas farddoniaeth, llenyddiaeth a drama; Y Llef yw ein platfform digidol; Radio UMCB yw ein gorsaf radio, ac mae'r project Ffrind Cymraeg yn gyfle i gyfarfod â dysgwyr Cymraeg mewn awyrgylch anffurfiol.

Rydym hefyd yn trefnu trip rygbi blynyddol i Ddulyn neu Gaeredin ac yn mynychu'r Ddawns a'r Eisteddfod Ryng-golegol bob blwyddyn.

Byddwn yn falch iawn o gael eich croesawu i'n cymuned ym Mangor ac edrychwn ymlaen at gwrdd â chi!

**Mabon Dafydd**
**Llywydd, UMCB**




# MABON DAFYDD

## LLYWYDD, UMCB

18 84



# Ers 1884.

## Ffeithiau a ffigurau





**Sefydlwyd Prifysgol Bangor ym 1884, wedi ei hariannu yn rhannol gan chwarelwyr a ffermwyr a oedd am roi cyfle i bobl leol Gogledd Cymru gael mynediad at addysg uwch - gan ei gwneud yn un o'r sefydliadau dyfarnu graddau hynaf a mwyaf mawreddog yn y Deyrnas Unedig.**

Mae'r Brifysgol mewn lleoliad heb ei ail rhwng y mynyddoedd a'r môr. Byddwch yn astudio dafliad carreg o dirwedd llechi ddramatig Gogledd Orllewin Cymru a wnaed yn safle Treftadaeth y Byd UNESCO yn 2021, gan ymuno â chyrchfannau megis y Taj Mahal, Parc Cenedlaethol y Grand Canyon a Machu Picchu.

Mae cysylltiad y Brifysgol â'r diwydiant llechi yn rhan bwysig o'i hanes, a hynny oherwydd gweledigaeth a phenderfyniad y chwarelwyr, eu teuluoedd a'u cymunedau. Cyfrannodd y chwarelwyr symiau rheolaidd o'u cyflogau i godi arian i sefydlu prifysgol yng Ngogledd Cymru.

Ar hyn o bryd mae tua 10,000 o fyfyrwyr yn astudio yn y Brifysgol, ac mae Bangor yn cynnig rhywbeth i bawb. Mae'n adnabyddus am ragoriaeth academaidd, ymchwil sy'n arwain y byd a chymuned groesawgar, gyda Pharc Cenedlaethol Eryri yn gefndir syfrdanol i'r cwbl.

# Pam dewis Bangor?







- **Ymysg y 10 uchaf trwy'r Deyrnas Unedig** o ran Boddhad Myfyrwyr *(Complete University Guide 2021)*
- **Ymysg yr 20 uchaf trwy'r Deyrnas Unedig** am Foddhad gyda'r Cwrs (tabl cynghrair prifysgolion y *Guardian 2021*)
- **Mae mwy na thri chwarter ymchwil Bangor** wedi ei chydnabod naill ai gyda'r gorau yn y byd neu yn rhagorol yn rhyngwladol (Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014)
- **Y gorau trwy'r Deyrnas Unedig** ar sail adolygiadau StudentCrowd *(StudentCrowd Reviews 2020)*
- **Ymysg y 15 uchaf yn y Deyrnas Unedig** am Ansawdd Addysgu *(The Times* a *The Sunday Times Good University Guide 2020).*
- **15fed yn y byd** am Gynaliadwyedd *(UI GreenMetric World University Rankings, 2021)*
- **Ail trwy'r Deyrnas Unedig** am Glybiau a Chymdeithasau *(WhatUni Student Choice Awards 2020)*
- **Ymysg y 25 uchaf trwy'r Deyrnas Unedig** am Ragolygon Swyddi *(WhatUni? Awards, 2020)*
- **Rhif 1** o ran y dref brifysgol fwyaf fforddiadwy *(Totally Money, 2019)*
- **Aeth 92% o'n graddedigion ymlaen i gyflogaeth** neu astudiaethau pellach o fewn 15 mis i raddio (Arolwg Deilliannau Graddedigion, Carfan 2018/19)





Prif Adeilad y Celfyddydau ac Afon Menai

## Ffaith 1: Ynglŷn â Dinas Bangor

Bangor yw'r ddinas hynaf yng Nghymru ac un o ddinasoedd lleiaf y Deyrnas Unedig. Mae'r ddinas wedi'i lleoli yng Ngwynedd yng Ngogledd Cymru, ar lannau hardd afon Menai. Hen air Cymraeg yw 'Bangor' am dir wedi ei amgylchynu â ffens blethedig, megis yr un a amgylchynai safle'r Gadeirlan yn wreiddiol.

## Ffaith 2: Ynglŷn â'r Wyddfa

Yr Wyddfa yw'r mynydd uchaf yng Nghymru a'r man uchaf yn Ynysoedd Prydain y tu allan i Ucheldir yr Alban. Saif copa'r Wyddfa 1,085 metr uwchlaw lefel y môr. Os nad oes arnoch awydd dringo, gallwch deithio i'r copa ar drên bach yr Wyddfa!

Parc Cenedlaethol Eryri



**1951**

**Eryri yw parc cenedlaethol hynaf Cymru, a sefydlwyd yn 1951.**



**Ffaith 3:**
**Ynglŷn â Pier Garth**

Dathlwyd 125 mlynedd ers agor Pier Garth Bangor yn 2021. Mae'n 460m o hyd ac felly dyma'r pier ail hiraf yng Nghymru. Mwynhewch y golygfeydd syfrdanol neu prynwch fwyd neu anrhegion o un o'r nifer o giosgau Fictoraidd tlws sydd yno.

**Ffaith 4:**
**Ynglŷn â chestyll**

Yn aml, gelwir Cymru yn 'wlad y cestyll' - mae 427 ohonyn nhw i gyd! Mae gan Gymru fwy o gestyll fesul milltir sgwâr nag unrhyw wlad arall yn Ewrop. Mae Castell Caernarfon, Castell Biwmares, Castell Dolbadarn a Chastell Conwy i gyd o fewn taith hanner awr i Fangor.

**Castell Dolbadarn**



**Ffaith 5:**
**Ynglŷn â Neuadd Prichard-Jones**

Ar 23 Awst 1939, wythnos cyn dechrau'r Ail Ryfel Byd, dechreuodd yr Oriel Genedlaethol yn Llundain gludo'r gweithiau celf mwyaf gwerthfawr i Fangor, gan fod pryder y byddai bomiau'n cael eu gollwng ar Lundain. Cafodd mwy na 500 o baentiadau, gan gynnwys gweithiau gan Botticelli, Rubens a Rembrandt eu storio yn Neuadd PJ y Brifysgol.



Castell Caernarfon

### Ffaith 6:
### Ynglŷn â Chadeirlan Deiniol Sant

Cadeirlan Deiniol Sant, yng nghanol y ddinas, yw'r Eglwys Gadeiriol hynaf i gael ei sefydlu ym Mhrydain, tua'r flwyddyn 525 OC. Mae llawer o dywysogion brodorol Cymru wedi'u claddu ar y safle.



### Ffaith 7:
### Ynglŷn â statws Treftadaeth y Byd UNESCO

Dyfarnwyd statws Treftadaeth y Byd i Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru gan UNESCO (The United Nations Educational, Scientific and Cultural Organization) ym mis Gorffennaf 2021, ar ôl ymgyrch hir.



### Ffaith 8:
### Ynglŷn â ZipWorld

Ydych chi'n rhywun sy'n chwilio am gyffro? Dim ond 7 milltir o Fangor mae gwifren wib gyflymaf y byd, ac un hiraf Ewrop, Velocity 2 yn Zip World, lle ceir pedair gwifren gyfochrog yn rhychwantu 1.5 cilometr dros ddŵr glas hyfryd llyn Chwarel y Penrhyn.





18 84

# Cydnabod rhagoriaeth.




**Mae ein Cymrodoriaethau a'n Graddau er Anrhydedd yn ddyfarniadau mawr eu bri a roddwn i unigolion nodedig sydd â chysylltiad â'r Brifysgol, neu â Chymru, ac sydd wedi gwneud cyfraniad eithriadol yn eu gwahanol feysydd.**

## Syr David Attenborough, OM, CH, CVO, CBE, FRS

Roedd Syr David yn un o ddim ond pedwar unigolyn i dderbyn Gradd er Anrhydedd i nodi 125 mlwyddiant y brifysgol.

Dyfarnwyd y Radd er Anrhydedd iddo am wasanaethau i ddarlledu ac astudio'r amgylchedd.

Astudiodd tad Syr David yng Ngholeg y Normal ym Mangor, a threuliodd y teulu sawl gwyliau teuluol yn yr ardal.

Am y dyfarniad, dywedodd:

"Mae'n gryn fraint cael derbyn y radd hon er anrhydedd. Treuliais sawl gwyliau hapus ar yr ynys (Môn) yn astudio'r adar a'r ffosiliau rhyfeddol sydd i'w cael ar y traeth ym Mhenmon. Rwyf wrth fy modd hefyd, oherwydd mae gan y Brifysgol hon enw da am astudio gwyddorau'r amgylchedd a'r môr. Mae ar y byd angen pobl sy'n fedrus o ran yr arbenigedd a'r ymchwil sydd eu hangen i chwarae rhan yn y gwaith hanfodol o ddatrys problemau'r byd. Nid oes unrhyw fath o anrhydedd y byddwn yn ei gwerthfawrogi'n fwy nag anrhydedd a roddir gan brifysgol."

## George North

Chwaraewr rygbi dros Gymru a'r Llewod Prydeinig a Gwyddelig yw George North. Fe'i magwyd ar Ynys Môn ac aeth i Ysgol Bodedern. Ag yntau'n 18 mlwydd a 214 diwrnod oed ef oedd y chwaraewr ieuengaf erioed i sgorio cais yn ei gêm gyntaf dros Gymru. Dyfarnwyd Cymrodoriaeth er Anrhydedd iddo am ei wasanaeth i chwaraeon yn 2014.






### Huw Stephens

Cyflwynydd radio a theledu o Gymru yw Huw Stephens, sy’n darlledu ar BBC Radio Cymru a BBC Radio 6 Music. Ymunodd Huw â BBC Radio 1 yn 17 oed, ac ef yw’r DJ ieuengaf erioed ar Radio 1. Derbyniodd Gymrodoriaeth er Anrhydedd yn 2015 am ei wasanaeth i gerddoriaeth.

### Dr Ruth Hussey CB OBE

Roedd Dr Ruth Hussey yn Brif Swyddog Meddygol a Chyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru, a dyfarnwyd Cymrodoriaeth er Anrhydedd iddi am ei gwasanaeth i'r gwyddorau meddygol yn 2016.









## Yr Athro Dr Karin Lochte

Cyn-fyfyrwraig yw Karin Lochte sy'n adnabyddus am ei hymrwymiad i wyddor môr ryngwladol ac, yn benodol, am ei gwaith arweiniol yn Sefydliad Alfred Wegener ac, yn fwyaf diweddar, fel aelod o Gyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol. Dyfarnwyd Cymrodoriaeth er Anrhydedd iddi am ei gwasanaethau i fioleg môr yn 2019.





## Danny Boyle - Cyfarwyddwr a enillodd Oscar

Graddiodd Danny Boyle o Brifysgol Bangor ym 1978 gyda gradd mewn Saesneg a Drama. Ei broject mwyaf llwyddiannus hyd yma yw 'Slumdog Millionaire' yn 2008, a enillodd wyth Oscar gan gynnwys yr Oscar am y Cyfarwyddwr Gorau. Ymhlith y ffilmiau eraill y mae Danny Boyle wedi eu cyfarwyddo mae 'Trainspotting', '127 Hours', 'The Beach' ac 'A Life Less Ordinary' a 'Yesterday'. Ef hefyd oedd yn cyfarwyddo seremoni agoriadol Gemau Olympaidd Llundain 2012.

## Dr Thomas Parry Jones OBE - Trawsnewid deddfwriaeth yfed a gyrru

Dr Thomas Parry Jones OBE (1935-2013) oedd un o'r gwyddonwyr ac entrepreneuriaid pennaf o fri rhyngwladol yng Nghymru. Graddiodd mewn Cemeg o Fangor ym 1958. Datblygodd Dr Thomas Parry Jones yr anadlydd electronig, sef yr 'Alcolyser', ac ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach datblygodd 'Alcolmeter' cledr llaw, a werthodd mewn niferoedd mawr ledled y byd a thrawsnewid y ffordd yr oedd heddluoedd yn gallu gorfodi deddfwriaeth yfed a gyrru.



## Frances Barber - Actores a enwebwyd am Wobr Olivier

Actores o Brydain yw Frances Barber a enwebwyd am Wobr Olivier. Cafodd yrfa hir a llewyrchus ar y llwyfan, ac ymddangosodd hefyd mewn nifer o gynyrchiadau ffilm a theledu. Graddiodd Frances o Brifysgol Bangor ym 1978 gyda gradd mewn Saesneg a Drama.



### Mary Sutherland - Y fyfyrwraig gyntaf yn y byd i gael gradd mewn coedwigaeth

Graddiodd Mary Sutherland, y ferch gyntaf yn y bydd i raddio mewn coedwigaeth, o Brifysgol Bangor ym 1916. Aeth yn ei blaen i gael gyrfa ddisglair mewn coedwigaeth yn y Deyrnas Unedig ac yn Seland Newydd, a hi sefydlodd Sefydliad Coedwigaeth Seland Newydd ym 1927. Gellir dod o hyd i gochwydden er cof am Mary Sutherland yng Nghoedwig Whakarewarewa, ac mae Prifysgol Bangor bellach yn dyfarnu gwobr Mary Sutherland bob blwyddyn i'r fyfyrwraig orau sy'n graddio mewn coedwigaeth.

"Wrth deithio o amgylch Seland Newydd, rwy'n teimlo y dylai pob coedwigwr ymweld â chofeb Mary Sutherland ymhlith y cochwydd yng nghoedwig Whakarewarewa, Rotorua. Roedd hi'n ddynes ysbrydoledig, ac mae'n parhau i fod."

**Sarah Ellis - Enillydd Gwobr Mary Sutherland i'r Fyfyrwraig Orau sy'n Graddio mewn Coedwigaeth 2020**



# Cyn-fyfyrwyr enwog.



### Syr Robert Geoffrey Edwards CBE FRS MAE- Enillydd Gwobr Nobel

Roedd Syr Robert Geoffrey Edwards CBE FRS MAE (1925-2013) yn gyn-fyfyriwr ac yn enillydd Gwobr Nobel, a raddiodd o Brifysgol Bangor ym 1951 gyda gradd mewn Sŵoleg. Ochr yn ochr â'r gynaecolegydd Patrick Steptoe, ef ddatblygodd driniaeth IVF, sef triniaeth lle caiff wy-gelloedd eu ffrwythloni y tu allan i'r corff. Amcangyfrifir bod mwy na hanner miliwn o fabanod yn cael eu geni yn dilyn triniaeth IVF bob blwyddyn.

### Bridget Jones - Eicon ffuglennol

**Yn ôl llyfrau Helen Fielding, astudiodd Bridget Jones, yr enwocaf o'n cyn-fyfyrwyr ffuglennol, am radd mewn Ieithyddiaeth ym Mangor!**

18 84



# Strategaeth 2030.

**Strategaeth 2030 yw'r 'golau ar y bryn', yn disgrifio ble y bwriadwn fod yn 2030 a'r siwrnai y byddwn yn cychwyn arni i gyrraedd yno.**

Yn ein dau gampws yng Ngogledd Cymru, ym Mangor ac yn Wrecsam, ein pobl sydd wrth wraidd y strategaeth hon ac mae pedair blaenoriaeth strategol yn sylfaen i bopeth a wnawn - rhagoriaeth ymchwil; profiadau dysgu trawsnewidiol; profiad rhagorol i fyfyrwyr; ac amgylchedd dwyieithog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

Credwn fod gan Brifysgol Bangor ran i'w chwarae mewn cymdeithas. Rydym yn gweithio i fod yn rym er daioni, gan feithrin y pwyslais sydd gennym ar ddarganfod, cynaliadwyedd, diogelu'r amgylchedd, a hyrwyddo ffyniant yr economi, cymdeithas, dwyieithrwydd a diwylliant.

Gallwch ddarllen dogfen lawn Strategaeth 2030 yma: **bangor.ac.uk/strategaeth-2030**









# Darganfod Bangor.

# Yn falch o fod yn gynhwysol.

## Ein cymuned amrywiol

**Mae yma fyfyrwyr o bob cwr o'r byd a chefndiroedd gwahanol iawn, a bwriad Prifysgol Bangor yw creu amgylchedd i chi fyw ac astudio ynddo sy'n sicrhau y gallwch fod yn chi eich hun, manteisio ar bob cyfle a chyrraedd eich llawn botensial.**

Ym Mangor byddwch yn cwrdd â phobl o bob cymuned dan haul. Bydd eich cyd-fyfyrwyr yn ddiddorol ac yn greadigol ac yn ysgogiad i'r meddwl. Bydd ganddynt safbwyntiau gwahanol i chi a gallent eich herio o ran sut yr ydych yn gweld y byd. Trwy'r profiadau a rennir ym mywyd y brifysgol, ceisiwn sicrhau y gall pob myfyriwr ymhyfrydu yn y gymuned amrywiol sydd ohoni a dysgu cymaint â phosibl yn ystod eu hamser ym Mangor.

Mae ein hymrwymiad i gydraddoldeb a chynhwysiant yn fwy na dim ond polisi. Mae ein hymrwymiad yn arfer beunyddiol sy'n sicrhau eich bod yn teimlo eich bod yn cael croeso, yn cael eich gwerthfawrogi a bod gennych fynediad cyfartal at wasanaethau cefnogi.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo'n llwyr i egwyddorion siarter Athena SWAN ar gyfer y staff. Dyma fframwaith a ddefnyddir ledled y byd i gefnogi a thrawsnewid cydraddoldeb rhywiol mewn addysg uwch ac ymchwil. Mae gennym wobr Efydd Athena SWAN ers 2011.

Mae ein gwefan yn cynnig gwybodaeth am y ffyrdd yr ydym yn cynnal ac yn gwella cymuned gynhwysol Bangor gan gynnwys rhannu gwybodaeth am gefnogaeth a chyngor, gwybodaeth am sut rydym yn hyrwyddo cydraddoldeb a manylion am sut rydym yn cynnal campws diogel.

**bangor.ac.uk/cymuned-gynhwysol**





→ **100**

**Ym Mangor mae myfyrwyr o dros 100 o wledydd, sef 20% o gymuned gosmopolitanaidd o fyfyrwyr.**





# Y Gymraeg ym Mangor.




**Saif y Brifysgol yn un o'r ardaloedd dwyieithog mwyaf bywiog yn y Deyrnas Unedig ac mae Cymraeg a Saesneg i'w gweld a'u clywed ym mhob agwedd ar fywyd.**

Mae Prifysgol Bangor yn arwain y ffordd wrth ddatblygu a chynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i ddefnyddio'r Gymraeg, a chyfrannu at strategaeth Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg. I'r myfyrwyr hynny sy'n dymuno astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, mae Bangor yn gwneud hynny'n bosibl, ac ym Mhrifysgol Bangor mae'r nifer fwyaf o ddarlithwyr sy'n addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae gennych chi'r dewis ynghylch faint o'ch cwrs yr hoffech ei astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n Llawlyfr Modiwlau Cymraeg yn dangos yr holl ddewis o fodiwlau sydd ar gael i'w hastudio yn yr iaith ym mhob pwnc. Fel myfyrwyr sy'n siaradwyr Cymraeg, gallwch gyflwyno eich aseiniadau a chwblhau eich arholiadau drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer pob modiwl.

Rydym yn cynnig cyfle i bob myfyriwr ddysgu neu ddatblygu ei sgiliau Cymraeg. Mae Canolfan Bedwyr (Canolfan Gwasanaethau, Technoleg ac Ymchwil Cymraeg Prifysgol Bangor) yn cynnig nifer o fodiwlau i fyfyrwyr sy'n dymuno gwella eu sgiliau Cymraeg a dod yn fwy hyderus wrth ddefnyddio'r iaith yn eu gwaith academaidd, yn ogystal â chwrs hunan-astudio ar-lein i ddechreuwyr. Yn ychwanegol, rydym yn gweithio'n agos gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i sicrhau a datblygu rhagor o gyfleoedd astudio cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys y cyfle i ymgeisio am Dystysgrif Sgiliau Iaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.





# Ein dyfodol cynaliadwy.

**Ym Mhrifysgol Bangor ceisiwn weithredu er gwell. Ein nod yw ysbrydoli'r gymuned academaidd, timau'r Gwasanaethau Proffesiynol, a'r myfyrwyr i greu byd mwy cynaliadwy sy'n cyd-daro â'r weledigaeth sydd gennym i sbarduno llwyddiant trwy ymchwil ac addysgu trawsnewidiol, arloesol sydd â phwyslais ar effaith.**

Credwn fod gan y Brifysgol ran i'w chwarae mewn cymdeithas, gan feithrin y pwyslais sydd gennym ar ddarganfod, cynaliadwyedd, diogelu'r amgylchedd, a hyrwyddo ffyniant yr economi, cymdeithas, dwyieithrwydd a diwylliant. Fel Prifysgol a arweinir gan ymchwil ac fel unigolion sy'n poeni'n fawr am y byd yr ydym yn byw ynddo, rydym am gyfrannu at ddatrys heriau'r byd, megis y newid yn yr hinsawdd, anghydraddoldebau iechyd, a datblygu'r gweithlu. Rydym yn frwd dros hyrwyddo diwylliant ac ysgolheictod o stiwardiaeth amgylcheddol, byw mewn cytgord, a gofalu am y byd mewn ffyrdd sy'n diwallu ein hanghenion economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Gydag ymchwil o fri rhyngwladol yn sylfaen, byddwn yn cefnogi datblygiad Cymru fel gwlad ddwyieithog a gwlad sy'n dysgu, gydag economi a sbardunir gan wybodaeth er lles y byd a chenedlaethau'r dyfodol.

**Yr Athro Iwan Davies**
**Llywydd ac Is-Ganghellor**
**(Strategaeth 2030)**

## Ymhlith y 25 Uchaf yn y Deyrnas Unedig.

**(Cynghrair Effaith Addysg Uwch y Times wedi ei asesu yn erbyn Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, 2021)**

# Prifysgol o'r Radd Flaenaf.

(People & Planet University League, 2021)

PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

# 15fed yn y byd.

**(am Gynaliadwyedd, UI GreenMetric World University Rankings, 2021)**

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY



# DR CHRISTIAN DUNN, DIRPRWY IS-GANGHELLOR CYNORTHWYOL DROS GYNALIADWYEDD

18 84

'Mae cynaliadwyedd yn fwy na'r amgylchedd, ac mae'n fwy na gwaith un adran - mae ym mhopeth a wnawn. Gan weithio gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) Llywodraeth Cymru 2015, a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, ymrwymwn i unioni'r heriau y mae'r gymuned fyd-eang yn eu hwynebu.'

Dr Christian Dunn

**17 Nod Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig**

1: Dim Tlodi
2: Dim Newyn
3: Iechyd Da a Llesiant
4: Addysg Dda
5: Cydraddoldeb Rhywiol
6: Dŵr Glân a Glanweithdra
7: Ynni Fforddiadwy a Glân
8: Gwaith Da a Thwf Economaidd
9: Diwydiant, Arloesedd a Seilwaith
10: Lleihau Anghydraddoldeb
11: Dinasoedd a Chymunedau Cynaliadwy
12: Treuliant a Chynhyrchu Cyfrifol
13: Gweithredu ar yr Hinsawdd
14: Bywyd o dan y Dŵr
15: Bywyd ar y Tir
16: Heddwch, Cyfiawnder a Sefydliadau Cryf
17: Partneriaethau i gyflawni'r Nod

# Dim ond peth o'n heffaith hyd yma...

### Dim newyn
Amcangyfrifir bod 30-40% o ffrwythau a llysiau Uganda yn cael eu gwastraffu cyn cyrraedd y farchnad. Mae Prifysgol Bangor yn gweithio gyda chydweithwyr ym Mhrifysgol Makerere yn Uganda i ddatblygu dulliau amgen o becynnu bwyd yn gynaliadwy.

### Gwastraff bwyd
Project bwyd o dan arweiniad myfyrwyr Prifysgol Bangor yw'r Ddraig Lwglyd, ac mae'n arbed bwyd sydd dros ben ym Mangor. Yn ddiweddar, mewn partneriaeth â Chaffi Pris Teg Bangor, maent yn troi ffrwythau a llysiau dros ben o archfarchnadoedd lleol yn gyffeithiau ac yn brydau bwyd.

### Addysg dda
Mae grŵp rhyngwladol o ymchwilwyr o dan arweiniad Bangor wedi datblygu Cyfres o Asesiadau Amlieithog o Lythrennedd Cynnar (MABEL) - yr adnodd cyntaf sydd ar gael yn rhad ac am ddim ar y we, sy'n cynnig cyfres o brofion asesu mewn pum iaith. Cyn y project hwnnw, nid oedd gan y prif fuddiolwyr mewn 22 o wledydd werthusiadau gwrthrychol o ansawdd uchel ar sail tystiolaeth er mwyn canfod diffygion llythrennedd yn gynnar mewn plant.

### Cydraddoldeb rhywiol
Bydd Prifysgol Bangor yn cyfrannu arbenigedd at broject Ewropeaidd newydd i wella galluoedd gofodol plant, gyda'r nod o helpu cau'r bwlch rhwng y rhywiau ym maes gwyddoniaeth, peirianneg, technoleg a mathemateg (STEM).

Mae modiwl Hil a Rhyw yr Ysgol Iaith, Diwylliant a'r Celfyddydau yn canolbwyntio ar y rôl y mae rhyw, rhywedd, ethnigrwydd a hil yn ei chwarae o ran creu, derbyn a ffurfiant damcaniaethol gwahanol fathau o ffilm a diwylliant gweledol.

### Dŵr glân a glanweithdra
Mae'r Brifysgol yn gosod targedau iddi'i hun i ddefnyddio llai o ddŵr fel rhan o'i System Rheoli Amgylcheddol. Rhwng 2005 a 2020, gostyngwyd defnydd dŵr gan 42.9% fesul $m^2$ o arwynebedd llawr.

### Tlodi mislif
Anghenraid yw cynhyrchion mislif nid moethusrwydd. Mae'r cynllun Tlodi Mislif dan arweiniad myfyrwyr yn cynnig cynhyrchion mislif am ddim i fyfyrwyr.

### Ynni fforddiadwy a glân
Fel Prifysgol, rydym yn deall bod ein defnydd o ynni sy'n deillio o danwydd ffosil yn cyfrannu at newid hinsawdd byd-eang. Yn 2019, gwnaethom ddatgan Argyfwng yr Hinsawdd a chyhoeddi bod 100% o'n trydan bellach yn cael ei gyflenwi o ffynonellau adnewyddadwy gwarantedig.

Mae gennym arbenigedd mewn ynni adnewyddadwy morol (gan gynnwys lliniaru'r effeithiau ar fywyd gwyllt y môr) ac ynni niwclear, sy'n hanfodol i barhau i ddatgarboneiddio'r modd yr ydym yn cynhyrchu trydan, ac sy'n sail i ostwng allyriadau mewn sectorau eraill. Mae Gogledd Cymru yn lle da yn ddaearyddol i arwain ar dechnolegau amgylcheddol.

### Diwydiant, arloesedd a seilwaith
Cipiodd entrepreneur o Brifysgol Bangor Wobr y Beirniaid yng Ngwobrau Entrepreneuriaid Newydd 2020 Prifysgolion Santander, o blith dros 80 o gystadleuwyr.

Datblygodd myfyrwraig MSc o'r enw Jan Lloyd 'Henry's Cushion', sef teclyn cymorth addysgol dieiriau, a ddeilliodd o sgwrs rhwng Jan a'i mab awtistig, Henry a gyda chefnogaeth wych tîm Byddwch Fentrus y Brifysgol, Yr Ysgol Seicoleg, Syniadau Mawr Cymru, M-SParc a'r Hwb Menter.





Mae ymchwilwyr Bangor yn gweithio'n ddyfal gyda phartneriaid ym myd diwydiant i leihau allyriadau mewn amryw o sectorau. Mae gennym Ganolfan BioGyfansoddion sy'n datblygu deunyddiau gwyrdd i leihau'r effaith amgylcheddol a chloi carbon, er mwyn gwneud y sectorau gweithgynhyrchu ac adeiladu yn fwy gwyrdd a helpu i ddisodli concrit a dur. Rydym hefyd yn gweithio i leihau ôl troed carbon telathrebu.

### Treuliant a chynhyrchu cyfrifol

Yn 2019/20 llwyddodd y Brifysgol i beidio ag anfon 100% o'i gwastraff i safleoedd tirlenwi. O'r gwastraff na chafodd ei anfon i safleoedd tirlenwi cafodd 2% ei ailddefnyddio, cafodd 59% ei ailgylchu ac adferwyd 39%.

Cynhyrchwyd 617T o wastraff, gostyngiad o 196T (24%) ar y flwyddyn flaenorol. Ein nod yw ailddefnyddio/ailgylchu 70% o'n gwastraff erbyn Gorffennaf 2025, fel y nodir yn strategaeth wastraff gyffredinol Cymru - Tuag at Ddyfodol Di-wastraff.

### Gweithredu ar yr hinsawdd

Mae'r Brifysgol yn deall bod ein defnydd o ynni sy'n deillio o danwydd ffosil yn cyfrannu at y newid yn yr hinsawdd yn fyd-eang. Yn 2020 cymeradwywyd targed i gyrraedd carbon net-sero erbyn 2030. Rydym bellach wrthi'n datblygu cynllun gweithredu er mwyn cyflawni'r fath darged uchelgeisiol.

**Darllenwch fwy am yr ymrwymiad i gynaliadwyedd:**

**bangor.ac.uk/bangor-yr-hud-ar-lledrith**

# Graddedigion Bangor.





**Fel un o raddedigion Bangor, bydd gennych yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth, y sgiliau a'r priodoleddau sydd eu hangen i weithio a byw mewn ffordd sy'n diogelu lles amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol, a hynny heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.**

Ein gweledigaeth yw rhoi cyfle i bob myfyriwr a phob aelod o'r staff ddatblygu eu syniadaeth a'u diddordebau trwy brofiadau dysgu cyfoethog a thrawsnewidiol.

Rydym yn trawsnewid ein hamgylchedd dysgu ac addysgu digidol er mwyn gwella ein gallu digidol, gan ddwyn ynghyd y defnydd o dechnoleg ddigidol, ein darpariaeth Addysg Drawswladol a'n harbenigedd mewn dwyieithrwydd, i ddatblygu'r ystafell ddosbarth ryngwladol, fel y bydd myfyrwyr yn barod am y cyd-destun byd-eang ac yn gallu ffynnu ynddo.

Er mwyn sicrhau bod ein haddysgu'n diwallu anghenion y boblogaeth amrywiol o fyfyrwyr sydd yma, rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'r myfyrwyr i greu amgylchedd dysgu sy'n ysbrydoli, yn cefnogi ac yn herio.

**A wyddech chi?**
Mae'r cyflwynydd teledu a'r fforiwr, Steve Backshall, yn rhan o dîm addysgu Prifysgol Bangor, ac mae'n rhannu ei brofiad helaeth o fyd natur a chynhyrchiadau teledu gyda'r myfyrwyr. Mae'n ysbrydoliaeth i lawer o fyfyrwyr, a gawsant eu magu'n gwylio rhaglenni megis 'Deadly 60' ac a gawsant eu hysbrydoli i ddilyn astudiaethau yn y gwyddorau naturiol a gwyddorau'r eigion yma ym Mangor.





# 'Does yna ddim llawer o bethau yr ydw i'n eu difaru, ond peidio ag astudio ym Mangor yw un ohonyn nhw.'

**Steve Backshall**
Darlithydd Anrhydeddus ac yn rhan o dîm addysgu Prifysgol Bangor; naturiaethwr, fforiwr a chyflwynydd





# Barn ein myfyrwyr.

bangor.ac.uk/bangor-yr-hud-ar-lledrith



## Akshata Galgali
**Yn Astudio: Y Gyfraith**
**O: India**

"Bu'n brofiad anhygoel astudio yn Ysgol y Gyfraith Bangor; mae'r darlithwyr yn hynod gymwynasgar ac yn rhoi anogaeth i'r myfyrwyr gynllunio eu dyfodol. Rhoddodd y gefnogaeth a gefais eglurder imi benderfynu beth ddaw nesaf!

"Lleoliad Bangor yw'r hyn sy'n ei gwneud yn unigryw o'i chymharu â phrifysgolion eraill. Mae cymaint o heddwch a harddwch i allu cymryd seibiant o'r astudio a mynd am dro gyda byd natur ar bob tu."

## Sabrina Zulkifli
**Yn Astudio: Peirianneg Systemau Cyfrifiadurol**
**O: Malaysia**

“Dinas fach yw Bangor, ac mae hynny’n meithrin cymuned glos a ddaeth yn gartref imi a minnau oddi cartref. Mae'r sgiliau a'r pynciau a ddysgais wedi fy mharatoi ar gyfer amrywiol gyfleoedd gwaith.

"Mae'r adran yn cynnig perthynas wych rhwng y myfyrwyr a’r staff ac rydw i wedi datblygu perthynas rwydd a braf gyda'r darlithwyr a'r staff gweinyddol. Yn sicr, mi wnaeth hynny fy mhrofiad ym Mangor yn un bendigedig!”





## Gawina Fernandes
## Yn Astudio: Peirianneg Systemau Cyfrifiadurol
## O: Chippenham, Y Deyrnas Unedig

“Rydw i yn nhrydedd flwyddyn fy ngradd, ac yn y dyfodol bwriadaf weithio mewn amgylchedd cyfeillgar gyda pheirianwyr. Rwyf hefyd eisiau gwneud gradd Meistr mewn Cyfathrebu. Mae fy narlithwyr yn gyfeillgar ac yn garedig iawn; cawn lawer o help ganddynt o'r ochr academaidd a'r ochr anacademaidd.

“Mae llawer o glybiau a chymdeithasau ym Mangor hefyd ac mae ymuno â nhw i gymdeithasu’n anhygoel.”




# Owain Arwel Hughes
## Yn Astudio: Cymraeg
## O: Ynys Môn, Cymru

"Cefais fy magu ar Ynys Môn, ac roedd yn benderfyniad mawr i mi ddewis astudio mewn prifysgol mor agos at fy nghynefin. Roeddwn i wedi clywed am yr ethos croesawgar ym Mhrifysgol Bangor, ac roeddwn yn awyddus i astudio mewn prifysgol lle mae'r gymuned Gymraeg yn gryfach nag unrhyw le arall!

"Rwy'n astudio'r Gymraeg ym Mangor, ac mi wnes i hefyd elwa o'r bwrsariaethau sydd ar gael i gefnogi'r rhai sy'n dewis astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.

"Rwy'n gynrychiolydd UMCB blwyddyn gyntaf, ac yn ogystal rwyf wedi mwynhau cymryd rhan mewn trefniadau rhyng-golegol, ac wedi cael profiad da yn paratoi ar gyfer teithiau. Rwyf hefyd wedi mwynhau cyfrannu at weithgareddau wythnosol Y Cymric, sef adain gymdeithasol UMCB.

"Rwy'n byw yn Neuadd JMJ, a dyma un o'r penderfyniadau gorau i mi ei wneud erioed. Dwi wedi gwneud cymaint o ffrindiau newydd yma, ac yn wir yn teimlo fy mod yn rhan o gymuned glos lle mae un peth craidd yn ein cysylltu ni i gyd, sef y Gymraeg. Os yn disgrifio fy amser ym Mhrifysgol Bangor mewn un gair, y gair y byddwn yn ei ddefnyddio fyddai: anhygoel!"



## Moneeb Rehman
## Yn Astudio: Rheoli Busnes
## O: Islamabad, Pacistan

“Mae Bangor yn un o fy hoff lefydd. Mae'n lle prydferth ac mi gafodd profi bywyd ym Mangor effaith gadarnhaol iawn ar fy mhersonoliaeth. Mae Prifysgol Bangor wedi darparu'r addysg, yr wybodaeth a'r arbenigedd yr oeddwn yn chwilio amdanynt.

“Rhoddodd y cwrs Rheoli Busnes ddealltwriaeth drylwyr imi o sut mae busnesau'n gweithredu. Rwy'n teimlo'n hyderus ac yn barod ar gyfer y dyfodol oherwydd y staff a'r bobl fendigedig sy'n gwneud amser myfyrwyr ym Mangor yn gyfle unigryw yn eu bywydau.”



# Siriol Hughes
# Yn Astudio: Y Gyfraith
# O: Bangor, Cymru

"Rydw i'n wreiddiol o Fangor ac felly roeddwn wedi clywed cymaint o bethau da am y Brifysgol, a chwaraeodd hyn ran fawr yn fy mhenderfyniad i astudio fy ngradd yma.

"Mae ochr gymdeithasol fy mhrofiad ym Mangor wedi bod yn wych, mae cymaint o weithgareddau yn cael eu trefnu gan UMCB, ac rydych chi bob amser yn teimlo eich bod yn rhan o rywbeth arbennig.

"Rwy'n cymryd rhan yng ngweithgareddau chwaraeon y Cymric, ac mae hwn wedi bod yn brofiad gwych, nid yn unig yn gymdeithasol, ond hefyd oherwydd ei fod yn fy helpu i gadw'n heini'.

"Rwy'n astudio'r Gyfraith, ac yn astudio pob modiwl y gallaf drwy gyfrwng y Gymraeg; mae fy holl diwtorialau yn Gymraeg ac mae'r darlithwyr mor gefnogol. Mae hyn wir wedi gwneud gwahaniaeth i fy mhrofiad dysgu."



## Phoebe Crewe
## Yn Astudio: Cerddoriaeth
## O: Sir Gaer, Y Deyrnas Unedig

"Daeth Bangor yn gartref oddi cartref imi dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'n lle hyfryd i astudio. Rwy'n teimlo fy mod yn cael cefnogaeth lawn gan fy nghyfoedion a'm darlithwyr. Rwy'n sicr nad oes lle tebyg iddo."




## James Szewczyk
## Yn Astudio: Sŵoleg gyda Herpetoleg
## O: Llundain, Y Deyrnas Unedig

"Bangor yw'r unig le yn Ewrop lle gall y rhai sy'n gwirioni ar ymlusgiaid ac amffibiaid astudio a dysgu mwy am yr anifeiliaid hynod ddiddorol hynny. Mae sŵoleg gyda herpetoleg yn darparu amrywiaeth eang o fewn y modiwlau, a phob un yn wirioneddol ddiddorol a hwylus. Mae'r cwrs yn fy nghynorthwyo i reoli fy mhroject ynghylch y gwrthdaro rhwng y crocodeil a dyn yn Uganda a deall y camau sy'n ofynnol wrth gynnal ymchwil.

"Saif Bangor rhwng mynyddoedd syfrdanol Eryri a thraethau tawel Ynys Môn, ac mae'n lle perffaith ar gyfer crwydro'r ardal. Mae'r Gymdeithas Padlfyrddio'n fodd i ymgolli yn yr amgylchedd hwnnw, a mwynhau'r gweithgareddau y maent yn eu cynnig hefyd.

"Nid yw'n syndod bod y Gymdeithas Herpetolegol hefyd wedi gwneud fy mhrofiad ym Mangor yn un arbennig, trwy ddod â siaradwyr arbenigol i mewn i drafod amrywiaeth o bynciau gyda sesiynau holi ac ateb, weithiau dros beint yn y dafarn leol.

"Mae Bangor yn cynnig cymaint, bu'n brofiad anhygoel imi gael byw, astudio a gweithio yma."

# #FyMangor

## Amy Stout
## Yn Astudio: Sŵoleg gydag Ymddygiad Anifeiliaid
## O: Caerdydd, Cymru

"Bu astudio Sŵoleg gydag Ymddygiad Anifeiliaid yn brofiad anhygoel. Mae yma ddarlithwyr ysbrydoledig yn ymchwilio i lawer o bynciau amrywiol, ac o'n cwmpas mae bioamrywiaeth anhygoel Gogledd Cymru. Ym Mangor, bûm yn canolbwyntio ar fy niddordebau trwy wahanol gyfleoedd a modiwlau, a bu'n fodd i sbarduno fy mrwdfrydedd dros yrfa mewn sŵoleg.

"Un o'r rhesymau mae Bangor mor annwyl imi yw'r dirwedd o amgylch y ddinas a'r cyfleoedd sydd, wrth astudio ac o ran cael seibiant oddi wrth y llyfrau. Mae Eryri ac Ynys Môn yn cynnig dihangfa berffaith o fywyd prysur y brifysgol, a chymdeithasau fel y Gymdeithas Padlfyrddio, sy'n cynnig ffordd hwyliog o archwilio'r ardaloedd cyfagos gyda chyd-fyfyrwyr.

"Cymuned y myfyrwyr yw'r hyn sy'n gwneud Bangor yn lle arbennig. Mae maint y ddinas a lleoliad y Brifysgol yn berffaith i fyfyrwyr, ac os nad yw elltydd yn eich poeni, mae popeth sydd ei angen arnoch ar stepen y drws! Mae'n hawdd ymgartrefu ym Mangor."





## George Scarisbrick
## Yn Astudio: Ecoleg Daear a Môr Gymhwysol gyda Blwyddyn ar Leoliad
## O: Caerfaddon, Y Deyrnas Unedig

“Mae Bangor yn lle perffaith i astudio gradd yn y Gwyddorau Naturiol fel fy un i! Nid yn unig y mae'n brifysgol ymchwil o’r radd flaenaf yn fyd-eang, rwyf hefyd wedi teimlo'n rhan o'r ymchwil honno ar fy nghwrs.

"Yma ym Mangor, rydych chi wedi'ch amgylchynu gan olygfeydd a chynefinoedd gwych, ac rydych chi ar drothwy Eryri!”



## Matthew Peill
## Yn Astudio: Gwyddorau'r Amgylchedd
## O: Sir Gaerhirfryn, Y Deyrnas Unedig

"I mi, mae Bangor yn cynnig naws gymunedol glos tref, yn gymysg â bwrlwm a chyfleoedd y ddinas. Mae ei lleoliad yn cyferbynnu â'r mynyddoedd ysblennydd â'r traethau a'r arfordiroedd hyfryd ac mae'n berffaith ar gyfer astudio a chrwydro. Mae astudio Gwyddorau'r Amgylchedd mewn tirwedd mor ysbrydoledig gyda gwybodaeth a chefnogaeth y darlithwyr wedi rhoi'r sgiliau sydd eu hangen arnaf ar gyfer y dyfodol."



## Andreea Diveica
## Yn Astudio: Cymdeithaseg
## O: Rwmania

“Mae'r cwrs rwyf yn ei ddilyn wedi ei leoli yn yr Ysgol Hanes, y Gyfraith a Gwyddorau Cymdeithas, sy'n golygu bod cyfle i ddewis o blith mwy o amrywiaeth o fodiwlau dewisol a chyfle o’r herwydd i ddysgu am feysydd sy'n gysylltiedig â Chymdeithaseg. Oherwydd hynny, mae’r gweithdai a’r seminarau’n dwyn myfyrwyr ynghyd o gefndiroedd a diddordebau gwahanol iawn, sy'n arwain at drafodaethau a dadleuon craff a gafaelgar.

"Po fwyaf dwi’n crwydro’r ardal, y mwyaf dwi’n caru Bangor a'r cyffiniau. Yn ogystal â’r mannau hyfryd a’r rheini weithiau’n gudd a’r golygfeydd anhygoel o Fangor ei hun, mae pa mor agos ydym at Barc Cenedlaethol Eryri a'r trefi a'r pentrefi bach diddorol eraill yn cynnig cyfleoedd lu i grwydro.”




Barn ein graddedigion.
bangor.ac.uk/bangor-yr-hud-ar-lledrith




**SAMI OMARI**

**RHEOLWR ARDAL**

**AMAZON**

18 84

## Sami Omari
## Astudiodd: BA Llenyddiaeth Saesneg a Newyddiaduraeth, 2015

**"Roedd fy nghyfnod ym Mangor yn wych. Roedd yr amrywiaeth fawr o unigolion wnes i eu cyfarfod a gwneud ffrindiau go iawn, gydol oes gyda nhw yn gyfle prin.**

"Gan Fangor cefais yr hyn yr oeddwn ei angen i lwyddo mewn amrywiaeth o swyddi a diwydiannau. Mae'r sgiliau dadansoddi oedd eu hangen trwy gydol fy ngradd wedi ffurfio'r ffyrdd rwy'n mynd ati i wneud tasgau mewn amgylchedd proffesiynol.

"Mae fy nghyflogwr presennol yn cael ei gydnabod yn rhyngwladol fel un o'r cwmnïau sy'n canolbwyntio fwyaf ar ddata/metrigau drwy'r byd. Mae'r gallu i roi sylw manwl i bethau, a ddatblygais yn ystod fy ngradd, bellach yn rhan hanfodol o fy mywyd o ddydd i ddydd.

"Rwy'n gweithio ar hyn o bryd mewn canolfan gyflawni robotig 270,000m$^2$ lle, o ddydd i ddydd, rwy'n rheoli tîm o 40-120 o bobl ac arweinwyr i gyflawni archebion cwsmeriaid. Ochr yn ochr â hynny, gallaf fod yn gyfrifol am brojectau a chynlluniau safle cyfan sy'n canolbwyntio ar wella ansawdd, cynhyrchedd ac ymgysylltu â gweithwyr.

"Fy nghyngor fyddai ymweld â Bangor, crwydro o amgylch y ddinas a'r ardaloedd cyfagos a gwybod bod eich dyfodol academaidd mewn dwylo diogel."

# 'Gan Fangor cefais yr hyn yr oeddwn ei angen i lwyddo.'




Sami Omari

#LlwyddiantGraddedigion

## Sonja Milano
## Astudiodd:
## BSc Seicoleg, 2018;
## MSc mewn Seicoleg Defnyddwyr a Busnes, 2019

# 'Rwy'n cynnwys y cefndir sydd gen i mewn busnes a seicoleg ym mhopeth a wnaf.'

Sonja Milano

**"Gadewais yr Eidal pan oeddwn yn 18 oed, a chafodd adran Seicoleg Prifysgol Bangor ei hargymell i mi tra oeddwn yn gwneud cwrs sylfaen yn EF Cambridge.**

"Wnes i fwynhau popeth am fy nghyfnod ym Mangor, o'r ddinas ei hun, i leoliad y brifysgol; i'r athrawon; y cwrs; fy ffrindiau; y neuaddau; roedd popeth mor berffaith!

"Yr hyn a wnaeth argraff fawr arnaf oedd y dull hollol wahanol o addysgu, gan gynnwys yr holl gymorth gan y darlithwyr a hefyd gan fy nghyd-fyfyrwyr. Y ffordd y gallem ryngweithio gyda'r darlithwyr mor hawdd; y ffordd y gallem ofyn unrhyw gwestiynau a byddent mor barod i helpu. Roeddwn yn synnu i weld gymaint o waith ymarferol oedd yna, nid ydoedd yn golygu astudio gyda llyfrau yn unig, roedd hefyd yn ymwneud â chymhwyso ein dysgu i fywyd go iawn.

"Rwy'n dod o ynys fechan yn Tuscany lle mae awyrgylch clos iawn, a chefais fy hun yn teimlo'n gartrefol ym Mangor ar unwaith, gan ei bod yn gymuned mor gyfeillgar ac yn lle gwych i fod.

"Cefais fy nghyflwyno i Dr Zigs wrth i mi gwblhau lleoliad gwaith chwe wythnos yno pan oeddwn yn gwneud fy ngradd Meistr. Mae Dr Zigs yn gwneud teganau swigod anferth eco-gyfeillgar; rydym yn angerddol am gynaliadwyedd a lleihau gwastraff plastig; mae ein holl gynhyrchion yn yn isel mewn plastig a ddim yn cynnwys olew palmwydd, ac rydym yn allforio ledled y byd. Gwnaeth ein sylfaenydd, Paola Dyboski-Bryant, hefyd raddio ym Mangor!

"Rwyf yn awr yn rheolwr yn Dr Zigs; rwy'n gofalu am sawl agwedd ar y busnes gan gynnwys marchnata a gweinyddu cyffredinol, ac rwy'n cynnwys y cefndir sydd gen i mewn busnes a seicoleg ym mhopeth a wnaf. Drwy astudio ar leoliad a gwneud ymyraethau bywyd go iawn, cefais hyd i fy swydd ddelfrydol, diolch i Brifysgol Bangor."



SONJA MILANO

RHEOLWR MARCHNATA A GWEINYDDU

DR ZIGS



**LUKE BARRETT**

**RHEOLWR ADNODDAU DYNOL**

**Y DU AC IWERDDON**

**WAYFAIR**

18 84

## Luke Barrett
## Astudiodd:
## BSc Cadwraeth Amgylcheddol gyda Phrofiad Rhyngwladol, 2016

# 'Gwnaeth Prifysgol Bangor fy mharatoi i lwyddo.'

Luke Barrett

**"Pan ddewisais fy nghwrs, roeddwn yn gwybod bod gen i ddiddordeb mewn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol a sbarduno newid, ac roeddwn eisiau dilyn fy niddordeb. Gwelais, wrth i'r cwrs esblygu, ei fod yn daith i raddau helaeth, nid yn unig i ddysgu ond hefyd o ran hunan-wireddu a darganfod.**

"Mae'n anodd dweud beth oedd y rhan orau am fy nghyfnod ym Mangor. Roeddwn wrth fy modd nid yn unig gyda fy nghwrs, yr hyblygrwydd, fy nhiwtor a'r darlithwyr, ond manteisiais hefyd ar lawer o gyfleoedd eraill a gynigiwyd. Astudiais dramor yn Vancouver; fe ges fynd i Dde Korea ar raglen iaith a diwylliant; gweithiais gydag aelodau anhygoel o'r tîm ar interniaeth yn Lab Cynaliadwyedd y Brifysgol. Gwnaeth Prifysgol Bangor fy mharatoi go iawn i lwyddo! Wnes i hefyd gyfarfod â fy mhartner pan o'n i yn y brifysgol, roedd o newydd orffen MSc ym Mangor pan wnaethon ni gyfarfod.

"Er nad ydw i'n gweithio mewn swydd nac yn y sector roeddwn wedi ei ddisgwyl i ddechrau, dwi'n gallu tynnu ar y sgiliau a'r wybodaeth a'u defnyddio nhw'n gyson. Yn fy swydd flaenorol yn Amazon, cyflwynais fenter gynaliadwyedd yn canolbwyntio ar ddull economi gylchol o weithredu rheoli gwastraff. Rwy'n defnyddio damcaniaethau amgylcheddol yn gyson wrth gwblhau cynlluniau yn ymwneud â phobl, gan edrych ar ddulliau cynaliadwy o welliant parhaus.

"Rwyf yn awr yn Rheolwr Adnoddau Dynol ar gyfer y DU ac Iwerddon yn Wayfair. Rwy'n cefnogi'r adrannau gwerthu a gwasanaeth trwy bartneriaeth effeithiol i integreiddio egwyddorion a blaenoriaethau busnes i bolisïau yn ymwneud â phobl, i ehangu'r farchnad Ewropeaidd, yn ogystal ag arwain fy nhîm a'u cynorthwyo yn eu datblygiad. Mae fy swyddi blaenorol yn cynnwys swyddi Rheoli ac Adnoddau Dynol yn Amazon, a swydd fel Partner Busnes Adnoddau Dynol ar gyfer TikTok, ar ôl cael fy nenu i'r swydd gan benhelwyr.

"Mae ysgrifennu hyn wedi dod â llu o atgofion yn ôl am yr amser gwych ges i a'r bobl anhygoel wnes i eu cyfarfod ym Mangor. Fydda i byth yn gallu diolch digon iddyn nhw am fy rhoi i ar ben ffordd. Ni allwn fyth ddychmygu sut beth fyddai bywyd yn awr pe bawn heb ddewis Prifysgol Bangor; heb amheuaeth mae'n un o'r penderfyniadau gorau i mi eu gwneud erioed."

# #LlwyddiantGraddedigion

## Jake Sallaway-Costello
## Astudiodd:
## BSc Seicoleg gyda Seicoleg Glinigol ac Iechyd, 2015

# 'Gall gwyddorau cymdeithas fod yn rhan o ddatrys unrhyw broblem.'

**Jake Sallaway-Costello**

**"Roedd cynnwys y cwrs ym Mangor yn amrywiol o ran pynciau ac yn cynnig llawer o gyfleoedd i astudio meysydd seicoleg nad oeddwn wedi ymdrin â nhw wrth wneud Lefel A.**

"Wnes i arbenigo mewn seicoleg iechyd, ac ar ôl hynny wnes i ganolbwyntio fwy ar seicoleg maethol, gan weithio i Food Dudes Health yn rhan amser yn ystod fy mlwyddyn olaf.

"Ar ôl graddio, gweithiais i'r Ganolfan Ymchwil Bwyta a Gweithgaredd, a arweiniodd at symud i Birmingham i wneud PhD mewn iechyd cyhoeddus.

"Pan oeddwn ym Mangor, cymerais ran yng Ngwobr Cyflogadwyedd Bangor a manteisio'n helaeth ar yr holl gefnogaeth a gweithgareddau a gynigiwyd gan y tîm gyrfaoedd a chyflogadwyedd, a oedd yn hynod galonogol.

"Hefyd, cefais wersi Cymraeg wythnosol yng Ngholeg Menai a mwynheais gymryd rhan yn y gweithgareddau i 'ddysgwyr' a gynhaliwyd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

"Ar hyn o bryd rwy'n gweithio fel darlithydd ym Mhrifysgol Nottingham, lle rwy'n gweithio yn yr Is-adran Bwyd, Maeth a Deieteg fel arweinydd y cwricwlwm ar gyfer maeth cymdeithasol ac ymddygiadol. Fel yr unig seicolegydd yn fy nhîm, rwy'n gweithio'n agos gyda fy nghydweithwyr - biocemegwyr maethol, dietegwyr a gwyddonwyr bwyd yn bennaf - i gysylltu fy addysgu gyda "pham" mewn perthynas ag ymddygiad bwyta, a "beth" o ran maetholion a'r system fwyd.

"Hefyd, sefydlais fenter gymdeithasol o'r enw 'The Real Junk Food Project Central' yn 2017, gan roi canfyddiadau fy astudiaethau ar waith yn y byd go iawn, ac mae'n dal i redeg yn llwyddiannus ac yn cynhyrchu dros 150,000 o brydau bwyd y flwyddyn ar gyfer pobl sy'n agored i niwed yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr.

"Cefais ddarlithwyr gwych yn yr Ysgol Seicoleg a ddylanwadodd yn uniongyrchol ar sut rwy'n dysgu a chefnogi fy myfyrwyr heddiw. Mae gan yr ysgol gymuned frwd o ysgolheigion sy'n gweld y potensial enfawr mewn seicoleg, ac rwy'n credu mai dyma pam fy mod bellach yn 'gweld seicoleg ym mhopeth', ac yn gwerthfawrogi posibiliadau swyddogaeth gwyddorau cymdeithas yn datrys unrhyw broblem."

# ELLY BAKER
## PENNAETH DATBLYGU PROJECTAU
## YIPIYAP

18 84



## Elly Baker
## Astudiodd: BA Almaeneg gyda Sbaeneg, 2018

# 'Roeddwn yn teimlo fy mod yn cael fy nghefnogi i fod yn fwy na dim ond myfyriwr.'

**"Dewisais astudio ym Mangor ar ôl bod mewn diwrnod agored a theimlo'n gartrefol. Roedd rhywbeth am yr adran ieithoedd fach, y golygfeydd hyfryd a'r wynebau cyfeillgar a wnaeth i Fangor ymddangos mor groesawgar.**

“Ond yr hyn a wnaeth i mi benderfynu ar Fangor, oedd y staff yn yr adran Ieithoedd Tramor Modern, a wnaeth fy helpu i ymroi i fywyd yn y brifysgol. O fy annog i siarad yng Nghaergrawnt yn ystod fy mlwyddyn olaf, i'm henwebu ar gyfer y Wobr Dewis Staff am fy ngwaith fel Cynrychiolydd Cwrs, roeddwn yn teimlo fy mod yn cael fy nghefnogi i fod yn fwy na dim ond myfyriwr.

“Treuliais y ddwy flynedd a hanner gyntaf ar ôl y brifysgol naill ai'n gweithio yn yr Almaen, neu'n gweithio gyda chleientiaid sy'n siarad Almaeneg. Does dim angen dweud bod fy ngradd wedi fy mharatoi ar gyfer hynny, ond un fantais llai amlwg oedd yr effaith fawr a gafodd ar fy ngallu i siarad yn gyhoeddus, fy ngwytnwch, a fy ngallu i gymryd un risg ar ôl y llall!

“Rwyf bellach yn gweithio yn Yipiyap, prif ddarparwr cefnogaeth tiwtora mewn ysgolion ym maes Mathemateg, Saesneg a Gwyddoniaeth. Mae fy swydd bresennol wedi'i rhannu'n ddwy: Datblygu Busnes, a Rheoli Projectau. Rwy'n sefydlu ac yn cynnal partneriaethau gyda sefydliadau addysgol, yn datblygu modelau neu wasanaethau busnes newydd, ac yn rheoli projectau gyda'n partneriaid! Ar ôl blwyddyn yn y swydd hon, rwyf wedi symud ymlaen yn ddiweddar i fod yn rheolwr llinell.

“Mae Bangor yn dref wych ac yn brifysgol gwell fyth. Roedd fy athrawon a'm darlithwyr gyda'r gorau yn y byd ac roedd wir yn bwysig iddynt ein bod yn cael y radd orau bosibl. Roeddwn yn dysgu dosbarth yn ystod fy mlwyddyn dramor yn Berlin, ac ar fy niwrnod cyntaf, rhoddodd yr athro Almaeneg lyfr i mi a oedd wedi ei ysgrifennu gan fy nhiwtor personol ym Mangor. Sôn am fyd bach! Os nad yw hynny'n eich argyhoeddi, wn i ddim beth fydd! ”

Elly Baker

#LlwyddiantGraddedigion

## Tim Hunt
## Astudiodd: BSc Dylunio Cynnyrch, 2018

# 'Roedd cael nifer o leoliadau mewn diwydiant yn uchafbwynt.'

**Tim Hunt**

**“Dewisais Fangor oherwydd bod y lleoliad yn caniatáu i mi gyfuno fy nghariad at chwaraeon awyr agored gydag astudio. Hefyd, roedd gan y cwrs gymhareb staff/myfyrwyr ragorol.**

"Roedd dylunio cynnyrch yn rhywbeth roeddwn i'n awyddus iawn i'w astudio, ond wnes i ddim sylweddoli ei fod yn ddisgyblaeth benodol. Pan ddes i o hyd i'r cwrs ac i Fangor, roedd yn fy siwtio i’n berffaith.

"Yr hyn a wnaeth fy nghyfnod ym Mangor yn un arbennig oedd y staff agos-atoch; sefyllfaoedd a oedd yn adlewyrchu heriau bywyd go iawn; roedd y cyfle i gael nifer o leoliadau mewn diwydiant yn uchafbwynt, ynghyd â’r criw gwych ar y cwrs. Cynigiodd Bangor amrywiaeth eang o gefnogaeth ar gyfer pob agwedd ar y cwrs gradd. Roedd hyn wedi ei gyfuno â llawer o gyfleoedd i gymryd rhan mewn rhaglenni, cyrsiau a dosbarthiadau a ddatblygodd sgiliau ychwanegol, personol a phroffesiynol.

"Rwy’n gweithio ar hyn o bryd yn Welcome Furniture fel Prif Ddylunydd, sy'n cynnwys derbyn briff dylunio a chreu cynnyrch sy'n darparu'r gwerth uchaf i'r cleient a'r sefydliad; ynghyd â chynhyrchu ffotograffiaeth, cyfryngau ysgrifenedig a fideo ar gyfer cynigion a phamffledi. Mae yna hefyd elfen o ddatrys problemau gyda materion cynhyrchu a welir mewn dyluniadau newydd.

"Gwnaeth fy amser ym Mangor roi'r gallu i mi reoli amserlenni tyn a llawer iawn o waith, ynghyd â'r hyder a'r gallu i drafod amrywiaeth o bynciau gyda phobl newydd a hen gydnabod."



# TIM HUNT

## PRIF DDYLUNYDD

## WELCOME FURNITURE

## Adam Steven Gulliver
## Astudiodd: LLB y Gyfraith, 2014

# 'Ni allaf orbwysleisio'r gefnogaeth a roddir gan Ysgol y Gyfraith.'

**Adam Steven Gulliver**

**"Rwyf ar hyn o bryd yn fargyfreithiwr Cyfraith Teulu yn gweithio o Siambrau Senate House, wedi fy lleoli yn Northampton. Mae fy ymarfer yn canolbwyntio'n bennaf ar waith yn gysylltiedig â phlant, y gellir ei isrannu'n fras yn Gyfraith Breifat (anghydfodau rhwng rhieni yn ymwneud â phlant) a Chyfraith Gyhoeddus (achosion lle mae Awdurdodau Lleol yn dod yn gysylltiedig â theuluoedd oherwydd pryderon ynglŷn â lles plant).**

"Ni ellir gorbwysleisio'r dylanwad a gafodd Bangor ar fy ngyrfa a fy mywyd. Roedd y ffordd y cyflwynwyd yr addysgu ym Mangor, ynghyd â'r gefnogaeth academaidd a bugeiliol ragorol a gefais, wedi caniatáu i mi ffynnu yn academaidd, ac arwain at ennill gradd Dosbarth Cyntaf. Rwy'n priodoli'r llwyddiant mawr hwnnw i raddau helaeth, nid yn unig i'm gwaith, ond hefyd i ymrwymiad ac ymroddiad y darlithwyr ac ansawdd cyffredinol Ysgol y Gyfraith ei hun.

"A thu hwnt i hynny, ni allaf orbwysleisio'r gefnogaeth a roddir gan Ysgol y Gyfraith, o ran fy helpu i gael lleoliadau profiad gwaith a'u hanogaeth aruthrol i fyfyrwyr wneud gweithgareddau allgyrsiol hollbwysig.

"O safbwynt personol mae Bangor yn ddinas hyfryd, ryfeddol a bywiog sydd â chymaint i'w gynnig. Wnes i fwynhau fy amser yno, mae gen i atgofion hyfryd a gadewais gyda ffrindiau gydol oes.

"O safbwynt academaidd, o ran sicrhau llwyddiant, credaf fod Bangor yn rhoi sylfaen ragorol i bob myfyriwr. Mae'n brifysgol gyda chyfleusterau o'r radd flaenaf a staff ymroddedig, a'u prif nod yw eich gweld yn llwyddo. Ond oherwydd ei maint cymedrol, mae hefyd yn brifysgol lle mae'r holl fyfyrwyr yn cael cyfle i ddweud eu barn, cael eu clywed a'u cefnogi'n briodol."



ADAM STEVEN GULLIVER

BARGYFREITHIWR

SIAMBRAU SENATE HOUSE



# DR BRITTA ISMER

## RHEOLWR TÎM CLINIGOL

## ICON

## Dr Britta Ismer
## Astudiodd: BSc Bioleg Canser, 2013

# 'Agorodd Bangor nifer o ddrysau i mi.'

**"Roeddwn yn gwybod fy mod eisiau astudio pwnc y gallwn ei ddefnyddio yn ddiweddarach mewn bywyd i helpu pobl. Roedd gen i ddiddordeb mewn Bioleg erioed, ond doeddwn i ddim eisiau dysgu am anifeiliaid na phlanhigion; roedd gen i ddiddordeb mewn sut mae'r corff yn gweithio, sut rydw i'n gweithio.**

"Pan welais fod Bangor yn cynnig Bioleg Canser, roeddwn yn gwybod mai dyna oeddwn eisiau ei wneud.

"Gwnaeth fy nghwrs ym Mhrifysgol Bangor roi'r wybodaeth sylfaenol i mi am Fioleg Canser, ac rwyf wedi adeiladu arni ers hynny. Gwnaeth fy nghwrs fy ngalluogi i arbenigo yn gynnar iawn mewn pwnc roeddwn yn ei fwynhau ac eisiau datblygu gyrfa ynddo. Agorodd nifer o ddrysau i mi fel fy mod wedi gallu arbenigo yn y maes mor gynnar a chael fy nerbyn i wneud PhD yn y Ganolfan Ymchwil Canser enwog yn yr Almaen.

"Yn fy swydd bresennol, rwy'n arwain ac yn rheoli gweithrediad un neu fwy o astudiaethau clinigol, o ddechrau'r astudiaethau i ryddhau cronfeydd data. Fel aelod craidd o'r Tîm Astudio, mae gen i oruchwyliaeth ranbarthol, rwy'n ysgogi'r broses o wneud penderfyniadau, yn darparu arweinyddiaeth, ac yn hyrwyddo ansawdd a rhagoriaeth gyson. Mae'n rhaid i mi asesu risgiau a phenderfynu ar y strategaethau lliniaru gorau a sicrhau bod fy nhîm clinigol yn cwrdd â'r disgwyliadau penodol, er mwyn sicrhau ein bod yn cadw ein cleifion yn ddiogel a chadw data a gesglir at safonau rheoliadol.

"Trwy astudio, dysgais sut i gymell fy hun a gwneud fy ngorau bob amser. Dysgais fod gwaith caled yn talu ar ei ganfed.

"Trwy wirfoddoli gyda RAG a bod yn rhan o Glwb Athletau Bangor, dysgais sut i ysgogi pobl a sut i ymwneud ag eraill. Dysgais sut i ddatrys problemau a rheoli gwrthdaro, i ffurfio timau anhygoel."

Dr Britta Ismer

#LlwyddiantGraddedigion

## Adam Hawker
## Astudiodd:
## BSc Gwyddorau Biofeddygol, 2016

# 'Helpodd Bangor i roi fy ngyrfa mewn gwyddoniaeth ar lwybr cyflym.'

**Adam Hawker**

**“Penderfynais astudio ym Mangor oherwydd y campws bach yn y ddinas, y mynediad hawdd at fannau agored i helpu i ymlacio, a’r enw da rhagorol sydd gan y brifysgol am y gwyddorau biolegol a meddygol.**

"Roeddwn eisiau astudio meddygaeth i ddechrau, a sylweddolais yn fuan yn ystod fy Lefel A na fyddwn yn gallu gwneud cais trwy'r llwybr uniongyrchol, ond wrth i mi ymchwilio i yrfaoedd mewn gofal iechyd, deuthum o hyd i'r maes gwyddorau biofeddygol. Yna gwelais y Sefydliad Gwyddorau Biofeddygol, a sut y gall gradd achrededig eich galluogi i symud ymlaen i swydd gofrestredig o fewn y GIG. Roedd Prifysgol Bangor yn darparu gradd achrededig a fyddai’n cyflymu fy ngyrfa i fod yn wyddonydd cofrestredig.

"Mae Prifysgol Bangor yn enwog am y cymdeithasau a'r grwpiau y gellir ymuno â nhw am ddim, sy'n gwneud cymdeithasu ac adeiladu grwpiau cyfeillgarwch mor hawdd. Gallwch roi cynnig ar nifer o wahanol chwaraeon a hobïau hyd nes y dewch o hyd i rywbeth rydych wir yn ei fwynhau. Mae dringo’r Wyddfa gyda’r grŵp heicio yn uchafbwynt y mae'n rhaid i bob glasfyfyriwr ei wneud!

"Ar ôl graddio mewn gwyddoniaeth, rwyf wedi symud ymlaen o fod yn gynorthwyydd labordy, i fod yn wyddonydd biofeddygol dan hyfforddiant, i fod yn gofrestredig ac erbyn hyn rwyf wedi cael lle ar y rhaglen hyfforddi i wyddonwyr clinigol.

“Mae fy nghwrs hyfforddi tair blynedd presennol yn golygu fy mod yn symud o amgylch gwahanol feysydd gwyddorau heintus yn yr ysbyty a bydd yn fy ngalluogi i ymchwilio i dechnolegau newydd o ansawdd uchel a’u rhoi ar waith i gynorthwyo gyda chanfod a gwneud diagnosis o glefydau heintus, sy'n rhywbeth y mae’r pandemig Covid wedi ei amlygu fel maes hollbwysig mewn system gofal iechyd modern.

"Gwnaeth astudio Gwyddorau Biofeddygol ym Mhrifysgol Bangor roi’r sgiliau ymarferol a'r wybodaeth ddamcaniaethol yr oeddwn eu hangen i symud ymlaen i swydd labordy ymarferol. Gwnaeth Gwobr Cyflogadwyedd Bangor hefyd roi'r mentergarwch i mi fynd allan a chael profiad gwaith gwerthfawr a alluogodd i mi symud ymlaen yn gyflym i fod yn wyddonydd Gwyddorau Biofeddygol mewn Microbioleg wedi'i gofrestru â’r HCPC."



ADAM HAWKER

GWYDDONYDD CLINIGOL DAN HYFFORDDIANT MEWN MICROBIOLEG YN YMDDIRIEDOLAETH SEFYDLEDIG GIG PRIFYSGOL MANCEINION



# CALLUM MURRAY
## CYFARWYDDWR CREADIGOL
## CUFFLINK

# Callum Murray

## Astudiodd: BSc Technolegau Creadigol, 2019

**'Wnes i gyfarfod â fy nghyflogwr presennol trwy fy mhroject trydedd flwyddyn.'**

**"Penderfynais astudio ym Mhrifysgol Bangor ar ôl cymryd blwyddyn i ffwrdd, gan fy mod eisiau datblygu fy addysg ym maes cyfrifiadureg a dylunio. Roedd y lleoliad ei hun yn apelio'n fawr ataf, gan fy mod yn unigolyn anturus sy'n hoff o'r awyr agored!**

"Roedd y cwrs ei hun yn caniatáu i mi archwilio ochr greadigol a thechnegol rhaglennu cyfrifiadurol a dylunio. Roedd hyblygrwydd modiwlau a phrojectau'r cwrs yn golygu fy mod wedi darganfod diddordeb mewn dylunio UX a fyddai'n fy arwain at fy swydd gyntaf yn y diwydiant.

"Fel Cyfarwyddwr Creadigol yn Cufflink, mae fy swydd yn amrywiol iawn. Nid oes unrhyw ddau ddiwrnod yr un peth ac mae hynny'n rhan annatod o weithio i fusnes newydd. Mae her newydd i'w chwblhau bob amser. Ond ar y cyfan, rwy'n arwain brand a chyfeiriad creadigol cyffredinol y cwmni gyda phrif ffocws ar ddyluniad UX/UI ein rhaglen i ffonau symudol ynghyd ag arwain ein hymdrechion marchnata.

"Roedd fy mhroject traethawd hir yn y drydedd flwyddyn yn help mawr i mi ar y llwybr i'm gyrfa bresennol. Gwnaeth cymryd rhan mewn sesiwn o gyflwyniadau i fyfyrwyr ar eu blwyddyn olaf fy ngalluogi i siarad â busnesau lleol am fy mhroject a fy sgiliau, a dyma sut y gwnes i gwrdd â'm cyflogwr presennol.

"Mae'r addysgu a gynigir ym Mhrifysgol Bangor o'r ansawdd uchaf ac mae'r cyrsiau a'r modiwlau wedi'u cynllunio i roi'r sgiliau diweddaraf rydych eu hangen i fynd i'r byd gwaith."

"Mae gan Brifysgol Bangor y cwbl; byddwch yn mwynhau bywyd cymdeithasol da, gwneud ffrindiau gwych, a bydd o gymorth mawr i'ch herio i fentro a rhoi cynnig ar rywbeth newydd!"

Callum Murray

#LlwyddiantGraddedigion

## Jonathan Cliffe
## Astudiodd: Baglor mewn Bydwreigiaeth, 2015

# 'Wnes i wir ddysgu beth oedd bydwreigiaeth ym Mangor.'

Jonathan Cliffe

**"Daeth Prifysgol Bangor o hyd i mi. Ar ôl proses hir o wneud cais i UCAS, wnes i gyrraedd rhestr wrth gefn y brifysgol. I ddechrau, nid Bangor oedd fy newis cyntaf ond rwyf mor falch eu bod wedi dod o hyd i mi. Gwnaeth y bobl, y golygfeydd a'r iaith Gymraeg fy amser ym Mangor yn un o dair blynedd orau fy mywyd.**

"Ym Mangor wnes i wir ddysgu beth oedd bydwreigiaeth. Cefais fy nysgu gan grŵp anhygoel o fydwragedd, gwnaeth bob un ohonynt fy siapio i fod y fydwraig ydw i heddiw. Byddwn yn annog unrhyw un sy'n dewis gyrfa mewn bydwreigiaeth i ddechrau astudio bydwreigiaeth yn ardal wledig gogledd Cymru.

"Mae bydwragedd yn bobl freintiedig sy'n cael rhannu eiliadau gwerthfawr gyda merched, ac maent yn ymddiried ynom ni i chwarae rhan hanfodol yn eu profiad o roi genedigaeth. Mae pob diwrnod yn ddiwrnod arbennig.

"Gwnaeth y dysgu cyfunol o theori ac elfennau ymarferol ym Mangor fy mharatoi i gymhwyso fel bydwraig hyderus yn barod i ddechrau ar fy ngyrfa yn y GIG.

"Yn ystod fy nghyfnod ym Mangor, cwblheais y Wobr Cyflogadwyedd, a deuthum hefyd yn gynrychiolydd cwrs, ac yn y pen draw roeddwn yn cynrychioli addysg bydwreigiaeth yng Ngogledd Cymru ar lefel genedlaethol yng Nghymru.

"Ar ôl graddio cefais fy mhenodi'n aelod o fwrdd y *British Journal of Midwifery*, ac yna fel aelod o fwrdd y *National Practicing Midwife Journal.*

"Un o'r pethau rwyf wedi eu dysgu yn ystod y pandemig byd-eang hwn yw bod yn ddiolchgar am y presennol. Rwy'n hynod hapus ac yn fodlon ar fy swydd fel bydwraig.

"Bangor fydd fy ail gartref bob amser a bydd y bobl y gwnes i eu cyfarfod yn cael eu hystyried yn ffrindiau a theulu gydol oes."

### Rhaglen Achredig

**Mae Prifysgol Bangor yn darparu'r unig raglen bydwreigiaeth yng Nghymru sydd wedi ei hachredu gan *Baby Friendly Initiative (BFI) UNICEF***



JONATHAN CLIFFE

ARWEINYDD TÎM BYDWRAGEDD YN YMDDIRIEDOLAETH SEFYDLEDIG GIG YSBYTAI ADDYSGU WARRINGTON A HALTON

18 84



## CLAIRE WOOLGROVE

## PENNAETH CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

## ENTREPRENEURS CIRCLE

## Claire Woolgrove
## Astudiodd:
## BA Economeg Busnes, 2013; MSc Busnes gyda Seicoleg Defnyddwyr, 2014

**“Roedd fy mhenderfyniad i fynd i Brifysgol Bangor yn seiliedig ar argymhelliad gan ffrind, ac ar ôl llawer o ymchwilio fy hun, gwelais mai Bangor oedd y brifysgol ddelfrydol i mi.**

"Mae gan Bangor rai o elfennau tref gyda manteision dinas ac mae mewn lleoliad delfrydol ar gyfer gweithgareddau awyr agored. Os yw twristiaid yn tyrru i fynd yno, pam na fyddech chi eisiau byw a dysgu yno?

“Wnes i fwynhau gwneud Busnes lefel A yn fawr iawn, yn enwedig yr ochr economeg, felly roedd Economeg Busnes yn ymddangos fel y cwrs delfrydol i mi. Wrth i mi astudio ar gyfer fy ngradd israddedig, dechreuodd fy niddordebau ddatblygu, diolch i'r modiwlau dewisol. Roedd Economeg yn ddiddorol, ond roeddwn wrth fy modd gyda Marchnata ac Ymddygiad Defnyddwyr. Gwnaeth hyn lywio fy newis i wneud gradd Ôl-radd mewn Busnes gyda Seicoleg Defnyddwyr.

“Rwy’n gweithio i gwmni sy’n angerddol am helpu busnesau bach i dyfu. Nhw yw asgwrn cefn yr economi, ac maent yn gyfrifol am gyflogi tua 60% o boblogaeth y Deyrnas Unedig. Fe'u gadewir i ddatrys pethau allan bron yn gyfan gwbl ar eu pennau eu hunain. Fy swydd yw cynnig cyngor strategol ar gyfer marchnata digidol i'n haelodau, yn ogystal â bod yn gyfrifol am y cyfryngau cymdeithasol. Boed hynny ar sail un i un, yn ystod clinigau cefnogi wythnosol, neu mewn digwyddiadau cenedlaethol.

"Wnes i gyfarfod â chymaint o bobl ym Mangor a fydd wir yn ffrindiau gydol oes; byddem i ffwrdd y rhan fwyaf o benwythnosau yn heicio a dringo. Yn bendant, wnes i dyfu i fod yn fwy o bwy ydw i ym Mhrifysgol Bangor. Wnes i gyfarfod â fy ngŵr yno hefyd, felly mae wedi cael effaith barhaol ar fy mywyd.”

# 'Gwnaeth modiwlau dewisol helpu i ddatblygu fy niddordebau.'

Claire Woolgrove

#LlwyddiantGraddedigion

# Dr Aaron Jackson
## Astudiodd: BSc Cyfrifiadureg, 2015

**"Mae Bangor yn lle braf iawn i fod gyda pharc cenedlaethol y gellir mynd iddo'n rhwydd ar daith fer ar fws. Hefyd, gwnaeth Bangor gynnig lle i mi astudio ar ôl cael cyfweliad, gan roi blaenoriaeth i fy niddordeb a brwdfrydedd am Gyfrifiadureg yn hytrach na'r ffaith nad oedd gen i Lefel A ddigon da mewn pynciau anghysylltiedig.**

"Mae Cyfrifiadureg yn bwnc anhygoel i'w astudio oherwydd ei fod mor gysylltiedig â'r byd modern. Bydd cael dealltwriaeth dda o hanfodion cyfrifiadureg yn ddefnyddiol, waeth beth fyddwch chi'n ei wneud yn ddiweddarach mewn bywyd.

"Arweiniodd fy niddordeb mewn adnabod patrymau a dysgu peirianyddol i mi gydweithio ar brojectau gydag un o fy Athrawon. Arweiniodd y gwaith hwn at ddau gyhoeddiad a gefnogodd fy nghais i wneud PhD ym Mhrifysgol Nottingham.

"Yn fy swydd bresennol yn y Ganolfan Gwybodeg Iechyd, rydym yn darparu amgylcheddau cyfrifiadureg ymchwil diogel i fiowybodegwyr ddadansoddi data na fyddent fel rheol yn gallu cael mynediad atynt oherwydd natur sensitif data meddygol. Mae'r rhan fwyaf o fy ngwaith yn cynnwys ceisio gwella'r amgylchedd ymchwil hwn mewn ffyrdd sy'n atgynyrchadwy ac yn hawdd eu defnyddio, tra'n sicrhau diogelwch a phrofiad da i ddefnyddiwr.

"Roedd y cyfleoedd academaidd ym Mangor yn wych; rwy'n gweithio gyda phobl wych heddiw oherwydd y llwybr y dechreuais ei ddilyn ym Mangor. Mae'n ddinas fach, ond mae hyn yn arwain at gyfeillgarwch agos, i'r fath raddau fel fy mod yn dal i fyw gyda fy nghydletywr a ffrind o fy ail flwyddyn.

"Rwy'n credu bod Bangor yn cynnig popeth y byddech ei eisiau o fywyd prifysgol - cyfleoedd i gael rhagoriaeth academaidd, y rhyddid i fwynhau natur, ac efallai gormod o dafarndai!

Ewch yno gyda meddwl agored, gweithiwch yn galed, a mwynhewch eich hun. Byddwch yn gadael gydag atgofion gwych a gradd o ansawdd."

# 'Mae Cyfrifiadureg yn gysylltiedig â chymaint o'r byd modern.'

**Dr Aaron Jackson**

## DR AARON JACKSON
## UWCH ARBENIGWR ISADEILEDD
## CANOLFAN GWYBODEG IECHYD,
## PRIFYSGOL DUNDEE






# LINDSAY WALKER +
# ENLLI FYCHAN OWAIN



Owain Williams, *The Welshman*

# 'Rydym mor falch ein bod wedi ennill BAFTA!'

**Lindsay Walker ac Enlli Fychan Owain**

**Mae ffilm a grëwyd gan ddwy o raddedigion Prifysgol Bangor, sy'n adrodd hanes boddi pentref Capel Celyn yng Ngwynedd yn y 1960au, wedi ennill gwobr BAFTA Cymru yn y categori Ffilm Fer.**

Mae *The Welshman* yn rhaglen ddogfen am fywyd Owain Williams, un o sylfaenwyr Mudiad Amddiffyn Cymru a gafwyd yn euog am osod dyfais ffrwydrol ar safle cronfa ddŵr Tryweryn. Cafodd y ffilm ei chreu gan raddedigion Prifysgol Bangor, y cyfarwyddwr Lindsay Walker a'r cynhyrchydd Enlli Fychan Owain, sy'n ferch i Owain Williams.

**Lindsay Walker**
**Cyfarwyddwr Llawrydd a Golygydd Cynorthwyol**
**Astudiodd: BA Astudiaethau Creadigol a'r Cyfryngau, 2013; MA Sinematograffeg a Chynhyrchu Ffilm/ Fideo, 2014**

"Gwnaeth fy astudiaethau ym Mhrifysgol Bangor fy helpu i fod yn rhagweithiol, y peth mwyaf a ddysgodd i mi oedd yr harddwch sydd i'w gael wrth gydweithio. Gwnaeth fy ngalluogi i archwilio fy nghreadigrwydd a rhoddodd i mi lwybr i'r diwydiant.

"Rwyf wrth fy modd fod fy ffilm ddiweddaraf *The Welshman* wedi ennill BAFTA! Dysgais yn y brifysgol hefyd i fod yn ddyfeisgar - llwyddais i wneud *The Welshman* heb unrhyw gyllideb ac mae hynny'n bendant yn sgil y gwnes ei feistroli gyda fy nghyfoedion ym Mangor. "

**Enlli Fychan Owain**
**Cynhyrchydd**
**Astudiodd: BA Astudiaethau Creadigol, 2013**

"Wnes i fwynhau Astudiaethau Creadigol oherwydd rhoddodd gyfle i mi roi cynnig ar ychydig o wahanol elfennau a oedd i gyd yn ymwneud â fy niddordeb yn y cyfryngau. Dysgais lawer am gysylltiadau cyhoeddus ac roedd hyn yn help mawr i ni wrth hyrwyddo *The Welshman* ar y cyfryngau cymdeithasol, gyda dros 25,000 wedi ei weld mewn 2 ddiwrnod, bu bron i drelar y ffilm fynd yn feirol!"

# Y cydweithredu a wnawn.

**bangor.ac.uk/bangor-yr-hud-ar-lledrith**

# Parc gwyddoniaeth penodol cyntaf Cymru



Parc Gwyddoniaeth Menai

**Mae Parc Gwyddoniaeth Menai, neu M-SParc i roi ei enw mynwesol arno, yn rhan o Brifysgol Bangor. Dyma lle mae cwmnïau cyffrous a blaengar yn y sectorau gwyddoniaeth a thechnoleg - yn enwedig y sectorau carbon isel, digidol a gwyddor bywyd - yn ymgartrefu ac yn derbyn cefnogaeth i ddatblygu eu busnesau.**

Mae M-SParc yn galluogi Prifysgol Bangor i fod ar flaen y gad o ran effaith ymchwil a chydweithio â'r byd diwydiant wrth ddarparu cyfleoedd i raddedigion, pobl sydd wedi'u tangyflogi neu sy'n dymuno uwchsgilio, a'r rhai sydd eisiau newid gyrfa.

Mae'r Academi Sgiliau yn M-SParc wedi'i sefydlu i bontio'r bwlch sgiliau yng Ngogledd Cymru, yn enwedig ym maes digidol, gwyddoniaeth a thechnoleg a'r meysydd creadigol, gan ddarparu cyfleoedd gan gynnwys prentisiaethau gradd, lleoliadau gwaith a chyfleoedd gyrfa.



"M-SParc yw'r ecosystem sy'n dod â'r byd academaidd, busnes, diwydiant a menter ynghyd. Rydym yn annog myfyrwyr Prifysgol Bangor i fynd ar leoliadau gwaith ac interniaethau gyda'n tenantiaid - gyda dros 70% o interniaethau yn dod yn yrfaoedd yma yn M-SParc! Mae Academi M-SParc yn darparu cyfleoedd pellach i raddedigion gael cyfleoedd gwaith ystyrlon."

**Pryderi Ap Rhisiart,**
**Rheolwr Gyfarwyddwr M-SParc**



"A minnau wedi graddio o Brifysgol Bangor, rydw i bellach yn rhan o brentisiaeth yn M-SParc o'r enw yr Academi Sgiliau. Mae wedi bod yn gymorth enfawr yn rhoi profiad yr oedd mawr ei angen arnaf yn y diwydiant a dirnadaeth o sut i weithredu yn y maes cyflogaeth hwn. Mae hyn yn golygu pan fyddaf yn gorffen fy amser yma yn M-SParc, y bydd gennyf y ddealltwriaeth a'r profiad angenrheidiol o'r diwydiant i symud ymlaen i waith arall."

**Kieran Hughes,**
**Cyn-fyfyriwr Cyfrifiadureg, Prifysgol Bangor**

002

# Vodafone

## Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb digidol



Rydym yn cydweithio â Vodafone, Fibrespeed a Comtek i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb digidol trwy ddarparu rhyngrwyd cyflym i fwy na miliwn o bobl. Bydd ein Canolfan Prosesu Digidol gwerth £5.5m, y cyntaf o'i bath yn y DU, yn sicrhau bod cyfathrebu dros y rhyngrwyd yn gynaliadwy yn y dyfodol.

“Mae'r ymchwil a wnawn yma yn gweithredu fel glud nid yn unig i ddatblygu systemau digidol a fydd yn cael effaith genedlaethol a byd-eang ond yn dod â busnesau sy'n arwain y diwydiant ynghyd i weithio ar y cynlluniau hyn."

**Dr Roger Giddings,**
**Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithrediadau Canolfan Ragoriaeth Prosesu Signalau Digidol, Prifysgol Bangor**

003

# Tate & Lyle

## Lleihau gwastraff bwyd byd-eang

Cenhadaeth ddiweddaraf ein Canolfan Biogyfansoddion oedd arbed miliynau o dunelli o wastraff o'r diwydiant cynhyrchu bwyd. Mae cydweithio mewn project ymchwil gwerth £3.95m gyda Tate & Lyle, a chewri bwyd eraill ledled Ewrop bellach yn golygu y gellir defnyddio'r gwastraff hwn fel dewisiadau amgen, seiliedig ar blanhigion, yn lle'r protein anifeiliaid a ddefnyddir mewn cynhyrchion bwyd.

“Mae'r cydweithio rhwng Y Ganolfan Biogyfansoddion a Tate & Lyle yn hynod bwysig wrth alluogi ymchwil arloesol sy'n bwysig yn fyd-eang i helpu canfod atebion i'r heriau cymdeithasol mwy sylweddol sy'n ein hwynebu, gan gynnwys cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy."

**Dr Adam Charlton,**
**Uwch Gymrawd Ymchwil, Y Ganolfan Biogyfansoddion**



004



# Haia

## Datblygu technoleg amser real

Mae ein Hadran Iaith wedi cydweithio â llwyfan digwyddiadau ar-lein i helpu datblygu cyfieithu testun a llais ar y pryd.

Mae gwasanaeth cyfieithu Haia yn gynnig cwbl unigryw ac mae bellach yn caniatáu i ddefnyddwyr sawl iaith ryngweithio'n rhwydd â'i gilydd.

“Mae'r cyfieithiad byw ar y trywydd iawn i fod yn fwy cywir na'r hyn a geir gan Teams a Google. Gan ddechrau gyda'r Gymraeg, nad oes blaenoriaeth iddi ar unrhyw blatfform digwyddiadau ar-lein arall, byddwn wedyn yn ychwanegu ieithoedd pellach."

**Anne Burke,**
**Cyd-sylfaenydd Haia**

005



# GIG
## Cefnogi gwasanaethau iechyd

Mewn cydweithrediad unigryw â'r GIG, mae ein myfyrwyr MSc Cwnsela yn darparu tua 1500 awr o gwnsela i dros 200 o gleientiaid y flwyddyn. Mae llawer o'n myfyrwyr sy'n dilyn gradd Seicoleg yn parhau â'u hastudiaethau ar yr MSc oherwydd y cyfle i fynd ar y lleoliad hwn.

"Mae'r cydweithrediad rhwng Iechyd Meddwl Cychwynnol a Phrifysgol Bangor yn ychwanegu haen amhrisiadwy o gefnogaeth i'r GIG ar adegau o angen mawr yn y gymuned leol, gan alluogi myfyrwyr i ennill sgiliau a gwybodaeth werthfawr gan helpu i ddatblygu gyrfa mewn cwnsela."

**June Lovell,**
**Rheolwr, Gwasanaeth Cwnsela Iechyd Meddwl Gofal Cychwynnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

006

# Cufflink
## Creu byd digidol mwy diogel

Gyda chymorth Prifysgol Bangor mae Cufflink, sy'n arloesi mewn seiberddiogelwch, yn gwneud cynnydd byd-eang o ran cadw gwybodaeth bersonol a busnes yn ddiogel a'i amddiffyn rhag hacio data.

Mae 50% o weithlu'r cwmni yn raddedigion o Brifysgol Bangor ac mae Cufflink yn elwa o allu ffurfio partneriaethau ymchwil gydag arbenigwyr yn y Brifysgol ar ddata, preifatrwydd a thryloywder.

"Ein gweledigaeth ni yw i Gymru fod ar flaen y gad yn y farchnad seiberddiogelwch fyd-eang, gan ddethol y disgleiriaf a'r gorau o brifysgolion lleol, gan ddarparu cyfleoedd i fynd i'r afael â phroblem fyd eang enfawr y mae angen cryn fedrusrwydd i'w thrin."

**Billy Williams,**
**Cyfarwyddwr a Chyd-sylfaenydd, Cufflink.**



007



# Siemens Healthineers
## Optimeiddio technoleg feddygol

Mae ymchwil o Ysgol Busnes Bangor wedi creu arbedion ariannol pwysig i Siemens Healthineers - cwmni lleol sy'n arweinwyr byd-eang mewn technoleg feddygol.

Trwy archwilio prosesau gweithgynhyrchu offer diagnostig y cwmni, llwyddodd Bukola Adetonwa, myfyriwr ymchwil doethuriaeth, i wneud argymhellion ar effeithlonrwydd a chynaliadwyedd.

"Mae'r project ymchwil wedi gwneud gwelliannau sylweddol i'r adran a'n gallu i rannu gwybodaeth yn effeithiol. Roedd y llwyddiant yn ganlyniad i'r cydweithredu agos, gan ganiatáu i'r dull ymchwil gael ei addasu'n gyflym wrth ddarganfod heriau."

**Dr Rachel Morris,**
**Pennaeth Gweithrediadau Technegol. Siemens Healthineers, Llanberis**

008

# Menter Môn
## Harneisio ynni'r llanw



Disgwylir y ceir sêl bendith i gynlluniau ar gyfer safle ynni llanw mwyaf y byd oddi ar arfordir Gogledd Cymru, a fydd yn cynhyrchu digon o ynni glân i bweru 180,000 o aelwydydd. Bu cydweithio ag Ysgol Busnes Bangor yn allweddol wrth ddatblygu'r project hwn.

Trwy asesu effaith y cynllun ar ddiwydiant lleol a datblygu strategaethau er budd yr economi leol, mae'r project, sy'n cael ei redeg gan Menter Môn, menter gymdeithasol ar Ynys Môn, wedi sicrhau cefnogaeth y cymunedau a'r rhanddeiliaid yr effeithir arnynt.

"Trwy'r cydweithio hwn, llwyddais i ddod ag astudiaeth achos o'r byd go iawn i'r ystafell ddosbarth i edrych ar sut y gall projectau sy'n mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd hefyd gael effaith economaidd gadarnhaol."

**Dr Edward Thomas Jones,**
**Ysgol Busnes Bangor**

009

# Arweinwyr Niwclear Byd-eang
## Arloesi ym maes ynni glân

Rydym yn datblygu gallu sy'n arwain y byd mewn gwyddoniaeth a pheirianneg niwclear yn Sefydliad Dyfodol Niwclear y Brifysgol, mewn cydweithrediad â chyrff byd-eang allweddol sy'n arloesi yn y diwydiant niwclear.

Gan ddatblygu'r technolegau ynni niwclear sy'n bodoli eisoes, a'r rhai sy'n prysur ddod i'r amlwg, rydym yn cael effaith sylweddol ar ymrwymiad llywodraeth y DU i fod yn garbon niwtral erbyn 2050.

"Mae Gogledd Cymru yn un o ganolfannau ynni di-garbon y Deyrnas Unedig, ac mae Prifysgol Bangor wrth galon ymchwil effaith byd-eang mewn ynni glân."

**Yr Athro Bill Lee,**
**Cyfarwyddwr y Sefydliad Dyfodol Niwclear**



# Effaith ein hymchwil.

**bangor.ac.uk/bangor-yr-hud-ar-lledrith**

001

# Ein heffaith fyd-eang.

#Ymchwil

**Mae mwy na thri chwarter yr ymchwil a wneir ym Mangor wedi ei chydnabod fel naill ai gyda'r gorau yn y byd neu o ragoriaeth ryngwladol.**

Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF 2014)

"Caiff gallu'r blaned i gefnogi ecosystem sefydlog a chydnerth ei erydu'n gynyddol gan weithgarwch dynol. Mae tystiolaeth gynyddol, a chonsensws, ein bod yn agosáu at sefyllfa lle bydd newidiadau sylweddol yn digwydd i'r amgylchedd a'n diwylliant, a'r rhain efallai yn amhosib eu dad-wneud. Yr her yw trawsnewid i fod yn gymdeithas ddynol gynaliadwy drwy economi gylchol."

**Yr Athro Paul Spencer,**
**Dirprwy Is-ganghellor - Ymchwil ac Arloesi / Pennaeth Coleg Gwyddorau'r Amgylchedd a Pheirianneg**

002

# Dod â thlodi bwyd byd-eang i ben



Mae ymchwil arloesol dan arweiniad Prifysgol Bangor wedi gwella bywoliaeth mwy na 5 miliwn o aelwydydd ledled yr India a Nepal. Gwnaed hyn drwy i ni ddatblygu amrywiaeth reis newydd a all ymdopi â'r hinsoddau tyfu llym yn y gwledydd hyn.

Mae'r amrywiaeth newydd hon yn darparu budd tybiedig blynyddol o £17 miliwn i'r cartrefi ffermio tlotaf yn yr India yn unig.

“Pan fyddaf yn ystyried maint y tîm y mae Bangor yn ei arwain o’i gymharu â’r projectau sy’n digwydd mewn Canolfannau Ymchwil Rhyngwladol mawr, rwy’n wirioneddol falch bod ein gwaith wedi arwain at lwyddiant ar raddfa debyg.”

**Dr Katherine Steele,**
**Arweinydd Ymchwil ac Uwch Ddarlithydd mewn Cynhyrchu Cnydau Cynaliadwy**

003

# Chwyldroi busnesau mawr

Mae dull arloesol o ragfynegi a ddatblygwyd gan Athro yn Ysgol Busnes Bangor yn newid prosesau cwmnïau byd-eang, gan gynnwys Uber, Amazon a Bosch.

Syniad yr Athro Konstantinos Nikolopoulos yw’r Dull Theta ac mae'n galluogi rhagfynegi lefel stoc wedi'i optimeiddio o fewn 10 milieiliad.

“Fe wnaeth pwyslais ymchwil Prifysgol Bangor, a chefnogaeth lawn academyddion blaengar fy ngalluogi i ddatblygu’r dull Theta i’r lefel nesaf, gan ei gadarnhau fel y meincnod eithaf mewn rhagfynegi diwydiannol.”

**Yr Athro Konstantinos Nikolopoulos,**
**Athro Gwyddorau Penderfyniad a Dadansoddeg Busnes rhwng 2010 a 2020**




004



# Trawsnewid iechyd meddwl

Canolfan Ymchwil ac Ymarfer Ymwybyddiaeth Ofalgar Prifysgol Bangor oedd y ganolfan brifysgol gyntaf a sefydlwyd yn Ewrop, a hi hefyd oedd yn arwain rhaglen Meistr gyntaf y byd yn y maes hwn. Bellach mae technegau a ddatblygwyd gan ein hymchwilwyr yn cael eu defnyddio gan y mwyafrif o ganolfannau Ymwybyddiaeth Ofalgar ledled y byd, gan gael effaith fyd-eang.

“Bu’r Ganolfan ar flaen y gad o ran darpariaeth hyfforddiant ymwybyddiaeth ofalgar yn y gwasanaeth iechyd, gweithleoedd, y system gyfiawnder, mewn cyd-destunau polisi ac mewn addysg. Mewn gwirionedd mae Cwricwlwm Cymru bellach yn caniatáu ar gyfer Ymwybyddiaeth Ofalgar wrth addysgu yn yr ystafell ddosbarth ac i'w ddefnyddio ym mhobman yn yr ysgol.”

**Yr Athro Rebecca Crane,**
**Athro mewn Seicoleg a Chyfarwyddwr Canolfan Ymchwil ac Ymarfer Ymwybyddiaeth Ofalgar Prifysgol Bangor**

**Ffaith:**
**Sesiynau ymwybyddiaeth ofalgar am ddim i bob myfyriwr**

005



## Brwydro yn erbyn COVID-19

Pan darodd y pandemig byd-eang am y tro cyntaf, ymchwilwyr Prifysgol Bangor oedd y cyntaf i ddatblygu a defnyddio'r gallu i fonitro Covid-19 mewn dŵr gwastraff yn y Deyrnas Unedig.

Mae hyn bellach yn darparu tystiolaeth ar y pryd o lefelau haint cymunedol.

Gyda'r tîm bellach yn cydweithio ledled y Deyrnas Unedig, Nigeria a De Affrica, maent yn gweithredu systemau monitro ledled y byd, gan ddarparu gwybodaeth hanfodol yn sail i atebion lleol.

"Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid fel y gallant gynyddu technegau a phrotocolau a ddatblygwyd i gadw golwg ar SARS-CoV-2 a firysau eraill yn y Deyrnas Unedig ac yn rhanbarthol, gan alluogi cymunedau, asiantaethau iechyd cyhoeddus a llywodraethau i geisio lleihau risg a rheoli risgiau iechyd cenedlaethol a byd-eang."

**Dr Shelagh Malham,**
**Cyd-arweinydd y Project, Prifysgol Bangor**

**Ffaith:**
**Dyfarnwyd £6 miliwn i'r Brifysgol mewn grantiau ymchwil Covid-19**

006

## Buddion dwyieithrwydd arloesol

Trwy gyflwyno dull newydd radical o faes economeg, roedd ymchwilwyr ym Mangor yn gallu mesur sgiliau meddwl plant yn fwy cywir a chynhwysfawr nag erioed o'r blaen, gan ddangos bod plant dwyieithog ar gyfartaledd 6.5% yn fwy effeithlon yn eu sgiliau meddwl na phlant uniaith.

Mae'r dull newydd hwn yn ddatblygiad blaengar byd-eang ym maes astudiaethau dwyieithog.

"Mae'r canlyniadau cadarnhaol hyn yn pwysleisio y gall dysgu dwy iaith neu fwy fod yn fwy buddiol nag a feddyliwyd eisoes i ddatblygiad plant. Mae hyn yn bwysig i ni yma yng Nghymru ac yn wir i gymunedau dwyieithog ledled y byd."

**Dr Athanasia Papastergiou,**
**Prif Awdur, Darlithydd Dwyieithrwydd**



007



## Gwarchod cadwraeth a'r gymuned

Mae ymchwil y bu Bangor yn arwain arni yn sicrhau nad yw cadwraeth coedwigoedd yn dod ar draul pobl dlotaf y byd, trwy ddylanwadu ar sut mae llywodraethau ledled y byd yn lleihau effeithiau negyddol eu polisïau rheoli hinsawdd.

"Mae gwarchod ac adfer coedwigoedd trofannol yn hanfodol ond ni ellir cyflawni hyn heb gyfranogiad gwirioneddol cymunedau lleol.

"Nod ein gwaith yw rhoi pobl leol wrth galon trafodaethau gyda'r nod o ddarparu cadwraeth goedwigol yn fwy effeithiol a theg."

**Yr Athro Julia Jones,**
**Cyd-arweinydd Ymchwil ac Athro mewn Gwyddor Cadwraeth, Prifysgol Bangor**

008

# Ysgogi perfformiad athletaidd



Mewn cydweithrediad ag UK Sport, mae ymchwilwyr ym Mangor yn ymgymryd ag ymchwil o'r radd flaenaf. Gan archwilio sut i adnabod perfformwyr chwaraeon hynod fedrus, trwy systemau datblygu talent arloesol, mae ymchwilwyr yn gofyn y cwestiwn: 'Beth sydd ei angen i athletwr ffynnu go iawn?'

Mae canfyddiadau o'r project ymchwil *Pathway to Podium* eisoes wedi'u gweithredu gan Swim England, GB Hockey, a British Canoeing.

"Caiff canfyddiadau ymchwil o'r fath eu cynnwys yn ein gradd ar unwaith, weithiau cyn bod yr ymchwil honno ar gael yn eang yn y sector. Nid yw ein myfyrwyr ni yn yr un cae â myfyrwyr eraill a raddiodd mewn Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff gan eu bod yn mynd â'r dysgu hwn at ddarpar gyflogwyr."

**Dr Gavin Lawrence,**
**Uwch Ddarlithydd mewn Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff**

009

# Diogelu ecosystemau naturiol

Canfu ymchwil a gynhaliwyd gan fyfyriwr gradd Meistr ym Mangor fod crynodiadau cyffuriau anghyfreithlon wedi cynyddu bedair gwaith mewn afonydd cyfagos yn ystod ac ar ôl Gŵyl Glastonbury, yn awgrymu effeithiau tymor hir i'r ecosystem.

Mae'r ymchwil hon wedi cael sylw rhyngwladol ac mae wedi codi pryderon y gallai llygryddion o wyliau cerdd fod yn fater byd-eang.

"Rwy'n hynod ddiolchgar i Brifysgol Bangor am ganiatáu imi ddilyn trywydd ymchwil mor ddiddorol. Mae'n wych astudio mewn prifysgol gyda chymuned ymchwil mor gref."

"Mae cyhoeddi fy mhroject meistr wedi bod yn nod i mi ers dechrau fy ngradd meistr, ac rwyf ar ben fy nigon iddo dderbyn y gydnabyddiaeth ryngwladol a wnaeth."

**Dan Aberg,**
**Myfyriwr gradd Meistr, Ysgol Gwyddorau Naturiol**



010



# Prosthesis arloesol

Trwy ddefnyddio'r wyddoniaeth sydd ynghlwm â sut mae pobl yn symud, mae ein hacademyddion ymchwil yn cydweithredu â'r cwmni datblygu prostheteg, Ambionics, i ddatblygu aelodau uchaf prosthetig newydd effeithiol i blant ifanc. Mae hyn yn gwella ansawdd bywyd babanod sydd wedi colli eu haelodau, ac yn rhoi mwy o annibyniaeth iddynt.

"Mae dealltwriaeth wael iawn o egwyddorion y wyddoniaeth sylfaenol ynghylch sut mae baban yn dysgu defnyddio aelodau prostheteg yn effeithiol. Nod ein hymchwil yw gwella dealltwriaeth o'r egwyddorion sylfaenol sy'n llywodraethu sut mae'r ymennydd sy'n datblygu yn rheoli'r aelodau, a dyfeisiau allanol yn benodol."

**Dr Simon Watt,**
**Uwch Ddarlithydd, Seicoleg, Prifysgol Bangor ac Ymchwilydd Cyd-arweiniol**

011

# Diogelu rhag trychineb naturiol



Bydd canlyniadau project ymchwil gwerth miliynau o bunnoedd, y mae Bangor yn gyfrannwr allweddol ato, yn helpu i ddeall y rhyngweithio rhwng ein cefnforoedd a'n hatmosffer. Bydd hyn yn ei dro yn gwella'r gallu i ddarogan tywydd eithafol, ac yn y pen draw yn cyfarwyddo llywodraethau ble i fuddsoddi mewn amddiffynfeydd llifogydd a pholisïau newid tir.

"Mae gan y cefnfor swyddogaeth hanfodol yng nghyswllt yr hinsawdd a thywydd ac mae cyfraniad Bangor yn allweddol i ateb y cwestiynau hyn."

**Dr Yueng-Djern Lenn, Darllenydd mewn Eigioneg Ffisegol, Prif Ymchwilydd Prifysgol Bangor ar gyfer ArctiCONNECT**

012

# Arwain ymchwil i ficroplastigion



Prifysgol Bangor yw un o'r sefydliadau cyntaf i ymchwilio i bresenoldeb microplastigion mewn dyfroedd mewndirol gydag astudiaeth arloesol yn y Deyrnas Unedig sy'n cael sylw yn y cyfryngau ledled y byd mewn cydweithrediad â Chyfeillion y Ddaear. Ers hynny, rydym wedi sefydlu nifer o brojectau amlwg sy'n edrych ar bresenoldeb a symudiad microplastigion mewn afonydd, moroedd a chefnforoedd ledled y byd.

"Mae gwaith o'r fath yn hanfodol os ydym am ddeall maint yr argyfwng llygredd plastig yr ydym yn ei wynebu - ac yn hollbwysig, yr hyn y gallwn ei wneud yn ei gylch. Cael dull amlddisgyblaethol o'r fath yw'r unig ffordd i fynd i'r afael â'r trychineb amgylcheddol yn ystyrlon, ac mae Prifysgol Bangor yn arwain y ffordd wrth wneud hynny."

**Dr Christian Dunn, Uwch Ddarlithydd yn y Gwyddorau Naturiol, Cyfarwyddwr Canolfan Ymchwil Plastig Cymru a Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol dros Gynaliadwyedd, Prifysgol Bangor**







# Astudio ym Mangor.

# Colegau ac Ysgolion Academaidd.

## Mae gweithgareddau academaidd y Brifysgol wedi eu rhannu rhwng tri Choleg:

**Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Busnes:**

- Ysgol Busnes Bangor
- Ysgol Hanes, y Gyfraith a Gwyddorau Cymdeithas
- Ysgol Iaith, Diwylliant a'r Celfyddydau

**Coleg Gwyddorau'r Amgylchedd a Pheirianneg:**

- Ysgol Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig
- Ysgol Gwyddorau Naturiol
- Ysgol Gwyddorau Eigion
- Y Ganolfan Biogyfansoddion

**Coleg Gwyddorau Dynol:**

- Ysgol Gwyddorau Addysgol
- Ysgol Gwyddorau Meddygol ac Iechyd
- Ysgol Gwyddorau Dynol ac Ymddygiadol





18 84

# Cyrsiau.

**bangor.ac.uk/cyrsiau**


112 **Addysg, Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid**
112 **Bioleg a Biotechnoleg**
113 **Busnes, Marchnata a Rheolaeth**
113 **Cadwraeth, Daearyddiaeth a'r Amgylchedd**
114 **Cerddoriaeth**
114 **Cyfrifeg, Cyllid ac Economeg**
115 **Cyfrifiadureg**
115 **Cymraeg**
116 **Drama, Theatr a Pherfformio**
116 **Ffilm, Newyddiaduraeth a'r Cyfryngau**
117 **Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer**
117 **Gwyddorau Cymdeithasol a Phlismona**
118 **Gwyddorau Meddygol ac Iechyd**
119 **Gwyddorau Eigion**
119 **Hanes ac Archaeoleg**
120 **Iaith Saesneg ac Ieithyddiaeth**
121 **Ieithoedd Modern**
121 **Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol**
122 **Peirianneg Electronig a Dylunio Cynnyrch**
122 **Seicoleg**
123 **Swoleg**
124 **Y Gyfraith**

# Dewch o hyd i'ch cwrs.

| Cod | Teitl y rhaglen | Cymhwyster | Tariff mynediad (2023) | Hyd y cwrs | Blwyddyn sylfaen | Blwyddyn lleoliad | Blwyddyn profiad rhyngwladol | Opsiynau cyfrwng Cymraeg | Campws |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Addysg, Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid** | | | | | | | | | |
| X130 | Addysg Gynradd gyda Statws Athro Cymwysedig (cwrs cyfrwng Cymraeg) | BA (Anrh) | 96-128 | 3-4 blynedd | ✗ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| X314 | Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid (cwrs cyfrwng Cymraeg) | BA (Anrh) | 88-120 | 3-4 blynedd | ✗ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| X316 | Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid a Chymdeithaseg (cwrs cyfrwng Cymraeg) | BA (Anrh) | 88-120 | 3-4 blynedd | ✗ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| X321 | Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid a Chymraeg (cwrs cyfrwng Cymraeg) | BA (Anrh) | 88-120 | 3-4 blynedd | ✗ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| X313 | Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid (cwrs cyfrwng Saesneg) | BA (Anrh) | 88-120 | 3-4 blynedd | ✗ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| X319 | Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid a Seicoleg | BA (Anrh) | 88-120 | 3-4 blynedd | ✗ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| X315 | Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid a Chymdeithaseg (cwrs cyfrwng Saesneg) | BA (Anrh) | 88-120 | 3-4 blynedd | ✗ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| X131 | Addysg Gynradd gyda Statws Athro Cymwysedig (cwrs cyfrwng Saesneg) | BA (Anrh) | 96-128 | 3-4 blynedd | ✗ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| **Bioleg a Biotechnoleg** | | | | | | | | | |
| C100 | Bioleg | BSc (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| C101 | Bioleg | MBiol (Anrh) | 112-136 | 4-5 mlynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| C10F | Bioleg (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BSc (Anrh) | 48-88 | 4-5 mlynedd | amh | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| C511 | Bioleg gyda Biotechnoleg | BSc (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| C510 | Bioleg gyda Biotechnoleg | MBiol (Anrh) | 112-136 | 4-5 mlynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |

## Busnes, Marchnata a Rheolaeth

| Cod | Teitl y rhaglen | Cymhwyster | Tariff mynediad (2023) | Hyd y cwrs | Blwyddyn sylfaen | Blwyddyn lleoliad | Blwyddyn profiad rhyngwladol | Opsiynau cyfrwng Cymraeg | Campws |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| amh | Dadansoddeg Data Busnes* | BSc (Anrh) | 96-128 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| N200 | Rheoli Busnes | BSc (Anrh) | 96-128 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| N20F | Rheoli Busnes (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BSc (Anrh) | 48-88 | 4-5 mlynedd | amh | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| N2N6 | Rheolaeth gyda Rheolaeth Adnoddau Dynol* | BSc (Anrh) | 96-128 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| N501 | Marchnata | BSc (Anrh) | 96-128 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| N50F | Marchnata (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BSc (Anrh) | 48-88 | 4-5 mlynedd | amh | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| N832 | Rheoli Twristiaeth* | BSc (Anrh) | 88-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |

## Cadwraeth, Daearyddiaeth a'r Amgylchedd

| Cod | Teitl y rhaglen | Cymhwyster | Tariff mynediad (2023) | Hyd y cwrs | Blwyddyn sylfaen | Blwyddyn lleoliad | Blwyddyn profiad rhyngwladol | Opsiynau cyfrwng Cymraeg | Campws |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| C180 | Ecoleg Daear a Môr Gymhwysol | BSc (Anrh) | 88-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| 5DKD | Cadwraeth gyda Choedwigaeth | BSc (Anrh) | 88-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| D447 | Cadwraeth Amgylcheddol | BSc (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| F900 | Gwyddorau'r Amgylchedd | BSc (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| F850 | Gwyddorau'r Amgylchedd | MEnvSci (Anrh) | 112-136 | 4-5 mlynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| F90F | Gwyddorau'r Amgylchedd (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BSc (Anrh) | 48-88 | 4-5 mlynedd | amh | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| D500 | Coedwigaeth | BSc (Anrh) | 88-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| D512 | Coedwigaeth | MFor (Anrh) | 96-128 | 4-5 mlynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| L700 | Daearyddiaeth | BA (Anrh) | 96-128 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| F800 | Daearyddiaeth | BSc (Anrh) | 96-128 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| F801 | Daearyddiaeth | MGeog (Anrh) | 104-136 | 4-5 mlynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| C328 | Cadwraeth Bywyd Gwyllt | BSc (Anrh) | 88-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| D515 | Cadwraeth a Rheoli Coetiroedd* | BSc (Anrh) | 88-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |

| Cod | Teitl y rhaglen | Cymhwyster | Tariff mynediad (2023) | Hyd y cwrs | Blwyddyn sylfaen | Blwyddyn lleoliad | Blwyddyn profiad rhyngwladol | Opsiynau cyfrwng Cymraeg | Campws |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cerddoriaeth** | | | | | | | | | |
| W300 | Cerddoriaeth | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| W302 | Cerddoriaeth | BMUS (Anrh) | 96-128 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| W30F | Cerddoriaeth (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BA (Anrh) | 48-88 | 4-5 mlynedd | amh | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| W32F | Cerddoriaeth (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BMUS (Anrh) | 48-88 | 4-5 mlynedd | amh | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| WW38 | Cerddoriaeth ac Ysgrifennu Creadigol | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| WW36 | Cerddoriaeth ac Astudiaethau Ffilm | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| W3R8 | Cerddoriaeth ac Ieithoedd Modern | BA (Anrh) | 96-120 | 4-5 mlynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| amh | Cerddoriaeth gyda Pherfformio* | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| W3W4 | Cerddoriaeth gyda Theatr a Pherfformio | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| **Cyfrifeg, Cyllid ac Economeg** | | | | | | | | | |
| NN4H | Cyfrifeg a Chyllid | BSc (Anrh) | 96-128 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| NN4F | Cyfrifeg a Chyllid (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BSc (Anrh) | 48-88 | 4-5 mlynedd | amh | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| N4N2 | Cyfrifeg a Rheolaeth* | BSc (Anrh) | 96-128 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| N391 | Bancio a Chyllid | BSc (Anrh) | 96-128 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| N39F | Bancio a Chyllid (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BSc (Anrh) | 48-88 | 4-5 mlynedd | amh | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| N312 | Bancio gyda Thechnolegau Cyllid* | BSc (Anrh) | 96-128 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| L110 | Economeg* | BSc (Anrh) | 96-128 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| L1N3 | Economeg a Chyllid* | BSc (Anrh) | 96-128 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |

| Cod | Teitl y rhaglen | Cymhwyster | Tariff mynediad (2023) | Hyd y cwrs | Blwyddyn sylfaen | Blwyddyn lleoliad | Blwyddyn profiad rhyngwladol | Opsiynau cyfrwng Cymraeg | Campws |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cyfrifiadureg

| Cod | Teitl y rhaglen | Cymhwyster | Tariff mynediad (2023) | Hyd y cwrs | Blwyddyn sylfaen | Blwyddyn lleoliad | Blwyddyn profiad rhyngwladol | Opsiynau cyfrwng Cymraeg | Campws |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I110 | Systemau Gwybodaeth Cyfrifiadurol | BSc (Anrh) | 88-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| IN00 | Systemau Gwybodaeth Cyfrifiadurol i Fusnesau | BSc (Anrh) | 88-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| G400 | Cyfrifiadureg | BSc (Anrh) | 112-128 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| H117 | Cyfrifiadureg | MComp (Anrh) | 128-136 | 4-5 mlynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| G40F | Cyfrifiadureg (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BSc (Anrh) | 48-88 | 4-5 mlynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| I103 | Cyfrifiadureg a Dylunio Gemau | BSc (Anrh) | 96-128 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| amh | Cyfrifiadura gyda Gwyddorau'r Hinsawdd* | BSc (Anrh) | 104-128 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| GW49 | Technolegau Creadigol | BSc (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| H118 | Gwyddor Data a Deallusrwydd Artiffisial | BSc (Anrh) | 104-128 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| H114 | Gwyddor Data a Delweddu | BSc (Anrh) | 104-128 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |

## Cymraeg

| Cod | Teitl y rhaglen | Cymhwyster | Tariff mynediad (2023) | Hyd y cwrs | Blwyddyn sylfaen | Blwyddyn lleoliad | Blwyddyn profiad rhyngwladol | Opsiynau cyfrwng Cymraeg | Campws |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Q565 | Cymraeg i Ddechreuwyr | BA (Anrh) | 88-112 | 4-5 mlynedd | amh | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| Q562 | Cymraeg** | BA (Anrh) | 96-128 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| QW53 | Cymraeg a Cherddoriaeth | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| LQ35 | Cymraeg a Chymdeithaseg | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| QV51 | Cymraeg a Hanes | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| QMV2 | Cymraeg a Hanes Cymru | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| 3Q5Q | Cymraeg a Llenyddiaeth Saesneg | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| Q5VV | Cymraeg ac Athroniaeth, Moeseg a Chrefydd | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |

| Cod | Teitl y rhaglen | Cymhwyster | Tariff mynediad (2023) | Hyd y cwrs | Blwyddyn sylfaen | Blwyddyn lleoliad | Blwyddyn profiad rhyngwladol | Opsiynau cyfrwng Cymraeg | Campws |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| QQ15 | Cymraeg ac Ieithyddiaeth | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| Q5P5 | Cymraeg gyda Newyddiaduraeth | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| Q5WK | Cymraeg gydag Ysgrifennu Creadigol | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| Q563 | Cymraeg Proffesiynol | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| QWM5 | Cymraeg, Theatr a'r Cyfryngau | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |

## Drama, Theatr a Pherfformio

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| amh | Drama, Theatr a Pherfformio* | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |

## Ffilm, Newyddiaduraeth a'r Cyfryngau

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| WPQ0 | Astudiaethau Creadigol | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| 3P3Q | Astudiaethau Ffilm a Llenyddiaeth Saesneg | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| W610 | Astudiaethau Ffilm a Chynhyrchu | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| P3W5 | Astudiaethau Ffilm gyda Theatr a Pherfformio | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| PP53 | Newyddiaduraeth ac Astudiaethau'r Cyfryngau | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| WP83 | Astudiaethau'r Cyfryngau ac Ysgrifennu Creadigol | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| 3HPQ | Astudiaethau'r Cyfryngau a Llenyddiaeth Saesneg | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| PW33 | Astudiaethau'r Cyfryngau a Cherddoriaeth | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| P316 | Astudiaethau a Chynhyrchu'r Cyfryngau | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| P31F | Astudiaethau a Chynhyrchu'r Cyfryngau (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BA (Anrh) | 48-88 | 4-5 mlynedd | amh | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| P3WL | Astudiaethau'r Cyfryngau gyda Theatr a Pherfformio | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |

| Cod | Teitl y rhaglen | Cymhwyster | Tariff mynediad (2023) | Hyd y cwrs | Blwyddyn sylfaen | Blwyddyn lleoliad | Blwyddyn profiad rhyngwladol | Opsiynau cyfrwng Cymraeg | Campws |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer

| Cod | Teitl y rhaglen | Cymhwyster | Tariff mynediad (2023) | Hyd y cwrs | Blwyddyn sylfaen | Blwyddyn lleoliad | Blwyddyn profiad rhyngwladol | Opsiynau cyfrwng Cymraeg | Campws |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| C611 | Gwyddorau Chwaraeon Antur | BSc (Anrh) | 80-112 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| C680 | Seicoleg Chwaraeon ac Ymarfer | BSc (Anrh) | 96-136 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| C616 | Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer | BSc (Anrh) | 96-136 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| C621 | Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer | MSci (Anrh) | 136-144 | 4-5 mlynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| C61F | Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BSc (Anrh) | 48-80 | 4-5 mlynedd | amh | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| C617 | Gwyddorau Chwaraeon, Addysg Gorfforol a Hyfforddi | BSc (Anrh) | 96-128 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| C618 | Gwyddorau Chwaraeon: Cryfder a Chyflyru | BSc (Anrh) | 96-128 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |

## Gwyddorau Cymdeithasol a Phlismona

| Cod | Teitl y rhaglen | Cymhwyster | Tariff mynediad (2023) | Hyd y cwrs | Blwyddyn sylfaen | Blwyddyn lleoliad | Blwyddyn profiad rhyngwladol | Opsiynau cyfrwng Cymraeg | Campws |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| M930 | Troseddeg a Chyfiawnder Troseddol | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| L34L | Troseddeg a Chyfiawnder Troseddol a Pholisi Cymdeithasol | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| LM3Y | Cymdeithaseg a Throseddeg a Chyfiawnder Troseddol (cwrs ddwyieithog) | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| L3LK | Cymdeithaseg gyda Pholisi Cymdeithasol (cwrs cyfrwng Cymraeg) | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| L436 | Plismona Proffesiynol | BSc (Anrh) | 96-112 | 3 blynedd | ✗ | ✗ | ✗ | ✓ | Bangor a Llandrillo-yn-Rhos |
| L300 | Cymdeithaseg | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| L30F | Cymdeithaseg (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BA (Anrh) | 48-88 | 4-5 mlynedd | amh | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| LM39 | Cymdeithaseg a Throseddeg a Chyfiawnder Troseddol | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |

| Cod | Teitl y rhaglen | Cymhwyster | Tariff mynediad (2023) | Hyd y cwrs | Blwyddyn sylfaen | Blwyddyn lleoliad | Blwyddyn profiad rhyngwladol | Opsiynau cyfrwng Cymraeg | Campws |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| LL34 | Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol (cwrs cyfrwng Saesneg) | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| V5V6 | Athroniaeth, Moeseg a Chrefydd | BA (Anrh) | 88-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| L200 | Gwleidyddiaeth | BA (Anrh) | 96-112 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| L20F | Gwleidyddiaeth (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BA (Anrh) | 48-88 | 4-5 mlynedd | amh | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |

## Gwyddorau Meddygol ac Iechyd

| Cod | Teitl y rhaglen | Cymhwyster | Tariff mynediad (2023) | Hyd y cwrs | Blwyddyn sylfaen | Blwyddyn lleoliad | Blwyddyn profiad rhyngwladol | Opsiynau cyfrwng Cymraeg | Campws |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| B741 | Nyrsio Oedolion*** | BN (Anrh) | 96-120 | 3 blynedd | ✗ | ✗ | ✗ | ✓ | Bangor |
| B102 | Gwyddor Biofeddygol | BSc (Anrh) | 96-128 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| B112 | Gwyddor Biofeddygol (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BSc (Anrh) | 48-88 | 4-5 mlynedd | amh | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| B732 | Nyrsio Plant*** | BN (Anrh) | 96-120 | 3 blynedd | ✗ | ✗ | ✗ | ✓ | Bangor |
| B751 | Hylendid Deintyddol | DipHE | 64-72 | 2 flynedd | ✗ | ✗ | ✗ | ✓ | Bangor |
| B821 | Radiograffeg Diagnostig | BSc (Anrh) | 120 | 3 blynedd | ✗ | ✗ | ✗ | ✓ | Wrecsam |
| L510 | Iechyd a Gofal Cymdeithasol | BA (Anrh) | 80-96 | 3 blynedd | ✗ | ✗ | ✗ | ✓ | Bangor |
| B763 | Nyrsio Anableddau Dysgu*** | BN (Anrh) | 96-120 | 3 blynedd | ✗ | ✗ | ✗ | ✓ | Bangor |
| B103 | Bioleg Feddygol | BSc (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| B100 | Gwyddorau Meddygol | BMedSci (Anrh) | 96-128 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| B110 | Gwyddorau Meddygol (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BMedSci (Anrh) | 48-88 | 4-5 mlynedd | amh | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| A102 | Meddygaeth: Gogledd Cymru (MBBCh) | MBBCh | gweler y wefan | 4 blynedd | ✗ | ✗ | ✗ | ✓ | Bangor |
| B762 | Nyrsio Iechyd Meddwl*** | BN (Anrh) | 96-120 | 3 blynedd | ✗ | ✗ | ✗ | ✓ | Bangor |
| B720 | Bydwreigiaeth | BMid (Anrh) | 112-120 | 3 blynedd | ✗ | ✗ | ✗ | ✓ | Bangor |
| amh | Ffarmacoleg* | BSc (Anrh) | 112-128 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| amh | Ffarmacoleg (gyda Blwyddyn Sylfaen)* | BSc (Anrh) | 48-96 | 4-5 mlynedd | amh | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |

| Cod | Teitl y rhaglen | Cymhwyster | Tariff mynediad (2023) | Hyd y cwrs | Blwyddyn sylfaen | Blwyddyn lleoliad | Blwyddyn profiad rhyngwladol | Opsiynau cyfrwng Cymraeg | Campws |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwyddorau Eigion** | | | | | | | | | |
| F650 | Eigioneg Ddaearegol | BSc (Anrh) | 104-136 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| F652 | Eigioneg Ddaearegol | MSci (Anrh) | 112-144 | 4-5 mlynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| F62F | Eigioneg Ddaearegol (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BSc (Anrh) | 48-96 | 4-5 mlynedd | amh | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| C160 | Bioleg Môr | BSc (Anrh) | 104-136 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| C167 | Bioleg Môr | MSci (Anrh) | 112-144 | 4-5 mlynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| C16F | Bioleg Môr (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BSc (Anrh) | 48-96 | 4-5 mlynedd | amh | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| CF17 | Bioleg Môr ac Eigioneg | BSc (Anrh) | 104-136 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| F712 | Bioleg Môr ac Eigioneg | MSci (Anrh) | 112-144 | 4-5 mlynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| CC13 | Bioleg Môr a Swoleg | BSc (Anrh) | 104-136 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| C169 | Bioleg Môr a Swoleg | MSci (Anrh) | 112-144 | 4-5 mlynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| amh | Gwyddor Morol a Chadwraeth* | BSc (Anrh) | 96-128 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| amh | Cadwraeth Fertebratau'r Môr* | BSc (Anrh) | 96-128 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| amh | Cadwraeth Fertebratau'r Môr* | MSci (Anrh) | 112-144 | 4-5 mlynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| F7F6 | Yr Eigion a Geoffiseg | BSc (Anrh) | 104-128 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| F700 | Gwyddorau'r Eigion | BSc (Anrh) | 96-136 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| F840 | Daearyddiaeth Ffisegol ac Eigioneg | BSc (Anrh) | 96-128 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| F734 | Eigiolneg Ffisegol | MSci (Anrh) | 128-144 | 4-5 mlynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| **Hanes ac Archaeoleg** | | | | | | | | | |
| VV41 | Treftadaeth, Archaeoleg a Hanes | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| V100 | Hanes | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| V10F | Hanes (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BA (Anrh) | 48-88 | 4-5 mlynedd | amh | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |

| Cod | Teitl y rhaglen | Cymhwyster | Tariff mynediad (2023) | Hyd y cwrs | Blwyddyn sylfaen | Blwyddyn lleoliad | Blwyddyn profiad rhyngwladol | Opsiynau cyfrwng Cymraeg | Campws |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| V103 | Hanes ac Archaeoleg | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| 3QV1 | Hanes a Llenyddiaeth Saesneg | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| VW13 | Hanes a Cherddoriaeth | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| V130 | Hanes yr Oesoedd Canol a'r Cyfnod Modern Cynnar | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| V140 | Hanes Modern a Chyfoes | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| **Iaith Saesneg ac Ieithyddiaeth** | | | | | | | | | |
| Q301 | Iaith Saesneg | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| QQC3 | Iaith Saesneg a Llenyddiaeth Saesneg | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| QQCF | Iaith Saesneg a Llenyddiaeth Saesneg (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BA (Anrh) | 48-88 | 4-5 mlynedd | amh | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| amh | Iaith Saesneg ac Astudiaethau'r Cyfryngau* | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| Q318 | Iaith Saesneg ar gyfer Therapi Iaith a Lleferydd | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| Q315 | Iaith Saesneg ar gyfer TEFL | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| Q3WL | Iaith Saesneg gydag Ysgrifennu Creadigol | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| Q314 | Iaith Saesneg Ryngwladol ar gyfer TEFL | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| Q100 | Ieithyddiaeth | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| Q3R8 | Ieithyddiaeth ac Ieithoedd Modern | BA (Anrh) | 96-120 | 4-5 mlynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| Q1C8 | Ieithyddiaeth a Seicoleg | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| Q140 | Ieithyddiaeth ac Iaith Saesneg | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |

| Cod | Teitl y rhaglen | Cymhwyster | Tariff mynediad (2023) | Hyd y cwrs | Blwyddyn sylfaen | Blwyddyn lleoliad | Blwyddyn profiad rhyngwladol | Opsiynau cyfrwng Cymraeg | Campws |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ieithoedd Modern** | | | | | | | | | |
| R800 | Ieithoedd Modern | BA (Anrh) | 96-120 | 4-5 mlynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| R808 | Ieithoedd Modern (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BA (Anrh) | 48-88 | 5-6 blynedd | amh | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| R807 | Ieithoedd Modern a Throseddeg a Chyfiawnder Troseddol | BA (Anrh) | 96-120 | 4-5 mlynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| R805 | Ieithoedd Modern a Chymraeg | BA (Anrh) | 96-120 | 4-5 mlynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| R801 | Ieithoedd Modern a Llenyddiaeth Saesneg | BA (Anrh) | 96-120 | 4-5 mlynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| R803 | Ieithoedd Modern ac Astudiaethau Ffilm | BA (Anrh) | 96-120 | 4-5 mlynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| R804 | Ieithoedd Modern a Hanes | BA (Anrh) | 96-120 | 4-5 mlynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| R802 | Ieithoedd Modern ac Astudiaethau'r Cyfryngau | BA (Anrh) | 96-120 | 4-5 mlynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| R806 | Ieithoedd Modern ac Athroniaeth, Moeseg a Chrefydd | BA (Anrh) | 96-120 | 4-5 mlynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| **Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol** | | | | | | | | | |
| W890 | Ysgrifennu Creadigol a Phroffesiynol | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| W8R8 | Ysgrifennu Creadigol a Ieithoedd Modern | BA (Anrh) | 96-120 | 4-5 mlynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| 8H25 | Llenyddiaeth Saesneg | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| 2P17 | Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| amh | Llenyddiaeth Saesneg a Newyddiaduraeth* | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| 32N6 | Llenyddiaeth Saesneg a Cherddoriaeth | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |
| 32M8 | Llenyddiaeth Saesneg gyda Theatr a Pherfformio | BA (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bangor |

| Cod | Teitl y rhaglen | Cymhwyster | Tariff mynediad (2023) | Hyd y cwrs | Blwyddyn sylfaen | Blwyddyn lleoliad | Blwyddyn profiad rhyngwladol | Opsiynau cyfrwng Cymraeg | Campws |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Peirianneg Electronig a Dylunio Cynnyrch

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| H612 | Peirianneg Systemau Cyfrifiadurol | BEng (Anrh) | 112-128 | 3-4 blynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| H617 | Peirianneg Systemau Cyfrifiadurol | MEng (Anrh) | 128-136 | 4-5 mlynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| H661 | Peirianneg Rheolaeth ac Offeryniaeth | MEng (Anrh) | 128-136 | 4-5 mlynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| W241 | Dylunio Cynnyrch (cwrs cyfrwng Cymraeg) | BSc (Anrh) | 88-120 | 3-4 blynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| H610 | Peirianneg Electronig | BEng (Anrh) | 112-128 | 3-4 blynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| H611 | Peirianneg Electronig | BSc (Anrh) | 88-104 | 3-4 blynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| H601 | Peirianneg Electronig | MEng (Anrh) | 128-136 | 4-5 mlynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| H61F | Peirianneg Electronig (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BEng (Anrh) | 48-80 | 4-5 mlynedd | amh | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| amh | Peirianneg* | BEng (Anrh) | 112-128 | 3-4 blynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| amh | Peirianneg* | MEng (Anrh) | 128-136 | 4-5 mlynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| amh | Peirianneg (gyda Blwyddyn Sylfaen)* | BEng (Anrh) | 48-80 | 4-5 mlynedd | amh | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| W240 | Dylunio Cynnyrch (cwrs cyfrwng Saesneg) | BSc (Anrh) | 88-120 | 3-4 blynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |

## Seicoleg

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| C800 | Seicoleg | BSc (Anrh) | 96-128 | 3-4 blynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| C80F | Seicoleg (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BSc (Anrh) | 48-88 | 4-5 mlynedd | amh | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| C880 | Seicoleg gyda Seicoleg Glinigol ac Iechyd | BSc (Anrh) | 96-128 | 3-4 blynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| C813 | Seicoleg gyda Seicoleg Fforensig | BSc (Anrh) | 104-136 | 3-4 blynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| C801 | Seicoleg gyda Niwroseicoleg | BSc (Anrh) | 112-144 | 3-4 blynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |

| Cod | Teitl y rhaglen | Cymhwyster | Tariff mynediad (2023) | Hyd y cwrs | Blwyddyn sylfaen | Blwyddyn lleoliad | Blwyddyn profiad rhyngwladol | Opsiynau cyfrwng Cymraeg | Campws |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Swoleg

| Cod | Teitl y rhaglen | Cymhwyster | Tariff mynediad (2023) | Hyd y cwrs | Blwyddyn sylfaen | Blwyddyn lleoliad | Blwyddyn profiad rhyngwladol | Opsiynau cyfrwng Cymraeg | Campws |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| C300 | Swoleg | BSc (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| C301 | Swoleg | MZool (Anrh) | 112-136 | 4-5 mlynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| C30F | Swoleg (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BSc (Anrh) | 48-88 | 4-5 mlynedd | amh | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| C3D3 | Swoleg gydag Ymddygiad Anifeiliaid | BSc (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| C302 | Swoleg gydag Ymddygiad Anifeiliaid | MZool (Anrh) | 112-136 | 4-5 mlynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| C335 | Swoleg gyda Rheolaeth Anifeiliaid | BSc (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| C336 | Swoleg gyda Rheolaeth Anifeiliaid | MZool (Anrh) | 112-136 | 4-5 mlynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| C3L2 | Swoleg gyda Chadwraeth | BSc (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| CD34 | Swoleg gyda Chadwraeth | MZool (Anrh) | 112-136 | 4-5 mlynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| C304 | Swoleg gyda Herpetoleg | BSc (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| C303 | Swoleg gyda Herpetoleg | MZool (Anrh) | 112-136 | 4-5 mlynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| C350 | Swoleg gyda Swoleg Môr | BSc (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| C353 | Swoleg gyda Swoleg Môr | MZool (Anrh) | 112-136 | 4-5 mlynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| C330 | Swoleg gyda Ornitholeg | BSc (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| C334 | Swoleg gyda Ornitholeg | MZool (Anrh) | 112-136 | 4-5 mlynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| C329 | Swoleg gyda Phrimatoleg | BSc (Anrh) | 96-120 | 3-4 blynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| C333 | Swoleg gyda Phrimatoleg | MZool (Anrh) | 112-136 | 4-5 mlynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |

## Y Gyfraith

| Cod | Teitl y rhaglen | Cymhwyster | Tariff mynediad (2023) | Hyd y cwrs | Blwyddyn sylfaen | Blwyddyn lleoliad | Blwyddyn profiad rhyngwladol | Opsiynau cyfrwng Cymraeg | Campws |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| M212 | Cyfraith Droseddol | LLB (Anrh) | 96-128 | 3-4 blynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| M100 | Y Gyfraith | LLB (Anrh) | 96-128 | 3-4 blynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| M101 | Y Gyfraith (Rhaglen 2 flynedd) | LLB (Anrh) | Gradd gyntaf 2.ii neu uwch mewn pwnc arall. | 2 flynedd | ✘ | ✘ | ✘ | ✔ | Bangor |
| M10F | Y Gyfraith (gyda Blwyddyn Sylfaen) | LLB (Anrh) | 48-88 | 4-5 mlynedd | amh | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| M1M9 | Y Gyfraith gyda Throseddeg | LLB (Anrh) | 96-128 | 3-4 blynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| M1V1 | Y Gyfraith gyda Hanes | LLB (Anrh) | 96-128 | 3-4 blynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| M1R8 | Y Gyfraith gyda Ieithoedd Modern | LLB (Anrh) | 96-128 | 3-4 blynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| M1L2 | Y Gyfraith gyda Gwleidyddiaeth | LLB (Anrh) | 96-128 | 3-4 blynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| M1C8 | Y Gyfraith gyda Seicoleg | LLB (Anrh) | 96-128 | 3-4 blynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| M1L3 | Y Gyfraith gyda Chymdeithaseg | LLB (Anrh) | 96-128 | 3-4 blynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |
| M1Q5 | Y Gyfraith gyda Chymraeg | LLB (Anrh) | 96-128 | 3-4 blynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | Bangor |

*Yn amodol ar ddilysu.
**Cwrs ar gyfer siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith yw hwn - gweler y wefan am fanylion pellach.
*** Llawn-amser, ar y campws gyda hyblygrwydd yn lle rydych yn astudio. Efallai y bydd dulliau cyflwyno eraill, gan gynnwys dysgu rhan-amser, dysgu o bell a dysgu gwasgaredig ar gael ar gyfer y cwrs - gweler y wefan am fanylion pellach.


DICTIONARY OF THE WELSH LANGUAGE
OWEN
VOL. II.
PB2191 .P83 1803
Z2071 .H89 1991
CYF
WALES
Ffarwel i Freiburg
ANGHARAD PR
ANGLESEY



# Blwyddyn ar leoliad.

## 'Roedd fy mlwyddyn ar leoliad yn un o rai difyrraf fy mywyd.'



**Mae blwyddyn ar leoliad yn gyfle gwych i chi ehangu eich gorwelion a datblygu sgiliau a chysylltiadau hynod ddefnyddiol trwy weithio gyda sefydliad o'ch dewis sy'n berthnasol i bwnc eich gradd.**

Y cyfnod lleiaf ar leoliad (mewn un lleoliad neu fwy) yw saith mis calendr; fel rheol mae myfyrwyr yn treulio 10-12 mis gyda darparwr lleoliad. Byddwch fel rheol yn dechrau rywbryd yn y cyfnod rhwng mis Mehefin a mis Medi yn eich ail flwyddyn ac yn gorffen rhwng mis Mehefin a mis Medi y flwyddyn ganlynol. Gall y lleoliad fod yn y Deyrnas Unedig neu dramor a byddwch yn gweithio gyda'r staff i gynllunio a chwblhau trefniadau eich lleoliad. Bydd disgwyl i chi ganfod a threfnu lleoliad sy'n addas i'ch gradd ac mi gewch chi gefnogaeth lawn gan aelod pwrpasol o staff yn eich Ysgol academaidd a gan Wasanaethau Cyflogadwyedd y Brifysgol.

Peidiwch â phoeni am gwblhau hyn cyn i chi ymuno â ni - bydd cyfle i chi ystyried y dewis hwn yn llawn pan fyddwch chi wedi cychwyn ar eich cwrs ym Mangor a gallwch wneud cais am drosglwyddiad i'r flwyddyn leoliad.

"Roedd fy mlwyddyn ar leoliadyn un o rai difyrraf fy mywyd! Mi ges i fy lleoli yn y New Forest, sy'n rhan hyfryd o'r Deyrnas Unedig, ac mi ges i wneud swyddi amrywiol yn gysylltiedig ag ymchwil i fywyd gwyllt, a chael profiad gwerthfawr o weithio yn y byd go iawn. Nid yn unig mae'r flwyddyn ar leoliad wedi rhoi sgiliau i mi a fydd yn amhrisiadwy yn y dyfodol, ond dwi hefyd yn fwy sicr be yn benodol dwi eisiau ei wneud ar ôl y brifysgol. Heb sôn am y bobl anhygoel y gwnes i gyfarfod yn ystod y flwyddyn!"

**George Scarisbrick**
**Yn astudio: Ecoleg Daear a Môr Gymhwysol gyda Blwyddyn ar Leoliad**

# Profwch y byd.





**Yn dibynnu ar eich cwrs, efallai y gallwch chi gymryd Blwyddyn Profiad Rhyngwladol lle byddwch chi'n astudio neu'n gwneud lleoliad gwaith neu interniaeth dramor yn ystod eich gradd.**

**Mae yna amrywiaeth eang o gyrchfannau i'w dewis o bob cwr o'r byd.**

Mae astudio neu weithio dramor yn rhan o'ch gradd yn gyfle rhy dda i'w golli. Yn ychwanegol at roi cyfle i chi wella'ch profiad astudio, byddwch hefyd yn cael profi a deall diwylliannau newydd, creu rhwydwaith rhyngwladol o gysylltiadau a chael bydolwg rhyngwladol ar eich maes pwnc.

Gyda phrofiad rhyngwladol o'r math hwn, byddwch yn wir yn ehangu'ch gorwelion ac yn gwella'ch rhagolygon gyrfa.



“Fe es i Koblenz yn yr Almaen i weithio fel cyfieithydd i gwmni yn ystod fy mlwyddyn dramor. Ro’n i wedi fy amgylchynu gan gydweithwyr gwych ac fe wnes i ddysgu cymaint am fy iaith darged, am fyd gwaith ac am fywyd bob dydd mewn gwlad arall. Mae cael cyfle i fynd dramor wedi fy ngwneud yn llawer mwy hyderus am fy astudiaethau yma ym Mangor ac am fy nghynlluniau ar gyfer y dyfodol."

**Samuel Dickins,**
**Yn Astudio: Tsieinëeg ac Almaeneg gyda Phrofiad Rhyngwladol**



# 'Gwnaeth Prifysgol Bangor fy mharatoi i lwyddo! Astudiais dramor yn Vancouver a chymryd rhan mewn rhaglen iaith a diwylliant yn Ne Korea.'

**Luke Barrett**
**BSc Cadwraeth Amgylcheddol gyda Phrofiad Rhyngwladol.**







**Mae rhaglen y Flwyddyn Sylfaen yn gyflwyniad rhagorol i astudio pwnc yn y brifysgol a bydd yn rhoi'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen arnoch i astudio ar lefel gradd.**

Mae cyrsiau Blwyddyn Sylfaen yn ddelfrydol i'r rhai nad oes ganddynt y cymwysterau gofynnol ar gyfer y cwrs lefel gradd, neu'r rhai sydd am ddychwelyd i fyd addysg.

Yn ystod y Flwyddyn Sylfaen, byddwch yn canolbwyntio ar ddatblygu eich sgiliau academaidd a'ch gwybodaeth am bwnc penodol.

Ar ôl cwblhau'r Flwyddyn Sylfaen yn llwyddiannus, byddwch yn symud ymlaen i flwyddyn gyntaf y cwrs gradd perthnasol.

**bangor.ac.uk/blwyddynsylfaen**

# Blwyddyn sylfaen.

# 70 mlynedd o wirfoddoli.



**Mae gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor adain wirfoddoli weithgar iawn sy'n neilltuo cyfanswm o tua 600 awr yr wythnos i brojectau cymunedol.**

Gwirfoddoli Myfyrwyr Bangor yw cangen wirfoddoli Adran Cyfleoedd Myfyrwyr Undeb Bangor, a bu'n darparu projectau cymunedol yn ardal Bangor a'r cyffiniau ers 1952.

Bellach mae dros 50 o brojectau gwirfoddoli rheolaidd, sydd wedi'u rhannu i'r is-gategorïau canlynol: Projectau Iechyd Meddwl, Projectau Plant, Projectau Amgylcheddol, Projectau Pobl Hŷn a'r Gymuned a Phrojectau Chwaraeon.

Mae gan Gwirfoddoli Myfyrwyr Bangor ddegawdau o brofiad yn gweithio'n agos gydag elusennau, sefydliadau ac ysgolion ym Mangor a Gogledd Cymru, yn ogystal ag ymhellach i ffwrdd, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae rhai o'r sefydliadau'n cynnwys: Y GIG; Heddlu Gogledd Cymru; Cadwch Gymru'n Daclus; Cyngor Gwynedd; Age Cymru; Macmillan; Y Gymdeithas Marchogaeth i'r Anabl a'r Gymdeithas Alzheimer.

Mae gwirfoddoli yn rhoi cyfle i chi gyfrannu i'r gymuned, gwneud ffrindiau newydd, datblygu diddordebau newydd a chael profiad gwerthfawr yn barod ar gyfer graddio o Brifysgol Bangor.

"Mae'r myfyrwyr sy'n gwirfoddoli yn aml yn siarad am y gwahaniaeth maen nhw'n ei wneud i gymuned Bangor a'r cyffiniau. Boed hynny yn dosbarthu parseli bwyd i'r rhai sy'n agored i niwed, yn helpu unigolion ag anableddau i farchogaeth, neu'n casglu sbwriel ac yn creu lleoedd mwy diogel i'n draenogod, mae cymaint o foddhad wrth wybod eich bod yn gwneud gwahaniaeth!"

**Katie Tew**
**Is-lywydd Cymdeithasau a Gwirfoddoli**





Y Te Parti yw project hynaf Gwirfoddoli Myfyrwyr Bangor, a chynhaliwyd y digwyddiad cyntaf ym 1952, 70 mlynedd yn ôl! Mae bellach yn draddodiad ym Mangor, lle mae myfyrwyr Bangor yn darparu lluniaeth ysgafn a phrynhawn o adloniant i drigolion oedrannus y ddinas.







# Eich cefnogi chi.

# Yma i helpu.

**Ym Mangor, rydym yn rhoi pwyslais mawr ar gefnogi a gofalu am ein myfyrwyr. Yn cynnwys rheoli eich arian a chael hyd i swydd ar ôl graddio, mae ein gwasanaethau yno i'ch helpu i wneud yn fawr o'ch amser yn y brifysgol. O'r munud y byddwch yn cyrraedd, byddwch yn cael cymaint o help a chefnogaeth ag sydd eu hangen arnoch chi.**

Mae'r Gwasanaethau Cefnogi Myfyrwyr yn cynnwys:

- Gwasanaeth Cwnsela Myfyrwyr
- Cyngor Iechyd Meddwl
- Meddygfa Bartner
- Lles Myfyrwyr Rhyngwladol
- Tîm y Gaplaniaeth
- Gwasanaethau Anabledd
- Cefnogaeth Sgiliau Astudio
- Cynllun Arweinwyr Cyfoed





"Cefais ddiagnosis o ddyslecsia ym Mangor. Rhoddodd gymaint o bethau mewn persbectif i mi a chefais help gan y brifysgol i ddatblygu strategaethau i'm cynorthwyo. Rhoddodd hyn hwb mawr i'm hunanhyder".

**Claire Woolgrove**
**Graddiodd mewn Economeg Busnes**



# 'Mae'r gefnogaeth i fyfyrwyr ym Mangor yn wych; os oedd gennyf gwestiwn am ffordd o fyw, tai, swyddi ... Roedd mor hawdd dod o hyd i help pan oeddwn ei angen.'

**Sonja Milano,**
**Graddiodd gyda BSc Seicoleg a**
**MSc Seicoleg Defnyddwyr**

# Gwell cyflogadwyedd.

18 84

Byddwn yn eich cyflwyno i gyflogwyr a chyfleoedd trwy ein porth cyflogwyr, sydd o'r radd flaenaf, a byddwn hefyd yn rhoi'r hyder a'r sgiliau i chi lwyddo pan fyddwch yn cyfarfod â hwy.

Byddwn yn eich helpu gyda'ch CV, yn rhoi cefnogaeth un i un i chi a ffordd hawdd o drefnu apwyntiad i gael sgwrs gyda ni os oes angen help arnoch i ddatblygu eich gyrfa.

Byddwch hyd yn oed yn cael cyfle i gwrdd â chyflogwyr a graddedigion diweddar yn ystod ein gŵyl yrfaoedd flynyddol.

Yn anad dim, rydym yn deall y gall byd gwaith ar ôl graddio fod yn frawychus a byddwn yno i'ch tywys ar hyd y llwybr - mae hyn yn cynnwys eich cefnogi ar ôl i chi raddio am hyd at dair blynedd.

**Dyma rai o 'r adnoddau a'r gwasanaethau sydd ar gael:**

- Rhaglen trwy gydol y flwyddyn o arweiniad unigol, gweithdai a sgyrsiau gan gyflogwyr
- Cymorth i ddod o hyd i gyfleoedd gwaith rhan-amser
- Cynllun interniaeth â thâl yn adrannau academaidd a gwasanaethau'r Brifysgol
- Cewch wybod am gyfleoedd profiad gwaith, yn cynnwys lleoliadau ac interniaethau
- Chwilio am swyddi ar ôl graddio
- Y Cynllun Arweinwyr Cyfoed - a fydd yn eich helpu i ddatblygu sgiliau rhyngbersonol a threfniadol y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi
- Byddwch Fentrus - rhaglen i ddatblygu eich sgiliau menter ac entrepreneuriaeth
- Gwobr Cyflogadwyedd Bangor, sydd ar agor i bob myfyriwr, ac sy'n eich tywys trwy'r holl gamau angenrheidiol i chwilio, paratoi a gwneud cais am swydd trwy dasgau a gweithdai rhyngweithiol ar-lein ac wyneb yn wyneb
- Cefnogaeth wrth chwilio am waith a datblygu eich gyrfa am hyd at dair blynedd ar ôl i chi orffen eich cwrs.

## 1af

Cyfrifiadureg
Gwyddorau Meddygol
Astudiaethau Celtaidd
Economeg

## Yn y 5 uchaf

Addysg a Dysgu

## Yn yr 20 uchaf

Astudiaethau Saesneg

## 2il

Athroniaeth a Chrefydd

## Yn y 10 uchaf

Amaethyddiaeth, Bwyd a chyrsiau cysylltiedig
Newyddiaduriaeth, Astudiaethau'r Cyfryngau a Chyfathrebu
Seicoleg / Swyddi Iechyd / Peirianneg
Busnes a Rheolaeth

## Yn y 25 uchaf

Hanes ac Archaeoleg

**Graddedigion mewn swydd barhaus a/neu'n parhau ag astudiaeth bellach (yn y Canlyniadau Addysg Hydredol diweddaraf (LEO) 2018/19)**



# Dysgu gydol oes.

18 84



**Efallai eich bod yn dychwelyd i astudio er mwyn newid gyrfa neu a ydych yn ceisio cydbwyso astudio a gofalu am deulu?**

Rydym yn deall ei bod yn bosib bod gennych ymrwymiadau a chyfrifoldebau eraill; y gall y ffordd rydych yn trin bywyd prifysgol, yn academaidd ac yn gymdeithasol, fod yn wahanol; y bydd gennych fwy o brofiad yn y 'byd go iawn', ac wedi dilyn trywydd gwahanol at addysg uwch.

Rydym yn cynnig ystod o wasanaethau cefnogi, gan gynnwys ymgynghorydd penodol i fyfyrwyr hŷn, i'ch cefnogi yn eich astudiaethau prifysgol.



# Lle cartrefol braf.



**Mae dros 2,500 o fyfyrwyr rhyngwladol o 120 o wledydd yn dewis astudio ym Mhrifysgol Bangor, sef dros 20% o gyfanswm ein myfyrwyr. Byddwch yn dod yn rhan o gymuned wirioneddol ryngwladol, fydd yn caniatáu i chi wneud yn fawr o'ch amser yn astudio gyda ni.**

Ein nod yw gwneud i chi deimlo'n gartrefol, o'ch casglu o'r maes awyr pan fyddwch yn cyrraedd, i'n llysgenhadon myfyrwyr rhyngwladol sy'n cynnal digwyddiadau i chi trwy gydol eich astudiaethau. Rydym hefyd yn gwarantu lle mewn neuadd breswyl i bob myfyriwr blwyddyn gyntaf sy'n gwneud cais erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig.

### Eich cefnogi chi

Rydym yn ymfalchïo mewn cefnogi ein myfyrwyr bob cam o'r ffordd ac mae gennym amrywiaeth o ddulliau cefnogaeth ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys ein Tîm Cefnogi Myfyrwyr Rhyngwladol, a all ddarparu amrywiaeth fawr o gyngor ar fyw ac astudio yn y Deyrnas Unedig, ar faterion yn cynnwys rheoliadau cyflogaeth, materion lles, byw ym Mangor, gofal iechyd, mewnfudo a cheisiadau fisa.

Myfyrwyr cyfredol yw'r arweinwyr cyfoed a'r llysgenhadon myfyrwyr sydd wedi eu hyfforddi i'ch helpu chi trwy gydol eich astudiaethau. Ceir hefyd nifer o gymdeithasau rhyngwladol sy'n cael eu rhedeg gan Undeb y Myfyrwyr, Undeb Bangor, i chi gymryd rhan ynddynt. Bydd cymryd rhan yn eich helpu i wneud ffrindiau newydd ac adeiladu'r rhwydwaith cefnogi sydd ei angen arnoch i ffynnu.

### Ysgoloriaethau a Chyllid

Mae gennym amrywiaeth o ysgoloriaethau ar gael i'n myfyrwyr rhyngwladol sy'n talu am eu hastudiaethau eu hunain, ac mae Bangor yn cael ei ystyried yn un o'r lleoedd rhataf i astudio yn y Deyrnas Unedig.

### Sgiliau Iaith

Os nad oes gennych y lefel iaith Saesneg ofynnol i astudio ar gwrs israddedig, gallwch gofrestru ar gwrs Saesneg cyn-sesiynol ym Mangor. Bydd hyd y cwrs yn dibynnu ar y sgôr IELTS (neu gyfwerth) sydd gennych ar hyn o bryd.

# Cefnogaeth ariannol.

**Dylai eich amser yn y brifysgol fod yn bleserus ac yn werth chweil, felly mae'n bwysig nad yw pryderon ariannol di-angen yn difetha eich amser yma.**

Nod Prifysgol Bangor yw darparu gwybodaeth a chefnogaeth i fyfyrwyr i sicrhau y byddant yn gallu gwneud yn fawr o'u profiad yn y brifysgol.

Mae'r Uned Cefnogaeth Ariannol yn rhan o'r Tîm Cefnogi Myfyrwyr ac mae yno staff profiadol a all roi cyngor, gwybodaeth ac arweiniad ar bob agwedd ar gyllid myfyrwyr, yn cynnwys cyllidebu, cyllido cyrsiau, cronfeydd caledi, bwrsariaethau ac ysgoloriaethau a chefnogaeth i fyfyrwyr sy'n ofalwyr.



Gallwch ddarganfod mwy am y gefnogaeth ariannol sydd ar gael trwy ymweld â: **bangor.ac.uk/cy/cyllidmyfyrwyr**





# Bwrsariaethau ac ysgoloriaethau.

**Rydym yn rhoi pwyslais mawr ar gefnogi myfyrwyr, ac mae'r brifysgol yn awyddus i gynnig cefnogaeth ychwanegol i chi lle bo hynny'n bosib. Mae gennym nifer o fwrsariaethau ac ysgoloriaethau sydd wedi'u cynllunio i'ch helpu i gynnal eich hun yn ariannol trwy gydol eich astudiaethau.**

Mae nifer o ddyfarniadau eraill ar gael gan y Brifysgol i rai grwpiau cymwys, megis myfyrwyr sy'n dod o gefndiroedd difreintiedig yn ariannol, y rhai ohonoch sy'n rhagori yn academaidd / mewn chwaraeon neu'r rhai sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Am ragor o wybodaeth am y bwrsariaethau a'r ysgoloriaethau a sut i wneud cais ewch i: **bangor.ac.uk/ysgoloriaethau**

# Eich cais.



**I wneud cais am le ar gwrs, ewch i UCAS.com a dilynwch y camau syml sydd yno.**



Byddwn yn ystyried eich cais ar ôl i chi ei gyflwyno. Os byddwch yn cael cynnig i astudio gyda ni, byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am gyfleoedd i chi ddysgu mwy am y cwrs a beth i'w ddisgwyl pan fyddwch yn ymuno â ni. Bydd hyn yn cynnwys gwahoddiad i ddod i un o'n diwrnodau i ymgeiswyr. Os na allwch ddod i unrhyw un o'r digwyddiadau hyn, mae digon o gyfleoedd i fynd i ddiwrnodau agored rhithiol ac ar-lein, yn ogystal ag ymweliadau preifat.







# Ein cyfleusterau.





## Llyfrgelloedd

Mae gennym bedair llyfrgell, rhai ohonynt yn agored 24 awr y dydd, sy'n cynnig amrywiaeth o amgylcheddau astudio braf, gan gynnwys mannau gweithio cydweithredol, ystafelloedd cyfarfod a mannau tawel i astudio. Maent yn cynnwys casgliad helaeth o lyfrau a chyfnodolion, casgliad llawysgrifau, a chatalog ar y we i gael mynediad at e-lyfrau, cyfnodolion a chanllawiau pwnc.

## Archifau a Chasgliadau Arbennig

Mae gennym un o'r archifau prifysgol mwyaf nid yn unig yng Nghymru ond drwy'r Deyrnas Unedig. Mae ein casgliadau arbennig yn cynnwys casgliadau prin o ddeunydd di-brint a phrintiedig.

# 'Mae gennym un o'r archifau prifysgol mwyaf nid yn unig yng Nghymru ond drwy'r Deyrnas Unedig.'



**Simone Barbaresi,**
**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol**

# #Cyfleusterau







#1
**Y Brifysgol Orau am Wi-Fi.**
(Gwobrau Prifysgol Student Crowd 2021)

### Gwasanaethau Digidol
Mae gennym dros 1150 o gyfrifiaduron ar gael at eich defnydd chi, gyda llawer o'r ystafelloedd cyfrifiadura ar agor 24 awr y dydd.

### Wi-Fi
Mae wi-fi ar gael ar draws y campws ac ym mhob neuadd breswyl, ac mae'n hawdd iawn cysylltu â'r rhwydwaith.

### Mannau Dysgu Cymdeithasol
Ceir mannau dysgu cymdeithasol ar draws y campws, sy'n cynnwys wi-fi am ddim i'n myfyrwyr. Mae'r mannau hyn yn berffaith i wneud gwaith grŵp a dal i fyny â gwaith rhwng darlithoedd.

### Darlithfeydd o'r radd flaenaf
Mae ein darlithfeydd wedi eu lleoli ar draws y campws. Mae gennym hefyd ystafelloedd seminar i ddysgu grwpiau bach.



18 84



# Labordai.

**Mae labordai ymchwil arbenigol o'r radd flaenaf a labordai dysgu ymarferol yn darparu lleoedd modern ac offer digonol i ymchwilio a dysgu.**



# Adnoddau pynciol.





**Fel prifysgol sy'n darparu cefnogaeth gadarn i weithgareddau ymchwil, mae gan Bangor nifer o adnoddau arbenigol sy'n gysylltiedig â phynciau penodol, gan gynnwys:**

**Canolfan yr Amgylchedd Cymru**
Dyma lle mae ein hacademyddion blaengar yn gwneud ymchwil amgylcheddol i ddod o hyd i atebion lleol a chynaliadwy i broblemau amgylcheddol, megis llygredd a llifogydd.

Mae'n bartneriaeth rhwng y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg a Phrifysgol Bangor, sy'n dwyn gwyddonwyr amgylcheddol a myfyrwyr ynghyd, y mae eu gwybodaeth a'u profiad yn croesi ffiniau academaidd traddodiadol. Mae'r adeilad ei hun wedi ei adeiladu'n bwrpasol ac mae'n gyfeillgar i'r amgylchedd, ac yn cynnwys sawl agwedd ar adeiladu amgylcheddol a chynaliadwy, yn cynnwys defnyddio deunyddiau o ffynonellau lleol megis derw a llechi Cymreig.







### Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer

Mae'r adnoddau Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer yn cynnwys y Ganolfan Gweithgareddau Corfforol ar gyfer Iechyd a Lles (Canolfan PAWB) sy'n cynnwys labordy dysgu mawr a dau labordy ffisioleg ymarfer corff. Ymhlith y cyfleusterau eraill mae dau labordy ffisioleg ymchwil gyda siambrau amgylcheddol ac uchder mawr; sganiwr amsugnofetreg pelydr-x ynni deuol (DEXA); labordy trochiad dŵr; ystafelloedd arbrofol seicoechddygol a labordy dadansoddi symudiad 3D; labordai i brofion seicoleg, a mwy.




**Ein llong ein hunain**
Er mwyn hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o wyddonwyr môr, mae'r Prince Madog yn llong ymchwil pwrpasol sy'n galluogi gwyddonwyr môr i astudio bioleg, cemeg, daeareg a ffiseg ein moroedd.



### Yr Amgueddfa Hanes Naturiol

Dechreuodd y casgliad sŵoleg fel adnodd addysgu ac mae'n parhau i gael ei ddefnyddio at y diben hwnnw heddiw. Mae'n cynnwys oddeutu 40,000 o eitemau, ac mae tua 500 ohonynt i'w gweld yn Amgueddfa Hanes Naturiol y Brifysgol.

Mae'r amgueddfa, sydd wedi ei lleoli yn Adeilad Brambell, yn cadw ac yn arddangos amrywiaeth helaeth o sgerbydau, penglogau, tacsidermeg, cyrn, wyau a sbesimenau wedi eu cadw mewn jariau gwirod.





### Ystafell lân microgynhyrchu

Ni yw un o'r ychydig brifysgolion yn y Deyrnas Unedig sy'n cynnig cyfle i fyfyrwyr dreulio amser yn cynhyrchu dyfeisiau mewn amgylchedd ystafell lân fel rhan o gyfleusterau'r Ysgol Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig. Mae'r ystafell lân ym Mangor yn gyfleuster 'Class 1000' sydd wedi ei hadeiladu o amgylch ffotolithograffeg ac mae ganddi'r gallu i gynhyrchu dyfeisiau i gydraniad 1 micron.









**Mae Prifysgol Bangor wedi bod yn creu cerddoriaeth ers dros gan mlynedd. Roedd 2021-22 yn ganmlwyddiant penodi Evan Thomas Davies yn gyfarwyddwr cerdd llawn amser cyntaf y Brifysgol. Dathlodd y brifysgol gyda llu o ddigwyddiadau cerddorol i dynnu sylw at amrywiaeth y gerddoriaeth a glywyd yma ers dros ganrif.**

### Adnoddau Cerddoriaeth a Theatr

Mae'r adnoddau cerddoriaeth pwrpasol yn cynnwys dwy neuadd gyngerdd broffesiynol, neuadd berfformio, ystafell ymarfer gwrthsain, chwe phiano cyngerdd Steinway, a phedair stiwdio electroacwstig gyda chyfarpar o safon rhyngwladol i gyfansoddi, ymchwilio a recordio. Mae ein gwaith theatr a pherfformio yn elwa o fannau perfformio cyhoeddus mawr, gyda chyfarpar proffesiynol, ac offer goleuo a thechnegol llawn, a lleoedd stiwdio i ymarfer a pherfformio.

cerddoriaeth
music
100
Prifysgol BANGOR University

# #Cyfleusterau







### Cyfryngau

Mae gan fyfyrwyr fynediad at amrywiaeth o offer cynhyrchu sinema ddigidol o'r safon uchaf, y gallent ei fenthyca i ffilmio ar y campws neu oddi ar y campws. Mae ein prif ganolfan gynhyrchu yn cynnwys adnoddau o safon diwydiant, gan gynnwys stiwdio radio gydag offer proffesiynol, ystafelloedd golygu sain, ystafelloedd golygu fideo digidol sy'n defnyddio amrywiaeth o becynnau meddalwedd proffesiynol. Mae'r rhain wedi eu lleoli ger ystafelloedd dysgu pwrpasol, mannau cydweithredu ac awditoriwm. Mae canolfan y celfyddydau ac arloesi newydd, Pontio, yn cynnwys sinema 200 sedd gyda system sain amgylchynol Dolby.

### Ieithoedd Modern

Mae ein myfyrwyr yn elwa ar amrywiaeth o adnoddau pwrpasol gan gynnwys ein canolfan iaith, ystafelloedd adnoddau iaith, llyfrgell ffilm a meddalwedd arbenigol. Oherwydd bod dysgu iaith yn ymwneud â chyfathrebu, anogir myfyrwyr hefyd i ymarfer eu sgiliau iaith y tu allan i'r ystafell ddosbarth trwy gymryd rhan yn ein cymdeithas myfyrwyr, LangSoc a thrwy fanteisio ar fentrau fel ein cynllun Cyfaill Iaith a'n project mentora gydag ysgolion lleol.



### Ieithyddiaeth

Mae ein myfyrwyr yn elwa o gyfleusterau dysgu o'r radd flaenaf gan gynnwys stiwdio sain / recordio o safon broffesiynol (ein labordy lleferydd), labordy tracio llygaid, a labordy potensial digwyddiad -berthynol (ERP) a chyfleuster adnoddau ieithyddiaeth corpws. Mae gennym hefyd offer sain a fideo at waith maes.

18 84



# Gardd Fotaneg Treborth.

**Mae Gardd Fotaneg Treborth ar gyrion y Fenai mewn 45 erw o goetir hynafol a thiroedd wedi eu tirlunio. Mae'n ardd fotaneg o fri rhyngwladol sy'n ffurfio rhan annatod o weledigaeth y Brifysgol i sicrhau byd mwy cynaliadwy, yn enwedig mewn perthynas â diogelu'r amgylchedd a hybu ffyniant economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.**

Mae'r ardd fotaneg yn cynnwys saith tŷ gwydr, tŷ trofannol mawr wedi ei dirlunio, labordy gwreiddiau tanddaearol mwyaf Ewrop, perllannau, gardd goed a chasgliadau cadwraeth byd-eang.



Mae mynediad i'r gerddi allanol am ddim i'r cyhoedd bob amser, felly mae'n lle perffaith i ymlacio ac edrych ar natur. Efallai y byddwch hyd yn oed yn cael cipolwg ar un o'r gwiwerod coch brodorol, sy'n bridio ac yn ffynnu yn yr ardd.

Ceir hefyd lawer o gyfleoedd gwirfoddoli, interniaethau â thâl a lleoliadau yn Nhreborth, sy'n ffordd wych o ddysgu mwy am blanhigion a'r amgylchedd naturiol.









18 84





**Canolfan Ymchwil Henfaes yw adnodd maes yr Ysgol Gwyddorau Naturiol, sydd â chysylltiadau cryf â ffermwyr lleol gydag adran benodol i ymchwil ac addysg ym meysydd amaeth-goedwigaeth, cnydau a da byw ac ardal arddangos coedwigaeth.**

Mae'n 252 hectar o faint, ac mae'n cynnig cyfleoedd heb eu hail i astudio amgylcheddau amrywiol o lefel y môr i dir sydd gyda'r uchaf yn Eryri, ar un fferm.

Mae'r Ganolfan Rheolaeth Bryndir ac Ucheldir (CHUM) wedi ei lleoli yn Henfaes, a chaiff ei rheoli fel uned ddefaid fasnachol gyda 1,650 o famogiaid, gwartheg a merlod mynydd Cymreig pedigri Adran A. Ceir hefyd alpacas a defaid brîd prin, y gall myfyrwyr Sŵoleg ac Ymddygiad Anifeiliaid fwynhau eu hastudio.



# Canolfan Ymchwil Henfaes.



## Parc Gwyddoniaeth Menai

# M-SParc



Llun: Richard Chivers



**Mae M-SParc yn rhan o Brifysgol Bangor, a dim ond taith fer ydyw yno o Fangor mewn car, bws neu ar feic, ac mae'n gweithio'n ddiflino i helpu cwmnïau i dyfu, ffynnu, a chreu gyrfaoedd a chyfleoedd cyffrous gyda chyflog da yn y sectorau gwyddoniaeth a thechnoleg. I fyfyrwyr mentrus, mae'n darparu cefnogaeth a lle i ddatblygu mentrau newydd.**

**Lleoliadau gwaith**
Mae cwmnïau tenantiaid M-SParc bob amser eisiau ysbrydoli a meithrin talent y dyfodol, gan weithio'n agos gyda Phrifysgol Bangor i gynnig lleoliadau gwaith, prentisiaethau gradd ac interniaethau mewn amrywiol sectorau, gan roi arweiniad i'ch galluogi i fanteisio ar y gyrfaoedd â chyflog da sydd ar gael yn y sector.



# 'Mae'r digwyddiadau ar agor i bawb ddysgu mwy am wyddoniaeth, technoleg a busnesau. Rydym yn annog myfyrwyr Prifysgol Bangor i ymuno â ni a bod yn rhan o'n cymuned.'

**Emily Roberts**
**Rheolwr Gweithrediadau a Phrofiad Cwsmeriaid, M-SParc**

Llun: Richard Chivers



## Academi Sgiliau
Yn ddiweddar, sefydlodd M-SParc yr Academi Sgiliau i gynnig cyfle i fyfyrwyr ennill profiad gwaith hanfodol, fel eich bod yn fwy parod i ymgeisio am eich swydd ddelfrydol.

## Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig
Mae M-SParc a chwmnïau tenantiaid yn cymryd rhan yn arddangosfa diwedd blwyddyn yr Ysgol Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig, sy'n cynnig cyfle gwych i chi gwrdd â phobl ddylanwadol yn y diwydiant.

## Digwyddiadau
Mae M-SParc yn enwog am gynnal digwyddiadau o'r radd flaenaf, yn gynadleddau ynni rhyngwladol, dosbarthiadau meistr ar eiddo deallusol a gweithdai Instagram i fusnesau. Mae croeso i fyfyrwyr fynd i'r digwyddiadau hyn, sy'n cynnig cyfle i chi ddysgu, meithrin rhwydweithiau a datblygu sgiliau amhrisiadwy.



## Swyddfeydd
Trwy Byddwch Fentrus ym Mangor, gall M-SParc gynnig lle mewn swyddfa i chi, wedi ei gyllido'n llawn gan Santander Universities. Mae lle mewn swyddfa wedi ei rhannu yn caniatáu i fyfyrwyr sefydlu eu busnes eu hunain, gyda'r holl fanteision o fod yn M-SParc, yn cynnwys cefnogaeth busnes, cydweithredu, a'r cyfle i fod yn rhan o gymuned wych.

## Y baned a'r deisen orau!
Mae M-SParc yn gartref i Gaffi Tanio, felly gallwch weithio ar eich gliniadur mewn lle sy'n debyg i siop goffi, ac astudio a rhwydweithio ymhlith llawer o'r bobl ddylanwadol ym maes arloesi yn y rhanbarth.





# Bywyd a hamdden.

# Campws Bangor.

**£67 mil**
**tuag at osod offer campfa awyr agored newydd.**

**Dros y 10 mlynedd nesaf byddwn yn buddsoddi mwy na £250m yn ein campws, gyda buddsoddiadau diweddar yn cynnwys gosod cyfleusterau campfa awyr agored newydd ac adnewyddu ein gofod cymdeithasol myfyrwyr poblogaidd, Bar Uno.**

Rhwng y mynyddoedd a'r môr, mae ein campws ym Mangor wedi'i amgylchynu gan dirweddau naturiol syfrdanol. Yn wir, bu i'r llyfr teithio Lonely Planet enwi Gogledd Cymru yn un o'r rhanbarthau gorau yn y byd i ymweld ag ef.

Yng nghanol Bangor fe welwch amrywiaeth eang o archfarchnadoedd, siopau bwyd, siopau cadwyn stryd fawr, caffis, bariau a bwytai.

Mae'r rhan fwyaf o adeiladau a neuaddau'r Brifysgol o fewn pellter cerdded i ganol y ddinas, gan gynnwys ein pentrefi llety myfyrwyr o fri, sef Ffriddoedd a'r Santes Fair.

Mae Ynys Môn ar draws y Fenai o Fangor, ac mae'n un o'r cyrchfannau mwyaf poblogaidd yng Ngogledd Cymru, gyda llawer o draethau rhagorol a milltiroedd o arfordir hardd. Tref Porthaethwy, ar Ynys Môn, yw lleoliad ein Hysgol Gwyddorau Eigion, ac o fewn pellter cerdded i Fangor Uchaf.



**£750 mil**
**tuag at adnewyddu Bar Uno a Hwb newydd ar gyfer Gweithgareddau Clybiau a Chymdeithasau.**

# Campws Wrecsam.



**Mae Campws Wrecsam Prifysgol Bangor yn cynnig nifer o bynciau academaidd.**

Un enghraifft yw'r rhaglen Radiograffeg BSc (Anrh.) sy'n cael ei chyflwyno yno. O ran rhaglenni iechyd eraill, mae gan fyfyrwyr Bangor (sy'n dilyn darlithoedd a sesiynau ymarferol ar ein campws ym Mangor) hefyd fynediad i'r labordy sgiliau yn Wrecsam a chyfleusterau eraill ar y safle gan gynnwys llyfrgell bwrpasol gyda staff pwnc-benodol cymwynasgar. Mae gan y campws yn Wrecsam gyfleusterau rhagorol, ac mae'r staff gwasanaethau academaidd, gweinyddol a phroffesiynol profiadol yno o amrywiaeth eang o gefndiroedd.

Mae'r campws yn daith gerdded deg munud o ganol tref Wrecsam ac mae'n ddewis delfrydol i fyfyrwyr sy'n dymuno cael y profiad o fyw mewn tref groesawgar, gyda sawl parc, oriel ac amgueddfa, cyfleoedd siopa gwych, ynghyd â dewis o ddigonedd o gaffis, bariau a bwytai. O fewn hanner awr o daith gallwch grwydro bryniau Clwyd, darganfod treftadaeth ganoloesol gyfoethog Caer neu ymweld â nifer o safleoedd hanesyddol gan gynnwys Traphont Ddŵr Pontcysyllte, Abaty Glyn y Groes a Phlas Erddig.

## Gofal Iechyd Rhithrealiti

Mae Campws Wrecsam yn arwain y ffordd o ran meddalwedd arloesol, gan ddefnyddio pensetiau rhithrealiti chwyldroadol a graffeg gemau fideo i hyfforddi radiograffwyr diagnostig.

Ni yw'r cyntaf yn y Deyrnas Unedig i ddefnyddio'r system newydd hon, sy'n galluogi myfyrwyr i ddysgu sgiliau pelydr-X heb y risg o'u hamlygu i belydrau gama niweidiol sy'n achosi canser.



Mae'r system feddalwedd £15,000 yn golygu y gall radiograffwyr y dyfodol ddysgu'n gyflymach ac yn haws, gan helpu i leihau'r prinder cronig o weithredwyr pelydr-X medrus yn y GIG.

# Mynd o amgylch Bangor.



- Meddyg
- Sinema
- Archfarchnad
- Campfa
- Prydau Parod
- Siopa
- Caffi

1. Prif Adeilad y Brifysgol:
   – Neuadd Prichard-Jones
   – Neuadd Powis
2. Adeilad Cerddoriaeth
3. Pontio
4. Neuadd JP
5. Adeilad Brigantia
6. Neuadd Hugh Owen
7. Adeilad Brambell

**£320 mil**
**tuag at ail-wynebu Trac Athletau Treborth.**

**£100 mil**
**tuag at ddatblygu Lab Sgiliau Rhyngbroffesiynol.**




PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY



18 84

# Eich cartref ym Mangor.



**Mae byw mewn neuadd breswyl yn gyflwyniad gwych i fywyd prifysgol, ac ym Mangor rydym yn gwarantu ystafell mewn neuadd breswyl i bob myfyriwr blwyddyn gyntaf*.**



Mae'r holl lety yn rhai hunanarlwyo ac mae'r rhan fwyaf o'n hystafelloedd yn rhai en-suite.

Y peth gwych am Fangor yw bod ein dau bentref myfyrwyr o fewn pellter cerdded i adeiladau'r Brifysgol, sy'n golygu mynediad hawdd i chi i'r darlithfeydd a'r llyfrgelloedd.

Am dawelwch meddwl pellach, mae gan y neuaddau preswyl Uwch Wardeiniaid a thîm mawr o fentoriaid sy'n fyfyrwyr a all eich cynorthwyo. Mae yna hefyd Staff Diogelwch sydd ar alwad 24 awr y dydd.

Mae'r myfyrwyr sy'n byw yn neuaddau preswyl y Brifysgol ym Mangor yn derbyn aelodaeth o'r gampfa a Champws Byw fel rhan o ffi'r neuaddau preswyl. Datblygwyd rhaglen Campws Byw i'ch helpu i gael y gorau o'ch amser mewn neuaddau preswyl, ac mae yna raglen amrywiol o ddigwyddiadau, sy'n amrywio o ioga, nosweithiau ffilm, partïon pizza, mynydda a chaiacio ynghyd â gweithdai sgiliau bywyd.

Mae ffioedd y neuaddau preswyl yn cynnwys yr holl filiau rhyngrwyd, gwres, trydan, dŵr poeth, aelodaeth Campws Byw, aelodaeth y gampfa ac yswiriant cynnwys sylfaenol.

***Am fanylion llawn ein gwarant Neuaddau Preswyl ewch i bangor.ac.uk/sicrwyddllety**

# Llety.








## Neuadd JMJ

Neuadd John Morris Jones yw cartref y rhan fwyaf o'r myfyrwyr Cymraeg a'r rhai sy'n dysgu'r iaith. Dyma ganolbwynt y bywyd cymdeithasol Cymraeg ac mae'n cynnig cymuned glòs a chyfeillgar i fyfyrwyr o bob cwr o Gymru.

Mae Neuadd John Morris Jones (neu JMJ i'r rhai sy'n byw yno) wedi ei lleoli mewn adeiladau modern ym mhentref Ffriddoedd. Mae'r ystafelloedd yn rhai en-suite, gyda chyfleusterau cegin yn cael eu rhannu.

Ceir bywyd cymdeithasol bywiog yn Neuadd JMJ. Caiff y gweithgareddau eu trefnu gan y myfyrwyr ac UMCB (Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor) ac maent yn cynnwys tripiau rygbi, gweithgareddau rhyng-golegol a thaith flynyddol i'r Iwerddon.

## Pentref Myfyrwyr y Santes Fair

Mae safle'r Santes Fair mewn lleoliad delfrydol nid nepell o ganol dinas Bangor a siopau'r stryd fawr. Mae'n bentref myfyrwyr gyda 600 o ystafelloedd, gan gynnwys ystafelloedd en-suite, fflatiau stiwdio a thai.

## Pentref Myfyrwyr Ffriddoedd

Ym Mangor Uchaf mae'r safle neuaddau preswyl mwyaf, tua 10 munud o waith cerdded o ganol y campws, adeiladau'r gwyddorau a chanol y dref. Mae'r safle hefyd yn cynnwys bar-caffi Bar Uno, sy'n gweini prydau bwyd a diodydd, ac mae llawr uchaf Bar Uno yn gartref i ganolfan weithgareddau i nifer o glybiau a chymdeithasau Undeb y Myfyrwyr. Mae Canolfan Brailsford, y ganolfan chwaraeon a hamdden, hefyd ar y safle hwn.





**Neuadd yr Wyddfa (Wrecsam)**
Mae nifer cyfyngedig o leoedd llety ar gael ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio ar ein campws yn Wrecsam. Yn anffodus, oherwydd y nifer cyfyngedig o ystafelloedd, ni allwn warantu lle mewn llety ar ein campws i fyfyrwyr Wrecsam.

Bydd ymgeiswyr a nododd Bangor yn ddewis pendant yn derbyn e-bost gennym. Unwaith y byddwch wedi derbyn yr e-bost, gallwch wneud cais ar-lein. **bangor.ac.uk/llety**



**#1**
**Y lle mwyaf fforddiadwy yn y Deyrnas Unedig i fod yn fyfyriwr.**
(TotallyMoney, 2019)






IS A













# Bywyd ym Mangor.

## Bywyd Cymdeithasol ym Mangor.

**Os gofynnwch i fyfyriwr beth maent yn ei garu am Fangor, un o'r atebion mwyaf poblogaidd yw'r gymuned agos a chroesawgar. Wrth gerdded i lawr y stryd byddwch yn siŵr o daro ar rywun y byddwch yn ei nabod! Yn ystod adeg tymor, mae'r myfyrwyr yn cyfrif am oddeutu 43% o boblogaeth Bangor. Bod mewn cylch clos o ffrindiau sy'n gwneud Bangor yn lle mor arbennig i astudio a chymdeithasu, ac mae maint y dref a'i natur gyfeillgar yn golygu bod ein myfyrwyr yn ymgartrefu yma'n gyflym.**

Bydd llawer o'ch bywyd cymdeithasol yn y Brifysgol yn ymwneud ag Undeb y Myfyrwyr, sy'n cynnig gwasanaethau, cefnogaeth, gweithgareddau ac adloniant i fyfyrwyr.



# Bwyta, yfed a siopa.

**Academi yw clwb nos swyddogol y myfyrwyr ac mae'n ganolbwynt i adloniant gyda'r hwyr a chymdeithasu'n gyffredinol.**

Mae mynediad am ddim i fyfyrwyr sy'n byw yn neuaddau preswyl y Brifysgol ac mae cynigion arbennig wrth y bar. Mae'n lle gwych i gwrdd a chymdeithasu gyda ffrindiau. Yn ogystal â'r clwb, mae gan Academi ddau far, caffi a siop.



Mae Bar Uno, ym mhentref myfyrwyr Ffriddoedd, a Barlow's ym mhentref myfyrwyr y Santes Fair, yn lleoliadau poblogaidd eraill i fyfyrwyr ac yn gweini bwyd, diod a choffi Starbucks. Felly p'un a ydych chi am gymdeithasu â ffrindiau, gwylio chwaraeon ar sgrin fawr neu ddod o hyd i gornel fach i astudio - mae digon o le i bawb.

Mae cymdeithasau myfyrwyr hefyd yn cael y cyfle i berfformio yn Pontio, gyda chefnogaeth broffesiynol lawn gan y tîm.





# Pontio.





**Mae canolfan gelfyddydau ac arloesi Pontio yn adeilad pwysig sy'n cysylltu Prifysgol Bangor a'r gymuned o'i chwmpas. Yn ogystal â bod yn gartref i Undeb y Myfyrwyr, mae Pontio hefyd yn cynnwys sinema, theatr, darlithfeydd a llefydd i fwyta.**

Mae Pontio yn cyflwyno'r gorau o fyd y celfyddydau a diwylliant, yn lleol ac yn rhyngwladol, gan gynnwys ffilm, drama, cerddoriaeth, dawns, a syrcas gyfoes, yn y Theatr Stiwdio ac yn Theatr Bryn Terfel.

Mae'r sinema yn Pontio yn cynnig y tocynnau sinema mwyaf fforddiadwy i fyfyrwyr yn yr ardal, a gellir addasu Theatr Bryn Terfel i gyflwyno amrywiaeth eang o ddigwyddiadau, yn cynnwys gigs cerddoriaeth, sioeau syrcas, dramâu, cerddorfeydd, comedi a llawer mwy, gyda gostyngiadau'n cael eu cynnig i fyfyrwyr i nifer o'r sioeau.

Ceir perfformiadau hefyd ym mannau cyhoeddus Pontio, ynghyd â gofod arddangos celf, lle arddangosir gweithiau gan artistiaid sy'n cydweithio ag ysgolion, myfyrwyr a'r gymuned.

Mae cymdeithasau myfyrwyr hefyd yn cael y cyfle i berfformio yn Pontio, gyda chefnogaeth broffesiynol lawn gan y tîm.



# Undeb y Myfyrwyr.





**Undeb y Myfyrwyr, Undeb Bangor, yw llais y myfyrwyr a chanolbwynt bywyd myfyrwyr Bangor.**

Mae'n cynnig ystod eang o gefnogaeth, arweiniad a chyfleoedd, yn cynnwys clybiau chwaraeon, cymdeithasau, projectau gwirfoddoli, UMCB (Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor), Cynrychiolwyr Cwrs a Chyngor y Myfyrwyr.

Ceir nifer helaeth iawn o gyfleoedd, boed hynny i ddilyn diddordebau newydd trwy ymuno ag un o'r amryfal glybiau a chymdeithasau rhad ac am ddim, i wella'ch cyflogadwyedd neu i wneud gwahaniaeth i'r gymuned.



Bydd Undeb Bangor bob amser yno i wrando arnoch ac i'ch cefnogi, gyda thîm o Swyddogion Sabothol etholedig ymroddedig sy'n gweithio i sicrhau bod eich llais yn cael ei glywed.

Enillodd Undeb Bangor wobr 'Ragoriaeth' unwaith eto yng ngwobrau Effaith Werdd 2020/21. Mae ennill y wobr hon yn dangos bod cynaliadwyedd wedi'i wreiddio'n ddwfn yng ngweithgareddau Undeb Bangor ac yn cael ei hyrwyddo gan arweinwyr y myfyrwyr.



**'Mae clybiau a chymdeithasau Prifysgol Bangor yn rhyfeddol! Mae gallu gwneud yr holl weithgareddau difyr yma a mynd i gymaint o ddigwyddiadau cymdeithasol yn gwneud eich amser yma ym Mangor yn wirioneddol gyffrous!'**

**Akshata Galgali**
**Yn astudio: Y Gyfraith**

# Clybiau a chymdeithasau rhad ac am ddim.



**Mae amrywiaeth eang o glybiau a chymdeithasau rhagorol yn cael eu rhedeg gan Undeb y Myfyrwyr; a dweud y gwir mae dros 200 o wahanol rai y gallwch roi cynnig arnynt ac maent i gyd YN RHAD AC AM DDIM! Mae hyn yn golygu y gallwch ymaelodi â chynifer ag y mynnwch, felly mae hi'n hawdd meithrin diddordebau newydd a gwneud ffrindiau newydd.**

Yn ystod yr Wythnos Groeso cewch gyfle i fynychu Ffair yr Wythnos Groeso. Bydd yr holl glybiau, cymdeithasau a phrojectau gwirfoddoli yno, felly galwch heibio eu stondinau i ddysgu mwy a chofrestru am sesiynau blasu, sydd i gyd am ddim.

P'un a yw hynny'n rhywbeth rydych yn ymddiddori ynddo erioed neu'n gamp neu weithgaredd rydych yn awyddus i roi cynnig arno am y tro cyntaf, mae yna hen ddigon i'ch cadw chi'n brysur yn ystod eich amser hamdden ym Mangor.



### Clybiau Chwaraeon

P'un a oes gennych ddiddordeb mewn chwaraeon traddodiadol fel rygbi, pêl-rwyd neu bêl-droed; gweithgareddau awyr agored fel syrffio, canŵio neu badlfyrddio; neu rywbeth hollol wahanol fel hoci tanddwr (Octopush) neu Quidditch - mae yna glwb ar eich cyfer ym Mangor!

### Cymdeithasau

Mae cymdeithasau Undeb y Myfyrwyr yn dod â phobl o'r un anian ynghyd. Mae yna gymdeithasau sy'n gysylltiedig â chyrsiau, fel y Gymdeithas Ieithoedd, y Gymdeithas Sŵoleg a'r Gymdeithas Seicoleg; cymdeithasau sy'n dathlu cenedligrwydd a diwylliant, a chymdeithasau i fyfyrwyr sydd â diddordebau penodol fel drama, cerddoriaeth, ffilm a ffotograffiaeth. Gallwch hyd yn oed ddechrau eich cymdeithas eich hun!

### Gwirfoddoli

Yn ystod eich amser hamdden gallwch ymuno â phrojectau gwirfoddoli trwy Wirfoddoli Myfyrwyr Bangor. Mae gwirfoddoli yn ffordd wych o gyfrannu at y gymuned, a meithrin sgiliau gwerthfawr i hyrwyddo eich cyflogadwyedd.

# Dros 200 o glybiau a chymdeithasau.

## RHAD AC AM DDIM

**Mae modd ymuno â holl glybiau a chymdeithasau Bangor yn rhad ac am ddim!**

## Clybiau Chwaraeon

- Athletau
- Badminton
- Beicio
- Bonllefain
- Canŵ/Polo Canŵ
- Chwaraeon Eira
- Cleddyfa
- Codi Pwysau
- Criced Dynion
- Criced Merched
- Dawns
- Dringo
- Ffitrwydd Polyn
- Ffrisbi Eithafol
- Futsal Dynion
- Futsal Merched
- Golff
- Gymnasteg
- Hoci Dynion
- Hoci Merched
- Hwylio
- Jiu-Jitsu Brasil
- Jiwdo
- Karate
- Ki-Aikido
- Kung Fu a Taekwondo
- Lacrós
- Marchogaeth
- Mynydda
- Nofio
- Nofio Tanfor
- Octopush
- Osgoi'r Bêl
- Padlfyrddio
- Paffio
- Pêl Foli
- Pêl-droed Americanaidd
- Pêl-droed Dynion
- Pêl-droed Gwyddelig Dynion
- Pêl-droed Gwyddelig Merched
- Pêl-droed Merched
- Pêl-fasged Dynion
- Pêl-fasged Merched
- Pêl-law
- Pêl-rwyd
- Quidditch
- Rhwyfo
- Rygbi'r Gynghrair
- Rygbi'r Undeb Dynion
- Rygbi'r Undeb Merched
- Saethyddiaeth
- Sboncen
- Sglefrio
- Snwcer a Phŵl
- Syrffio
- Tennis
- Tonfyrddio
- Trampolîn
- Triathlon

## Cymdeithasau UMCB

- Cymdeithas Aelwydd JMJ
- Cymdeithas John Gwilym Jones
- Radio UMCB
- Y Llef

## Cymdeithasau

- Band Cyngerdd
- Band Pres
- Cymdeithas Adeiladu Lego
- Cymdeithas Affro-Garibïaidd
- Cymdeithas Ail-Greu'r Oesoedd Canol
- Cymdeithas Almaeneg
- Cymdeithas Ambiwlans Sant Ioan
- Cymdeithas Amnest Rhyngwladol
- Cymdeithas Animeiddio Bangor
- Cymdeithas Arabaidd
- Cymdeithas Archeoleg Bangor
- Cymdeithas Arswyd
- Cymdeithas Bioleg
- Cymdeithas Busnes
- Cymdeithas Bydwreigiaeth
- Cymdeithas Campws Wrecsam
- Cymdeithas Celf
- Cymdeithas Cerddoriaeth
- Cymdeithas Coedwigaeth
- Cymdeithas Crefftau
- Cymdeithas Cynghrair Gemau Cyfrifiadurol
- Cymdeithas Cynllwynio
- Cymdeithas Daearyddiaeth
- Cymdeithas Datblygiad Personol
- Cymdeithas Ddadlau
- Cymdeithas Deall (Gwyddorau , Hanes ac Athroniaeth)
- Cymdeithas Democratiaid Rhyddfrydol
- Cymdeithas Disney
- Cymdeithas DJs
- Cymdeithas Drama Saesneg Bangor
- Cymdeithas Dreigiau-K
- Cymdeithas Enactus
- Cymdeithas Endeavour
- Cymdeithas Entomoleg
- Cymdeithas Ffeministaidd
- Cymdeithas Ffilipino
- Cymdeithas Ffilm
- Cymdeithas Ffisiotherapi
- Cymdeithas Ffotograffiaeth
- Cymdeithas Ffuglen Wyddonol a Ffantasi
- Cymdeithas Gadwraeth
- Cymdeithas Gatholig
- Cymdeithas Gemau Rhyfel a Chwarae Rôl
- Cymdeithas Gorwelion Ewropeaidd
- Cymdeithas Gwerthfawrogi Roc a Metel
- Cymdeithas Gwyddbwyll
- Cymdeithas Gwyddorau Meddygol
- Cymdeithas Herpetolegol
- Cymdeithas Hong Kong
- Cymdeithas IEEE
- Cymdeithas Ieithoedd
- Cymdeithas Ieithyddiaeth Bangor
- Cymdeithas Indiaidd
- Cymdeithas Indonesia
- Cymdeithas Islamaidd
- Cymdeithas Japanëeg
- Cymdeithas Jazz
- Cymdeithas Kuwait
- Cymdeithas LHDT+
- Cymdeithas Lindy Hop
- Cymdeithas Llafur
- Cymdeithas Llundain
- Cymdeithas Llysieuol
- Cymdeithas Makerspace
- Cymdeithas Malaysia
- Cymdeithas Meddygol
- Cymdeithas Mêr Esgyrn Bangor
- Cymdeithas Myfyrwyr ac Ysgolheigion Tsieineaidd Bangor
- Cymdeithas Myfyrwyr Anabl Prifysgol Bangor
- Cymdeithas Myfyrwyr Rhyngwladol
- Cymdeithas Nyrsio
- Cymdeithas Ôl-radd
- Cymdeithas Opera a Pherfformio
- Cymdeithas Pacistanaidd
- Cymdeithas Pen bwrdd
- Cymdeithas Plaid Ifanc
- Cymdeithas Pocer
- Cymdeithas Pokémon Go
- Cymdeithas Saudi
- Cymdeithas Seicoleg
- Cymdeithas Seren
- Cymdeithas Sioe Gerdd
- Cymdeithas Sosialaidd
- Cymdeithas Storm FM
- Cymdeithas Sŵolegol
- Cymdeithas Syrcas
- Cymdeithas Theatr Rostra
- Cymdeithas Undeb Cristnogol
- Cymdeithas UNITE
- Cymdeithas Urdd Llenorion
- Cymdeithas Y Gyfraith
- Cymdeithas Y Geidiaid a’r Sgowtiaid
- Cymdeithas Yr Eglwys Uniongred



# Chwaraeon a lles.

**Mae yna wledd o ddewis o'r holl gyfleoedd chwaraeon, ffitrwydd a lles sydd ar gael ym Mangor.**

Mae gan Undeb y Myfyrwyr dros 50 o dimau a chlybiau chwaraeon y gallwch ymaelodi â nhw, a hynny'n rhad ac am ddim gan gynnwys chwaraeon traddodiadol fel pêl-droed, rygbi a thennis ynghyd â champau mwy anarferol fel Quidditch, hoci tanddwr (Octopush) a Ffrisbi Eithafol.

# Dros 50 o dimau a chlybiau.



Mae gennym hefyd gyfleusterau ffitrwydd rhagorol ar y campws, ac wrth gwrs mae ein lleoliad yn golygu y gallwch dreulio amser yn yr awyr agored yn Eryri a'r cyffiniau, yn dringo mynyddoedd, padlfyrddio, caiacio, syrffio a llawer mwy.





**Mae prif Ganolfan Chwaraeon y Brifysgol, Canolfan Brailsford, yng nghanol y Ffriddoedd, y prif bentref myfyrwyr.**

**Mae'r cyfleusterau chwaraeon dan do yno'n cynnwys:**

- campfa dwy lawr o'r radd flaenaf
- ystafelloedd ffitrwydd a hyfforddiant ymarferol 9 platfform o safon Olympaidd
- stiwdios aerobeg a beicio
- wal ddringo a chlogfeini aml-lwybr
- pedwar cwrt sboncen
- Y Dôm - cyfleuster tennis a phêl-rwyd
- cyfleusterau cleddyfa a saethyddiaeth dan do ar safle'r Normal
- ystafell ffitrwydd ym mhentref myfyrwyr y Santes Fair





**Mae'r cyfleusterau awyr agored yn cynnwys:**

- caeau synthetig â llifoleuadau ar gyfer pêl-droed, rygbi a hoci
- caeau glaswellt naturiol ar gyfer pêl-droed Americanaidd, quidditch, lacrosse a ffrisbi eithafol
- cae 3G Safon FIFA a thrac athletau yn Nhreborth
- campfa awyr agored gyda chyfleusterau ar gyfer pêl-droed, pêl-fasged a gemau awyr agored ym mhentref myfyrwyr y Santes Fair.
- campfa awyr agored newydd ym mhentref myfyrwyr y Ffriddoedd a champfa awyr agored ym mhentref myfyrwyr y Santes Fair.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Snowdonia Watersports, canolfan weithgareddau awyr agored ar lan Llyn Padarn yn Llanberis sy'n darparu canolfan ar gyfer rhaglen rwyfo'r Brifysgol a chlybiau chwaraeon dŵr/ mynydda eraill.

Mae cyfleusterau lleol eraill yn cynnwys pwll nofio 25 metr gyda chyfleusterau plymio uchel ym Mangor, y Ganolfan Awyr Agored Genedlaethol (Plas y Brenin), a Phlas Menai, Canolfan Awyr Agored Genedlaethol Chwaraeon Cymru.

**bangor.ac.uk/ bywyd-myfyrwyr/ chwaraeon**


Dewch i brofi'r hud
a'r lledrith.

bangor.ac.uk/cysylltu

Mae Prifysgol Bangor yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod y wybodaeth a geir yn y prosbectws hwn yn gywir ar adeg ei argraffu (Chwefror 2022). Mae'r argraffiad hwn o brosbectws y Brifysgol i israddedigion yn disgrifio'r cyfleusterau a'r cyrsiau y mae'r Brifysgol yn bwriadu eu cynnig yn ystod y flwyddyn academaidd fydd yn dechrau yn hydref 2023. Mae'r prosbectws a'r gwe-dudalennau'n cael eu paratoi beth amser cyn y flwyddyn academaidd y maent yn ymwneud â hi a gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth a geir yn y prosbectws hwn yn ddefnyddiol, yn deg a chywir pan aeth i gael ei argraffu. Fodd bynnag, gall y wybodaeth hon newid dros amser. Mae'r Brifysgol yn gwneud pob ymdrech resymol i ddarparu'r cyrsiau, hyfforddiant a chefnogaeth ddysgu, cyfleoedd ymchwil a gwasanaethau a chyfleusterau eraill gyda gofal a medr rhesymol ac yn y ffordd a ddisgrifir yn y prosbectws hwn.

Fodd bynnag, ni all y brifysgol warantu bod unrhyw gwrs neu gyfleuster yn cael ei ddarparu. Gall rhai amgylchiadau, megis newidiadau staff, cyfyngiadau ar adnoddau a ffactorau eraill nad oes gan y brifysgol unrhyw reolaeth drostynt, megis gweithredu diwydiannol neu newid yn y gyfraith neu lefel y galw am raglen neu fodiwl penodol (nodwch nad yw'r rhestr hon yn un lawn a therfynol), olygu bod rhaid i'r brifysgol dynnu'n ôl neu newid agweddau ar y rhaglenni, y modiwlau a / neu'r gwasanaethau myfyrwyr a / neu'r cyfleusterau y manylir arnynt yn y prosbectws. Gall hyn gynnwys staffio, cynnwys rhaglen/modiwl, y fan lle dysgir y rhaglen/modiwl neu'r dull addysgu, a'r cyfleusterau a ddarperir i gyflwyno neu gefnogi'r rhaglen, ond heb fod yn gyfyngedig o angenrheidrwydd i'r materion hyn.

Lle bo newid yn anorfod oherwydd amgylchiadau, neu lle mae'n angenrheidiol i'r brifysgol ddod â rhaglen astudio i ben, bydd y brifysgol yn cymryd pob cam rhesymol i leihau'r effaith i'r eithaf. Bydd yr holl ddarpar ymgeiswyr sydd wedi mynegi diddordeb yn y rhaglen berthnasol yn cael eu hysbysu cyn gynted â phosib a rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf hefyd ar wefan y brifysgol (www.bangor.ac.uk/cy). Bydd gan unigolyn hawl i dynnu'n ôl o'r cwrs drwy hysbysu'r brifysgol yn ysgrifenedig o fewn cyfnod rhesymol o gael ei hysbysu am y newid. Yn ogystal, caiff ymgeiswyr eu hysbysu am unrhyw newidiadau rhwng y prosbectws a'r cwrs a gwasanaethau arfaethedig ar yr adeg y gwneir cynnig iddynt.

Anogir darpar ymgeiswyr i edrych ar ein gwefan i gael y wybodaeth ddiweddaraf. Nid yw parodrwydd y brifysgol i ystyried cais yn sicrwydd y derbynnir yr ymgeisydd. Derbynnir myfyrwyr i'r brifysgol ar y sail bod y wybodaeth a roddant ar eu ffurflen gais yn gyflawn ac yn gywir. Gall yr holl brisiau a nodir yn y prosbectws hwn newid a byddwch yn cael eich hysbysu am unrhyw newid o'r fath pan fydd y brifysgol yn cynnig lle i chi. Pe baech yn dod yn fyfyriwr yn y brifysgol, bydd yr hysbysiad hwn yn un o delerau unrhyw gontract rhyngoch chi a'r brifysgol. Bydd unrhyw gynnig o le yn y brifysgol yn amodol ar yr amodau cofrestru myfyrwyr a rheolau a rheoliadau'r brifysgol a gaiff eu diwygio o bryd i'w gilydd. Gellir gweld copi o delerau ac amodau cyfredol y brifysgol ar-lein yn: www.bangor.ac.uk/telerau-ac-amodau neu ar bapur gan y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio, Prifysgol Bangor, Bangor, Gwynedd, LL57 2DG.

Prifysgol Bangor,
Bangor, Gwynedd, LL57 2DG

Mae Prifysgol Bangor yn Elusen Gofrestredig: Rhif 1141565

W W W . B A N G O R . A C . U K